Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# Adroddiad Lles Blynyddol
# 2020/21



Gweithio dros Gaerdydd, gweithio drosoch chi

# Cyflwyniad yr Arweinydd

Mae'r adroddiad Lles Blynyddol yn darparu asesiad gwerthusol o berfformiad y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.

Wrth ddod i gasgliadau am berfformiad y sefydliad, rydym wedi defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth i sicrhau asesiad llawn a chytbwys. Mae hyn nid yn unig yn cynnwys cynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol a Chamau'r Cyngor o dan bob Amcan Lles, ond monitro ariannol a gwybodaeth risg hefyd, yn ogystal ag arolygon ac adborth gan ddinasyddion.

Mae'r broses hunanasesu hefyd yn defnyddio'r asesiad o lywodraethu gwleidyddol ehangach y Cyngor, gan adlewyrchu dyfarniadau ein Pwyllgorau Craffu ac Archwilio ar amrywiaeth o faterion. Un prawf allweddol o unrhyw hunanasesiad yw cysondeb â barn archwilwyr allanol a chredaf fod ein hunanasesiad yn cyd-fynd â chanfyddiadau partneriaid rheoleiddio megis Archwilio Cymru, Estyn, ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a fabwysiadwyd yn ddiweddar yn rhoi pwyslais sylweddol ar hunanasesu a chredaf, oherwydd y trefniadau sydd gennym ar waith, ein bod ar flaen y gad. Mae ein trefniadau'n aeddfedu ac yn ein galluogi i ddatblygu darlun cytbwys o'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn flaenorol a nodi meysydd her perfformiad y mae angen rhoi sylw a ffocws pellach iddynt dros y misoedd i ddod.

Yn ôl unrhyw fesur, mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cyflwyno heriau unigryw i bob partner gwasanaeth cyhoeddus. Yn wyneb problemau newydd, brys a chymhleth o ganlyniad i'r pandemig Covid-19, rydym wedi gweld cydweithio ar lefel ddigynsail rhwng gwasanaethau cyhoeddus y ddinas, gyda gwasanaethau partneriaeth newydd yn cael eu creu ar ehangder a chyflymder. Nodwyd, cytunwyd a darparwyd atebion radical sy'n gofyn am ailgynllunio a diwygio gwasanaethau sylfaenol – atebion a ystyriwyd yn aml yn ddyheadau hirdymor cyn y pandemig – er mwyn cadw pobl, preswylwyr a staff agored i niwed yn ddiogel tra'n atal y feirws rhag lledaenu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sefydlwyd Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu hynod effeithiol a arweinir yn lleol, gan chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddiogelu iechyd y cyhoedd, ac mae adeiladau a staff y Cyngor wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglen frechu'r ddinas. Mae degau o filoedd o barseli bwyd wedi eu danfon i blant ysgol a thrigolion mwyaf bregus ein dinas ac addaswyd gwestai fel nad oes rhaid i unrhyw un gysgu ar strydoedd ein dinas. Mae'r Cyngor hefyd wedi rhoi dros £120 miliwn o gymorth ariannol i bron i 20,000 o fusnesau yn ystod y pandemig.

Mae'r cyflawniadau hyn yn dyst i ymrwymiad eithriadol staff y Cyngor – a chydweithwyr eraill yn y gwasanaeth cyhoeddus – wrth ymateb i'r argyfwng. Er ei bod yn gyfnod anodd a heriol i bawb, mae staff i bob pwrpas wedi ymateb i'r her ac yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu ein cymunedau a chadw Caerdydd yn ddiogel.

Yn yr un ffordd, gwnaed cynnydd da o ran cyflawni ein blaenoriaethau polisi hirsefydlog. Mae hyn yn cynnwys darparu ysgolion newydd, darparu'n barhaus un o raglenni adeiladu tai mwyaf uchelgeisiol y DU, parhau â'r newid mewn cydbwysedd gofal a gweithredu dull newydd radical o fynd i'r afael â digartrefedd.

Rydym hefyd wedi datblygu mentrau ehangach, megis annog cyflogwyr ar draws y ddinas i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a datblygu cyfnod pontio carbon-isel y ddinas.

Mae yna heriau hefyd, fodd bynnag, a meysydd lle gwyddwn fod yn rhaid i ni wneud yn well. Rydym yn cydnabod bod yn rhaid gwneud mwy i godi cyfraddau ailgylchu er mwyn cyrraedd targedau statudol, ac nid yw safonau glendid mewn rhai wardiau'n bodloni'r safonau uchel yr ydym wedi'u gosod ar gyfer y ddinas yn ei chyfanrwydd. Rydym yn cydnabod bod angen parhau i ganolbwyntio ar welliannau ymarfer ar draws y Gwasanaethau Plant, yn ogystal â'r angen i reoli'r galw a phwysau cost. Erys gwydnwch ariannol yn flaenoriaeth barhaus – yn ychwanegol at effeithiau'r argyfwng Covid-19, mae rhai cyfarwyddiaethau'n parhau i wynebu pwysau ariannol hirsefydlog a sylweddol. At hynny, mae angen dull targedig i barhau i wella absenoldeb salwch a lles staff ar draws y Cyngor, gyda'r angen i ddeall y sbardunau i'r enillion cynhyrchiant a gyflawnwyd yn ystod y pandemig. Bydd y meysydd hyn yn flaenoriaethau ar gyfer gwella dros y flwyddyn i ddod.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn ei gwneud yn glir y bydd cam nesaf yr ymateb i'r pandemig yn golygu mynd i'r afael â phwysau galw sylweddol ar draws y Cyngor. Mae Covid-19 wedi dod â chaledi economaidd sylweddol i bobl a chymunedau, yn enwedig y tlotaf a'r mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae diweithdra wedi dyblu ers mis Mawrth 2021, a bu cynnydd o dros 100% mewn ceisiadau Credyd Cynhwysol. Bu cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant dros y 12 mis diwethaf, yn ogystal â phlant sydd angen Cynllun Gofal a Chymorth. Mae effaith allgáu cymdeithasol ar iechyd meddwl hefyd wedi arwain at alw sylweddol am gymorth iechyd meddwl a lles ar draws yr holl wasanaethau. Mae'r rhain yn debygol o fod yn ddangosyddion cynnar o 'gynffon hir' y pandemig, lle bydd effaith economaidd a chymdeithasol tymor canolig a hirdymor Covid-19 yn arwain at bwysau galw a chost.

Gan symud ymlaen, cynhaliwyd ymarfer cynllunio adferiad cynhwysfawr fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Cynllun Corfforaethol 2021-24, sy'n cynnwys blaenoriaethau ar gyfer adfer gwasanaethau dros y tymor canolig. Rydym hefyd wedi ymrwymo i raglen 'adnewyddu'r ddinas', sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid yn y ddinas i arwain adferiad gwyrddach a thecach. Ategir hyn gan gyfres o gynigion a fydd yn cefnogi adnewyddiad hirdymor, a fydd yn cynrychioli blaenoriaethau cyflawni dros y flwyddyn i ddod.

Fel bob amser, diolch i'r holl Gynghorwyr, staff, partneriaid a dinasyddion sydd wedi helpu i gyflawni'r cyflawniadau a nodir yn yr adroddiad hwn. Hoffwn ddiolch yn arbennig hefyd i aelodau'r Pwyllgorau Archwilio a Chraffu, sy'n parhau i gefnogi trefniadau perfformiad a llywodraethu'r Cyngor ac sydd wedi chwarae rhan werthfawr wrth lywio'r asesiad perfformiad hwn.

Mae'r adroddiad hwn wedi darparu asesiad gonest, teg a chytbwys o berfformiad y Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf, a byddwn yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau a nodwyd yn y flwyddyn i ddod.



**Y Cyng. Huw Thomas**
Arweinydd Cyngor Caerdydd

# Cynnwys


**2** **Cyflwyniad yr Arweinydd**

**6** **Ynglŷn â'r adroddiad hwn**

**7** **Cip ar y Cyngor - Gwasanaethu'r Ddinas**

**8** **Caerdydd yn 2020/21: Prif Dueddiadau**

- 8 Effaith Covid-19 ar Gaerdydd
- 10 Argyfwng Economaidd Dyfnach gyda Chynlluniau Adfer
- 11 Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau sy'n Ehangu
- 12 Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd
- 12 Rhagolwg Ariannol

**13** **Ymgysylltu â'n Trigolion: Boddhad Cyffredinol Dinasyddion**

**15** **Adolygiad o Amcanion Lles**

**15** **Cyfraniad at Nodau Lles Cenedlaethol**

**16** **Sut rydym yn Hunanasesu ein Hamcanion Lles**

**17** **Ateb heriau Covid-19**

- 17 Cyd-destun
- 17 Llwyddiannau Allweddol yn 2020/21
- 19 Heriau a Risgiau
- 20 Edrych 'Mlaen: Meysydd o Ffocws

**22** **Amcan Lles 1: Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu**

- 23 Llwyddiannau Allweddol yn 2020/21
- 26 Heriau a Risgiau
- 28 Edrych 'Mlaen: Meysydd o Ffocws

**31** **Amcan Lles 2: Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn**

- 32 Llwyddiannau Allweddol yn 2020/21
- 34 Heriau a Risgiau
- 34 Edrych 'Mlaen: Meysydd o Ffocws

**36** Amcan Lles 3: **Cefnogi pobl allan o dlodi**

37 Llwyddiannau Allweddol yn 2020/21

38 Heriau a Risgiau

39 Edrych 'Mlaen: Meysydd o Ffocws

**42** Amcan Lles 4: **Cymunedau diogel, hyderus a grymus**

43 Llwyddiannau Allweddol yn 2020/21

47 Heriau a Risgiau

48 Edrych 'Mlaen: Meysydd o Ffocws

**50** Amcan Lles 5: **Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru**

51 Llwyddiannau Allweddol yn 2020/21

53 Heriau a Risgiau

54 Edrych 'Mlaen: Meysydd o Ffocws

**56** Amcan Lles 6: **Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn**

57 Llwyddiannau Allweddol yn 2020/21

59 Heriau a Risgiau

60 Edrych 'Mlaen: Meysydd o Ffocws

**62** Amcan Lles 7: **Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus**

63 Llwyddiannau Allweddol yn 2020/21

65 Heriau a Risgiau

66 Edrych 'Mlaen: Meysydd o Ffocws

# Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor - 'Cyflawni Uchelgais Prifddinas' - yn trosi blaenoriaethau gwleidyddol y Weinyddiaeth yn amcanion sefydliadol realistig.

Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol hwn yn rhoi crynodeb diwedd blwyddyn o'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

| Mae Cynllun Corfforaethol 2020-23 yn cynnwys: | Mae Adroddiad Lles Blynyddol 2020/21 yn cynnwys: |
|---|---|
| **Amcanion Lles:** Mae'r rhain yn nodi'r canlyniadau y mae'r Cyngor am eu cyflawni, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau gwleidyddol y weinyddiaeth a'r dyheadau a rennir â phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus. (Gofyniad Statudol) | Asesiad strategol o bob Amcan Lles a dadansoddiad o gynnydd. |
| **Camau:** Ar gyfer pob Amcan Lles, nododd y Cyngor nifer o Gamau y byddai'n eu cymryd i helpu i gyflawni'r Amcan Lles. (Gofyniad Statudol) | Atodiad sy'n cynnig diweddariad manwl yn erbyn pob Cam. |
| **Dangosyddion Perfformiad Allweddol:** Nododd y Cyngor nifer o ddangosyddion i gefnogi a rhoi cip ar gynnydd drwy gydol y flwyddyn yn erbyn pob Amcan Lles. | Atodiad sy'n cynnwys diweddariad yn erbyn pob un o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol. |
| **Targedau:** Lle y bo'n briodol, mae targedau yn cael eu gosod yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol i nodi'r lefel ddymunol o berfformiad. | Arwydd clir o ran a yw targedau wedi'u bwrw. |
| **Sgoriau CMG:** Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael sgôr CMG o fewn lefel benodedig o oddefiant. Gwyrdd yw pan fo'r canlyniad yn cyrraedd y targed neu'n rhagori arno; Melyn lle mae'r canlyniad o fewn 10% o'r targed, a Choch lle mae'r canlyniad ymhellach na 10% o'r targed. | Cynhelir asesiad CMG ar gyfer y Camau a'r dangosyddion Perfformiad Allweddol. |

Mae'n bwysig bod yr Adroddiad Lles Blynyddol yn cael ei ystyried yng nghyd-destun ehangach tirwedd adrodd corfforaethol y Cyngor. Ochr yn ochr â'r Datganiad Cyfrifon, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Adroddiad Risg, mae'r Adroddiad Lles Blynyddol yn helpu i roi darlun cyflawn o berfformiad sefydliadol.

Cyflwynir yr Adroddiad Lles Blynyddol i'w gymeradwyo'n llawn gan y Cabinet a'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf 2021.

**Rydym yn croesawu adborth ar yr adroddiad hwn. Cysylltwch â'r:**

Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Bae Caerdydd CF10 4UW
E-bost: perfformiad@caerdydd.gov.uk

# Cip ar y Cyngor - Gwasanaethu'r Ddinas

Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn darparu tua 700 o wasanaethau i fwy na 365,000 o drigolion mewn 154,000 o aelwydydd, gan helpu i gefnogi cymunedau lleol a gwella bywydau trigolion Caerdydd. Ymysg y gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu mae:

- Ysgolion ac addysg
- Casglu biniau
- Cynnal parciau a thorri'r glaswellt
- Glanhau strydoedd
- Darparu gwasanaethau i bobl hŷn a phobl ag anableddau
- Rheoli'r stoc dai
- Gofalu am blant sydd mewn gofal
- Cynnal a chadw ffyrdd a phriffyrdd




# Caerdydd yn 2020/21: Prif Dueddiadau

## Effaith Covid-19 ar Gaerdydd


Y pandemig Covid-19 yw her fwyaf ein hoes i wasanaethau cyhoeddus lleol. Ochr yn ochr â'i bartneriaid, arweiniodd y Cyngor yr ymateb i'r pandemig drwy gydweithio i atal lledaeniad y feirws, lleihau derbyniadau i'r ysbyty a sicrhau iechyd y boblogaeth.

Ar 22 Mehefin 2021, cyrhaeddodd nifer cronnol yr achosion o Covid-19 yng Nghaerdydd 26,703. Dengys Ffigur 1 nifer cronnol yr achosion yng Nghaerdydd rhwng 31 Ionawr 2020 a 22 Mehefin 2021.





**Ffigur 1:** *Achosion Covid-19 Cronnol yng Nghaerdydd (cyfradd fesul 100,000) rhwng 31 Ionawr 2020 a 22 Mehefin 2021*

Dengys Ffigur 2 yr achosion cronnol yng Nghaerdydd, hyd at 22 Mehefin 2021, o gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Gellir priodoli niferoedd cymharol uchel Caerdydd, yn rhannol o leiaf, i safle Caerdydd fel awdurdod lleol trefol a dwysedd ei phoblogaeth.




**Ffigur 2:** *Cyfanswm yr Achosion o Covid-19 mewn Awdurdodau Lleol yng Nghymru (cyfradd fesul 100,000)*

Serch hynny, mae'n amlwg bod Caerdydd wedi gwneud yn well na'r rhan fwyaf o Ddinasoedd Craidd. O gymharu â Dinasoedd Craidd ledled y DU, mae nifer cronnol yr achosion Covid-19 yng Nghaerdydd yn isel, gyda dim ond Bryste a Chaeredin yn is (Ffigur 3).




**Ffigur 3:** *Cyfanswm yr Achosion o Covid-19 mewn Dinasoedd Craidd (cyfradd fesul 100,000) – Diweddarwyd ddiwethaf 23 Mehefin 2021*

Er bod y rhaglen frechu'n mynd rhagddi'n gyflym a lefelau'r haint yn y ddinas yn isel ar hyn o bryd o ganlyniad i'r cyfnod clo, bydd angen rheoli'r pandemig yn barhaus a bydd angen cymryd camau o hyd i reoli lledaeniad y feirws ac amddiffyn dinasyddion. Mae hyn yn cynnwys paratoi ac ymateb i donnau posibl yn y dyfodol, gan gynnwys y drydedd don bresennol, a sicrhau bod derbyniadau i'r ysbyty yn parhau mor isel â phosibl. Fel rhanbarth, mae prosesau ar waith i reoli unrhyw amrywiolion a mwtantiaid sy'n peri pryder, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac mae teithwyr rhyngwladol, yn enwedig y rhai sy'n cyrraedd o wledydd 'rhestr goch' neu 'restr ambr', yn parhau i gael eu monitro a'u rheoli.




## Argyfwng Economaidd Dyfnach gyda Chynlluniau Adfer

Ar yr un pryd â'r argyfwng iechyd cyhoeddus Covid-19, mae'r DU nawr yn wynebu argyfwng economaidd digynsail. Mae economi'r DU yn wynebu'r crebachiad mwyaf mewn tair canrif, gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagweld y bydd diweithdra dros 50% yn uwch yng Nghaerdydd am o leiaf ddwy flynedd.

Mae effaith economaidd y cyfnod clo yn golygu mai pobl ifanc a phobl mewn gwaith ansicr sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddiweithdra, gan mai'r sectorau yr effeithiwyd arnynt fwyaf – lletygarwch, hamdden a manwerthu – yw'r rhai sy'n cyflogi cyfrannau mawr o bobl ifanc. Er bod nifer fawr o fusnesau wedi gallu rhoi eu gweithwyr ar ffyrlo drwy Gynllun Cadw Swyddi Llywodraeth y DU, gydag 20,000 o weithlu'r ddinas ar ffyrlo ar 31 Mawrth 2021 [1], disgwylir i'r cynllun ddod i ben ar 30 Medi 2021. Mae hyn yng nghyd-destun diweithdra sydd eisoes wedi dyblu yn y ddinas.

Gellir rhagweld mai ardaloedd tlotaf Caerdydd fydd yn cael eu taro galetaf gan yr argyfwng economaidd, gan ymwreiddio amddifadedd a chynyddu'r bwlch mewn canlyniadau rhwng cymunedau yn y ddinas. Mae data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Ffigur 4) yn datgelu cynnydd clir yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra ar draws pob grŵp oedran ers mis Mawrth 2020 a dechrau'r pandemig.




**Ffigur 4:** *Cyfradd y Bobl sy'n Hawlio Budd-dal yng Nghaerdydd yn ôl Grŵp Oedran, Ionawr 2020 - Mai 2021*

Mewn ymateb i'r argyfwng hwn, mae'r Cyngor yn gweithio i adleoli Caerdydd fel economi ffyniannus, gynhwysol a gwyrdd yn y cyfnod ar ôl Covid. Er mai'r flaenoriaeth gyntaf yw diogelu swyddi a busnesau sy'n bodoli eisoes, bydd angen creu swyddi newydd a hygyrch hefyd – yn enwedig i bobl ifanc a'r rhai sydd wedi colli eu swyddi yn ystod y pandemig.

Fel rhan o adferiad cryf, bydd y Cyngor yn buddsoddi mewn prosiectau datblygu mawr a fydd yn creu swyddi yn y sectorau gwyrdd, sylfaenol a gwerth uchel, gan gynnwys yr Arena Dan Do, Cwr y Gamlas, rhwydwaith gwresogi ardal a chynllun adeiladu tai carbon-isel. Yn ogystal â chreu swyddi o ansawdd da yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig, rhaid i'r datblygiadau hyn helpu i gyflymu'r broses o ddatgarboneiddio ac adnewyddu'r ddinas. At hynny, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddatblygiad parhaus y Sgwâr Canolog, a fydd yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth ddenu'r mewnfuddsoddiad sydd ei angen i greu swyddi cynhyrchiant-uchel yn y sectorau technoleg ariannol, proffesiynol a chreadigol datblygol. Gyda buddsoddiad pellach yng Ngorsaf Caerdydd Canolog a'r orsaf fysiau yn fuan i greu canolfan drafnidiaeth ranbarthol ffyniannus yng nghanol yr Ardal Fusnes Ganolog hon, bydd Caerdydd yn parhau i weithredu fel injan economaidd i'r ddinas-ranbarth a'r genedl yn y blynyddoedd i ddod.


1 Mae hyn yn seiliedig ar hawliadau a wnaed erbyn 14 Mai 2021.

## Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau sy'n Ehangu

Ledled Cymru, mae Covid-19 wedi taro cymunedau mwy difreintiedig yn galed, o ran canlyniadau iechyd uniongyrchol a thrwy greu caledi economaidd pellach, yn enwedig i'r tlotaf a'r mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae diweithdra wedi dyblu, bu cynnydd o dros 100% mewn ceisiadau Credyd Cynhwysol ac, yn y pen draw, mae llawer mwy o deuluoedd wedi syrthio i mewn i dlodi.

At hynny, mae'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn y ddinas yn rhy fawr (Ffigur 5). Er enghraifft, mae cyfraddau diweithdra Trelái ac Adamsdown tua 5 gwaith yn uwch na rhai Llys-faen. Mae'r gwahaniaethau mewn canlyniadau iechyd yn amlycach fyth, gyda bwlch disgwyliad oes iach o rhwng 22 a 24 blynedd rhwng y cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig a chyfraddau marwolaeth o glefyd y galon, er enghraifft, saith gwaith yn uwch yng Nglan-yr-afon nag yn Nraenen Pen-y-graig.

Mae lleihau'r bwlch anghydraddoldeb a chreu cymunedau mwy llewyrchus yn parhau'n un o nodau canolog Uchelgais Prifddinas, yn ogystal â strategaethau adfer ac adnewyddu'r Cyngor, gyda rhaglen o fentrau polisi mawr wedi'i chynllunio i gau'r bwlch. Mae hyn yn cynnwys adeiladu ysgolion newydd, codi safonau cyrhaeddiad ar gyfer pob dysgwr a chefnogi pobl ifanc i mewn i waith. Mae hefyd yn cynnwys dull newydd radical o fynd i'r afael â digartrefedd tra'n bwrw ymlaen â rhaglen adeiladu tai uchelgeisiol y Cyngor. Cefnogir hyn i gyd gan ymrwymiad y Cyngor i ddefnyddio ei faint a'i gyrhaeddiad i sicrhau'r gwerth cymdeithasol mwyaf posibl, tra'n bwrw ymlaen â mentrau ehangach megis annog cyflogwyr ar draws y ddinas i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a datblygu cyfnod pontio carbon-isel y ddinas.




**Ffigur 5:** *Canran y Boblogaeth sy'n Byw yn y 10% o Ardaloedd Mwyaf Difreintiedig yng Nghymru*

## Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd

Er gwaethaf dyfnder yr argyfwng Covid-19, mae'r Cyngor wedi cydnabod mai newid yn yr hinsawdd yw her fyd-eang ddiffiniol ein cenhedlaeth o hyd. Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cynnydd yn lefel y môr, perygl llifogydd, tywydd eithafol, cyflenwadau ynni anghynaliadwy ac, yn y pen draw, ansefydlogrwydd economaidd eang, yn rhoi degau o filiynau o bobl, a'u swyddi, mewn perygl uniongyrchol ledled y byd. Mae'r materion hyn eisoes yn effeithio ar ardal Caerdydd a'i phoblogaeth.

Cymeradwyodd Cabinet y Cyngor Strategaeth Caerdydd Un Blaned ddrafft ar gyfer ymgynghoriad ym mis Hydref 2020 fel ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd. Gosododd hon uchelgais i weithrediadau'r Cyngor fod yn garbon niwtral erbyn 2030 ac i weithio gyda phartneriaid ledled y ddinas i ddatblygu map ffordd a chynllun gweithredu ar gyfer Dinas Carbon Niwtral erbyn 2030.

Mae'r strategaeth yn nodi ystod eang o gyfleoedd y gall y ddinas fanteisio arnynt i ysgogi "adferiad gwyrdd" o Covid-19, gan ail-fframio economi Caerdydd mewn ffordd wydn, gadarn a hirdymor. Felly, mae Caerdydd Un Blaned yn fecanwaith cyflawni allweddol ar gyfer strategaethau adfer ac adnewyddu'r Cyngor; wrth symud ymlaen, bydd y Cyngor yn arwain prifddinas sydd ar flaen y gad o ran economi werdd a chynhwysol, gan gefnogi adferiad amgylcheddol ac economaidd yng Nghymru.

Bydd strategaeth Caerdydd Un Blaned derfynol yn cael ei rhyddhau tua diwedd y flwyddyn.

## Rhagolwg Ariannol

Daeth risgiau mawr i'r amlwg o ran sefyllfa gyllidebol y Cyngor, yn enwedig y costau parhaus a'r incwm a gollwyd yn sgil yr ymateb i Covid-19, yn ogystal ag effaith y Cytundeb Masnach y cytunwyd arno gyda'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r heriau ariannol hyn yn dilyn degawd o galedi, a dros y cyfnod hwnnw mae'r Cyngor wedi cau bwlch cyllidebol o bron i chwarter biliwn o bunnoedd a gweld nifer y staff nad ydynt yn staff ysgol yn gostwng gan 22%.

Roedd Strategaeth Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2021/22, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021, yn cynnwys y tybiaethau Cynllunio Ariannol Tymor Canolig diweddaraf ac yn awgrymu bwlch cyllidebol cronnol dros y pedair blynedd nesaf o £85m (hyd at 2025/26). Felly, mae angen parhau i nodi cyfleoedd newydd i sicrhau effeithlonrwydd; rhaid i drawsnewidiad ar draws gwasanaethau fod yn sbardun pwysig i hyn, yn enwedig lle gellir elwa ar fanteision modelau darparu gwasanaeth newydd ar ôl y pandemig.




## Ymgysylltu â'n Trigolion: Boddhad Cyffredinol Dinasyddion

Yn Arolwg Cenedlaethol diweddaraf Cymru, a gynhaliwyd yn 2019/20, Caerdydd oedd yr Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru pan ofynnwyd i ddinasyddion a oedd eu Hawdurdod Lleol yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg mawr o oedolion yng Nghymru – yn cynnwys tua 12,000 o bobl bob blwyddyn – sy'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau fel lles a barn pobl ar wasanaethau cyhoeddus. Mae'r astudiaeth yn cael ei rhedeg gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru.

| Awdurdod Lleol | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|---|
| **Caerdydd** | **58** | **22** | **21** |
| Gwynedd | 57 | 22 | 21 |
| Sir Ddinbych | 55 | 26 | 19 |
| Rhondda Cynon Taf | 54 | 20 | 25 |
| Sir Gaerfyrddin | 53 | 25 | 22 |
| Conwy | 52 | 25 | 23 |
| Sir Fynwy | 52 | 19 | 29 |
| Sir y Fflint | 51 | 19 | 30 |
| Sir Benfro | 51 | 23 | 26 |
| Torfaen | 49 | 22 | 29 |
| Ynys Môn | 48 | 25 | 27 |
| Castell-nedd Port Talbot | 47 | 21 | 31 |
| Bro Morgannwg | 46 | 28 | 26 |
| Ceredigion | 45 | 30 | 25 |
| Caerffili | 44 | 25 | 31 |
| Casnewydd | 44 | 24 | 32 |
| Abertawe | 42 | 29 | 29 |
| Merthyr Tudful | 37 | 23 | 39 |
| Wrecsam | 34 | 30 | 36 |
| Powys | 34 | 29 | 36 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 34 | 23 | 43 |
| Blaenau Gwent | 29 | 21 | 51 |

At hynny, bob blwyddyn mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n uniongyrchol â thrigolion Caerdydd, drwy'r Arolwg Holi Caerdydd, i glywed eu barn ac ymgynghori ar ystod eang o bolisïau, cynlluniau a chynigion sy'n effeithio ar y gymuned leol. **Mae'r arolwg Holi Caerdydd blynyddol yn rhoi cyfle i bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd rannu eu profiadau o wasanaethau cyhoeddus.**

Canfu canlyniadau'r arolwg Holi Caerdydd diweddaraf, a gynhaliwyd yn 2020, **fod boddhad dinasyddion â gwasanaethau'r Cyngor wedi cynyddu bron i 11%**, gyda 67.4% o drigolion yn datgan eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn ar wasanaethau'r Cyngor (Ffigur 6). Hefyd, **dywedodd 86.1% o ymatebwyr eu bod yn fodlon ar Gaerdydd fel lle i fyw**.




**Ffigur 6:** *Boddhad Dinasyddion â'r Cyngor a Gwasanaethau Cyhoeddus*



## Adolygiad o Amcanion Lles


Gosodir yr Amcanion Lles yn dilyn proses hunanasesu a gynhelir gan bob cyfarwyddiaeth. O ganlyniad i'r ymarfer hwn mabwysiadwyd Amcan Lles newydd – Rheoli'r Pandemig Covid-19 – ar gyfer 2021/22.

Mae pob Cam rhesymol yn cael ei gymryd i gyflawni'r Amcanion ac mae ein Hamcanion yn parhau'n gyson â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

## Cyfraniad at Nodau Lles Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu Nodau Lles cenedlaethol. Mae Cyngor Caerdydd a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd wedi cytuno ar Amcanion Lles lleol, sy'n ategu'r Nodau Lles cenedlaethol. Er mwyn mesur cynnydd Caerdydd tuag at gyflawni'r saith Amcan Lles, dewiswyd cyfres o ddangosyddion canlyniadau lefel uchel sy'n darparu mesurau gwrthrychol o berfformiad y ddinas.

Mae dangosyddion lefel uchel yn ddangosyddion canlyniadau sy'n mesur tueddiadau hirdymor. Maent yn rhoi trosolwg o berfformiad y ddinas, dros amser ac yn ei gymharu â dinasoedd ac Awdurdodau Lleol eraill. Mae'n anodd dylanwadu'n uniongyrchol ar y tueddiadau y maent yn eu mesur ac ni ellir dal unrhyw gorff neu sefydliad unigol yn atebol am eu cyflawni. Gan fod Cyngor Caerdydd a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd yn gweithio tuag at yr un saith Amcan Lles, cytunwyd y dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fabwysiadu set ategol o ddangosyddion wrth fesur cynnydd yn erbyn yr Amcanion Lles



## Sut rydym yn Hunanasesu ein Hamcanion Lles

Mae'r Cyngor yn defnyddio nifer o ffynonellau gwybodaeth i asesu cynnydd yn erbyn Amcanion Lles, gan gynnwys:

- **Cynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Cyngor** – Nodir nifer o ddangosyddion perfformiad yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor sy'n helpu i ddangos pa gynnydd a wnaed i gyflawni'r Amcanion Lles. Lle bo hynny'n berthnasol, gosodir targedau yn erbyn y dangosyddion perfformiad hyn i ddangos lefel y llwyddiant sydd ei angen. Neilltuir statws CMG i ddangosyddion perfformiad: **Gwyrdd** lle mae'r dangosydd yn bwrw'r targed neu'n uwch, **Melyn** lle mae'r canlyniad o fewn 10% o'r targed a **Choch** lle mae'r canlyniad ymhellach na 10% o'r targed.
- **Cynnydd yn erbyn y Camau ym mhob Amcan Lles** - Gwnaeth y Cyngor gynnwys nifer o Gamau yn y Cynllun Corfforaethol i helpu i gyflawni'r Amcanion Lles. Mae monitro cynnydd y Camau hyn yn rhoi dealltwriaeth o'r hyn a gyflawnwyd a lle mae angen mwy o waith.
- **Adroddiadau Archwilio** – Mae'r Cyngor yn destun nifer o archwiliadau gan gyrff rheoleiddio gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn (Addysg) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae eu canfyddiadau'n helpu'r Cyngor i asesu meysydd perfformiad cryf, yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen gwella.
- **Arolygon ac Adborth Dinasyddion** - Mae arolwg blynyddol Holi Caerdydd, yn ogystal â gwaith ymgynghori ac ymgysylltu mwy penodol, yn rhoi cyfle i ddinasyddion Caerdydd rannu eu barn ar amrywiaeth eang o wasanaethau'r Cyngor. O hyn mae modd nodi meysydd perfformiad cryf, ynghyd â'r meysydd hynny lle teimla dinasyddion Caerdydd fod angen i'r Cyngor wella. Yn yr un modd, mae cwynion a chanmoliaeth yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth am berfformiad. Fel arfer, caiff yr Adroddiad Lles Blynyddol ei ystyried gan y Cabinet ochr yn ochr â'r Adroddiad Cwynion Blynyddol; fodd bynnag, gan fod staff wedi cael eu hadleoli, caiff yr Adroddiad Cwynion ei ystyried yn ddiweddarach eleni.
- **Monitro Cyllid** - Mae Adroddiad Alldro 2020/21 y Cyngor yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa ariannol y Cyngor mewn perthynas â'r flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2021.
- **Adborth gan Bwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio** - Mae'r Cyngor yn ymateb i faterion ac argymhellion sy'n cael eu codi gan y Pwyllgorau Craffu, sy'n helpu i lywio gwelliant mewn perfformiad.
- **Risg** – Ystyrir Risgiau Corfforaethol a Chyfarwyddiaethol y Cyngor fel rhan o gipolwg crwn ar berfformiad.

Drwy adolygu'r wybodaeth hon gall y Cyngor ddatblygu darlun cytbwys o daith wella'r Cyngor dros y flwyddyn. Trwy ddefnyddio'r wybodaeth hon, gall y Cyngor nodi meysydd gwella a dathlu llwyddiant, a hefyd nodi meysydd lle na fu'r perfformiad cystal, ac felly'r meysydd sydd angen mwy o sylw.

# Ateb heriau Covid-19

## Cyd-destun

Roedd ymddangosiad Covid-19 yn 2020 yn her ddigynsail i'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid gwasanaeth cyhoeddus, gan effeithio ar bron bob agwedd ar wasanaethau. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi arwain yr ymateb i'r pandemig, gan atal lledaeniad y feirws tra'n sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen allweddol yn parhau i gael eu darparu a diogelu pobl fwyaf bregus y ddinas.

Er y bydd angen rheoli'r pandemig yn barhaus o hyd a chymryd camau i reoli lledaeniad y feirws ac amddiffyn dinasyddion, yn enwedig ymateb i unrhyw amrywiolion sy'n peri pryder, mae'r Cyngor bellach yn edrych tuag at 2021 fel blwyddyn o adferiad ac adnewyddu.

## Llwyddiannau Allweddol yn 2020/21

### Trefnu ymateb ar draws y ddinas i'r pandemig

- **Gwaith partneriaeth cryfach**: Mae'r trefniadau cyflawni ledled Caerdydd wedi'u nodweddu gan lefel ddigynsail o waith partneriaeth, gyda'r Cyngor yn cynnull clymblaid o bartneriaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ddarparu ymateb ledled y ddinas i'r argyfwng. Symudwyd staff yn gyflym ar draws y system gwasanaeth cyhoeddus i'r lle yr oedd eu hangen fwyaf, a rhoddwyd trefniadau llywodraethu partneriaeth newydd ar waith, o dan arweiniad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd, dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Cyngor, i alluogi penderfyniadau cyflym a chadarn.

### Darparu Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu effeithiol

- **Sefydlu Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu newydd**: Roedd y Cyngor yn rhan allweddol o'r gwaith o greu Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (POD) y ddinas, yn ogystal â'r system POD genedlaethol. Ar anterth y pandemig, roedd dros 400 o staff yn gweithio o bell i'r gwasanaeth, a derbyniodd pob un ohonynt hyfforddiant. Cynhaliwyd 151,513 o brofion yng Nghaerdydd yn 2020 a rhwng mis Mehefin 2020 a mis Ionawr 2021, rheolwyd tua 30,000 o achosion cyfeirio a 50,000 o gysylltiadau. Bydd y gwaith hwn yn parhau, gan fod Llywodraeth Cymru wedi ymestyn cyllid ar gyfer y gwasanaeth tan fis Mawrth 2022. Bydd POD yn cael ei wreiddio fel gwasanaeth parhaus cyhyd ag y bo'n parhau i fod yn angenrheidiol.
- **Darparu cymorth "gorlif" ledled Cymru**: Cymaint oedd llwyddiant Gwasanaeth POD Caerdydd fel bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Gyngor Caerdydd fod yn gorff cynnal ar gyfer Tîm POD Cenedlaethol, gan ddarparu cymorth "gorlif" i ranbarthau ledled Cymru pan fo'r galw'n fwy na'r capasiti.
- **Monitro lledaeniad y feirws**: Er mwyn monitro lledaeniad y feirws, crëwyd dangosfwrdd gwyliadwriaeth lefel poblogaeth i ddarparu diweddariadau rheolaidd ar gyfres o ddangosyddion sy'n gysylltiedig â Covid, a datblygwyd offeryn mapio hefyd i ddelweddu achosion newydd a chlystyrau posibl yn ddaearyddol, gan lywio penderfyniadau dyddiol ar sut i ymateb.

- **Cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol**: Mae llwyddiant y Gwasanaeth POD wedi dibynnu ar effeithiolrwydd cyfathrebu ac ymgysylltu, gyda phreswylwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf a chywiraf yn barhaus. Mae gwaith ymgysylltu targedig wedi'i wneud i ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau anodd-eu-cyrraedd. Sefydlwyd Is-grŵp Gweithrediadau Covid-19 Lleiafrifoedd Ethnig hefyd, yn ogystal â strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu.

## Cefnogi'r gwaith o ddarparu Rhaglen Brechu Torfol

- **Cefnogi imiwneiddio i'r holl breswylwyr**: Sefydlwyd Rhaglen Brechu Torfol, gyda'r Cyngor yn darparu cymorth drwy ddefnyddio ei adeiladau, ei staff a'i rwydweithiau cyfathrebu a chymunedol i gefnogi imiwneiddio i'r holl breswylwyr.

## Ymgorffori arferion iechyd a diogelwch cadarn ar draws holl adeiladau'r cyngor ac wrth ddarparu gwasanaethau

- **Cadw pobl, preswylwyr a staff agored i niwed yn ddiogel**: Mewn ymateb i'r heriau eithriadol a gyflwynwyd gan Covid-19, cafodd atebion radical a oedd yn gofyn am ailgynllunio a diwygio gwasanaethau ar lefel sylfaenol eu gwireddu gan y Cyngor er mwyn cadw pobl, preswylwyr a staff agored i niwed yn ddiogel tra'n atal y feirws rhag lledaenu. Roedd hyn yn dibynnu ar ddyrannu adnoddau a staff ar draws y system i'r lle yr oedd eu hangen fwyaf, gyda threfniadau llywodraethu partneriaeth newydd wedi'u sefydlu i alluogi penderfyniadau cyflym a chadarn.
- **Trefniadau iechyd a diogelwch cadarn**: Sefydlwyd trefniadau iechyd a diogelwch Covid-benodol ar gyflymder ac ehangder, yn unol â chyngor ac arweiniad a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru/y DU. Mae methodoleg iechyd a diogelwch y Cyngor yn cynnwys:
  - » Safleoedd Diogel – asesu holl safleoedd y cyngor, gan ddefnyddio templed corfforaethol i sicrhau ymbellhau corfforol.
  - » Gwasanaethau Diogel – ei gwneud yn ofynnol i bob gwasanaeth gwblhau asesiad risg a rhestr wirio, sy'n amlygu risg mewn perthynas â rhyngweithio â'r cyhoedd, cydweithwyr, contractwyr, yn ogystal â defnyddio offer a theithio yn y gwaith

## Sicrhau bod Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) priodol ar gael i ddiogelu staff, defnyddwyr gwasanaeth a phreswylwyr

- **Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddiogel ac yn effeithiol**: Diogelwch a lles staff, defnyddwyr gwasanaeth a phreswylwyr yw'r peth pwysicaf i'r Cyngor, a darparwyd y Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) angenrheidiol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddiogel ac yn effeithiol. Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2021, dosbarthodd y Cyngor 36,933,176 darn o PPE i staff, ysgolion, darparwyr gofal cymdeithasol, gofalwyr di-dâl, yn ogystal â chwmnïau preifat.
- **Sicrhau cyflenwad gwydn o PPE**: Wrth symud ymlaen, mae tîm caffael y Cyngor wedi sicrhau llif cadarn o gyflenwad PPE drwy ei bartneriaeth â Llywodraeth Cymru, y GIG a'i drefniadau cytundebol ei hun.

Gorfodi cydymffurfiaeth yn effeithiol drwy'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir

- **Lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r Coronafeirws**: Mae'r Cyngor, drwy'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, wedi gweithio i sicrhau bod mesurau'n cael eu cymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r Coronafeirws mewn gweithleoedd ac adeiladau eraill sydd ar agor. Mae hyn wedi golygu addasu'n gyflym i gyfrifoldebau newydd o dan y Rheoliadau Coronafeirws.
- **Sicrhau cydymffurfiaeth reoleiddiol**: Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021, cynhaliwyd 1,229 o ymweliadau â busnesau i wirio cydymffurfiaeth â rheoliadau mewn perthynas â chadw pellter cymdeithasol a chau busnesau. Yn ogystal, hysbyswyd 6,429 o fusnesau, adeiladau ac unigolion yn rhagweithiol am sut i weithredu'n ddiogel a chydymffurfio â'r Rheoliadau Coronafeirws.

## Heriau a Risgiau

- **Gan edrych tua'r dyfodol, bydd angen yr un lefel o ymrwymiad a gwaith partneriaeth i reoli'r pandemig yn barhaus.** Yn y tymor agos, bydd hyn yn cynnwys:
  - » Parhad y gwasanaeth POD, gyda Chyngor Caerdydd yn cynnal tîm ymchwydd cenedlaethol Cymru.
  - » Parhau i gyflwyno'r Rhaglen Brechu Torfol, gan gynnwys y potensial am ragor o bigiadau atgyfnerthu yn yr hydref.
  - » Y rôl hollbwysig o ymateb i fwy o deithio rhyngwladol ac unrhyw achosion o 'amrywiolion sy'n peri pryder'.
- **Mae'n dal yn bosibl, ar gyfer gweddill 2021 ac o bosibl y tu hwnt, y bydd yn rhaid i wasanaethau'r cyngor barhau i weithredu gyda rhai mesurau ymbellhau cymdeithasol ar waith. Byddai unrhyw gyfyngiadau yn parhau i amharu'n sylweddol ar y model cyflenwi ar gyfer nifer cyfyngedig o wasanaethau,** yn arbennig gwasanaethau wyneb-yn-wyneb a'r rhai yn yr economïau hamdden, diwylliant ac ymwelwyr. Ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hyn, datblygwyd cynlluniau adfer i roi'r gwasanaeth yn ôl ar sail gynaliadwy.
- **Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael - a bydd yn parhau i gael - effeithiau ariannol sylweddol ar y Cyngor, gyda chostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo yn ogystal ag incwm yn cael ei golli yn sgil cau lleoliadau diwylliannol ac ategol y Cyngor.** Drwy gydol y pandemig, mae goblygiadau ariannol gweithredoedd y Cyngor i gefnogi'r ddinas drwy'r argyfwng ac i ddarparu gwasanaethau'n ddiogel wedi'u monitro'n ofalus. Ar ddiwedd mis Rhagfyr 2020, roedd cyfanswm yr hawliadau a dderbyniwyd a hawliadau arfaethedig y Cyngor i Gronfa Caledi Covid Llywodraeth Cymru yn £37 miliwn mewn perthynas â gwariant a thros £30 miliwn mewn perthynas ag incwm. Bydd pwyntiau poeth yn y gyllideb, yn enwedig mewn meysydd a fydd yn gweld mwy o alw o ganlyniad i'r pandemig neu'r rhai sy'n dibynnu ar ffrydiau incwm y mae'r pandemig yn effeithio arnynt, yn destun ymyrraeth dargedig i gefnogi adferiad gwasanaethau yn ystod 2021.

## Edrych ‘Mlaen: Meysydd o Ffocws

- **Rheoli’r pandemig yn barhaus**: Yn 2021/22 bydd y Cyngor yn parhau i:
  - Gefnogi’r gwaith o ddarparu rhaglen brechu torfol, gan gynnwys unrhyw bigiadau atgyfnerthu.
  - Darparu Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu effeithiol.
  - Ymgorffori arferion iechyd a diogelwch cadarn ar draws holl adeiladau’r Cyngor ac wrth ddarparu gwasanaethau.
  - Sicrhau bod PPE priodol ar gael i ddiogelu staff, defnyddwyr gwasanaeth a phreswylwyr.
  - Monitro’n gadarn oblygiadau ariannol gweithredoedd y Cyngor i gefnogi’r ddinas drwy’r pandemig, gan gynnwys costau ychwanegol a cholledion incwm, gyda hawliadau priodol yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
  - Gorfodi cydymffurfiaeth yn effeithiol drwy’r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.
  - Parhau i gefnogi’r gwaith o gyflawni’r Cynllun Rheoli Coronafeirws cenedlaethol i Gymru gyfan, yn ogystal â Chynllun Atal ac Ymateb Covid-19 Caerdydd a’r Fro.
- **Trefniadau llywodraethu partneriaethau**: Er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu partneriaethau gwasanaeth cyhoeddus y ddinas yn addas at y diben i ymateb i’r heriau amlasiantaethol cymhleth y bydd gwasanaethau cyhoeddus y ddinas yn eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf, bydd trefniadau llywodraethu partneriaethau sy’n cefnogi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd yn cael eu hadolygu a’u hadnewyddu. At hynny, o ystyried yr heriau a gyflwynwyd gan y pandemig a’r anghydraddoldebau iechyd presennol ehangach rhwng cymunedau yng Nghaerdydd, bydd y Cyngor yn archwilio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro ddull newydd o gydweithio ar faterion iechyd y cyhoedd.
- **Adfer ac Adnewyddu**: Mae’r Cyngor yn cydnabod yr heriau adfer hirdymor a bydd yn parhau i ddefnyddio’r fframwaith ‘Ailgychwyn, Adfer, Adnewyddu[1]‘, a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mehefin 2020, i lywio ei gynlluniau ar gyfer ailgychwyn gwasanaethau a nodi blaenoriaethau tymor canolig a thymor hwy ar gyfer adfer ac adnewyddu. Cynhaliwyd ymarfer cynllunio adferiad cynhwysfawr fel rhan o’r gwaith o ddatblygu Cynllun Corfforaethol 2021-24[2], sy’n cynnwys blaenoriaethau ar gyfer adfer gwasanaethau dros y tymor canolig. Fe’i cymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2021.

Gan edrych i’r tymor hwy, mae’n amlwg y bydd y pandemig Covid-19 yn arwain at newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae pobl yn byw, gweithio a theithio, a bydd yn creu heriau a chyfleoedd newydd i economi’r ddinas ac i wasanaethau cyhoeddus lleol. Mae hyn ochr yn ochr â’r heriau presennol, cyn y pandemig.

1 Ailgychwyn, Adfer, Adnewyddu: Y Camau Nesaf i Gaerdydd yn ystod yr Argyfwng Covid-19
2 Cynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd 2021-24

I ddechrau'r broses hon, comisiynwyd pedwar adroddiad 'Adfer ac Adnewyddu' i ystyried sut mae'r pandemig wedi effeithio ar fywyd yn y ddinas ac i nodi cyfres o gynigion a allai fod yn sail i adnewyddiad hirdymor – gan fynd i'r afael â heriau newydd a pharhaus:

1. Adfer ac Adnewyddu Sefydliadol
2. Gwyrddach, Tecach, Cryfach: Adfer ac Adnewyddu'r Ddinas
3. Cyflawni Adferiad sy'n Dda i Blant
4. Adferiad Un Blaned

Cyflwynwyd yr adroddiadau hyn i'r Cabinet ac fe'u cymeradwywyd ym mis Mai 2021.



# Amcan Lles 1:
# Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

Ers mis Mawrth 2020, a dechrau’r pandemig Covid-19, mae plant a phobl ifanc wedi gweld newid mawr, gyda’r cyfyngiadau i atal lledaeniad y feirws yn arwain at golli dysgu, allgáu a heriau iechyd meddwl i lawer.

Drwy gydol y pandemig, mae’r Cyngor wedi gweithio gydag ysgolion a phartneriaid i sicrhau bod cymaint o gymorth â phosibl wedi bod ar gael i bob plentyn a pherson ifanc i’w cadw’n ddiogel ac i sicrhau y gall dysgu barhau, gyda chymorth ychwanegol i blant sy’n agored i niwed a’r rhai o gymunedau mwy difreintiedig, sydd wedi cael eu heffeithio’n anghymesur.

Er bod y Cyngor yn parhau i ymateb i’r heriau uniongyrchol hyn, canolbwyntiwyd ar uchelgeisiau tymor canolig i’r tymor hwy fel y nodir yng ngweledigaeth Caerdydd 2030 ar gyfer addysg a dysgu. Mae’n hanfodol bod y Cyngor yn bwrw ymlaen ag hymrwymiadau i wireddu hawliau i bawb ac i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghaerdydd yn cael addysg o ansawdd uchel ac yn gallu tyfu fel unigolion hapus, diogel a gwydn.

**Ein blaenoriaethau yn 2020/21 oedd:**

- Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghaerdydd yn cael addysg o ansawdd uchel
- Cefnogi pobl ifanc i mewn i waith
- Cefnogi plant a theuluoedd sy’n agored i niwed

## Llwyddiannau Allweddol yn 2020/21

Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghaerdydd yn cael addysg o ansawdd uchel

- **Parhad dysgu yn ystod y pandemig**: Mae'r Cyngor wedi sicrhau parhad dysgu i blant a phobl ifanc tra bod ysgolion wedi'u cau o ganlyniad i'r pandemig, gyda chefnogaeth Caerdydd i blant a phobl ifanc yn cael ei nodi fel maes o gryfder gan Estyn.
- **Addasu ysgolion yn gyflym**: Mae darpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol wedi'i chynnal drwy gydol y pandemig, gydag ysgolion yn trawsnewid yn gyflym yn fannau sy'n ystyriol o Covid i ddysgwyr a staff. Mae hyn wedi cynnwys datblygu ysgolion hyb, parhau i ddarparu prydau ysgol am ddim a rhaglenni cymorth gwyliau haf.
- **Darparu dyfeisiau digidol**: I gefnogi'r dull dysgu cyfunol, sicrhaodd y Cyngor fod dysgwyr yn cael y dyfeisiau digidol sydd eu hangen i barhau â'u dysgu. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys dosbarthu dros 20,000 o ddyfeisiau digidol yn gyflym, ynghyd â 2,500 o ddyfeisiau band eang 4G newydd, i ysgolion ers mis Mawrth 2020.
- **Ailagor ysgolion yn ddiogel**: Gweithiodd y Cyngor i sicrhau bod ysgolion yn ailagor yn ddiogel yn dilyn cyfnodau clo. Mae'r cyfathrebu rhwng yr Awdurdod Lleol, ysgolion, Cyfarwyddiaethau eraill a phartneriaid iechyd wedi bod yn hynod gadarnhaol, gyda chymorth yn cael ei roi i ysgolion ynghylch cyfyngiadau Covid-19, protocolau ar gyfer rheoli achosion a gadarnhawyd, profi, asesiadau risg a phryderon rhieni.
- **Prosesau asesu newydd**: Darparwyd cymorth i ysgolion a dysgwyr yn dilyn canslo arholiadau ym mlwyddyn academaidd 2019/20, gan gynnwys datblygu a gweithredu prosesau newydd ar gyfer Asesu Mewn Canolfannau a newidiadau i drefniadau cymwysterau yn 2020/21.
- **Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**: Cyflawnwyd cynnydd da o ran gweithredu diwygiadau ADY, gyda 97% o ysgolion yn cael eu graddio'n Dda Iawn neu'n Gryf mewn perthynas â pharatoadau strategol ar gyfer Diwygio ADY, o gymharu â chyfartaledd rhanbarthol o 85%.
- **Gwella ysgolion**: Cafodd Ysgolion Cynradd Illtyd Sant, Pontprennau a Thon-yr-Ywen eu symud o gamau dilynol Estyn yn 2020/21.
- **Gwella'r ystâd ysgolion**: Mae cynlluniau o dan Fand B y Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion yn cael eu datblygu, gan gynnwys Ysgol Uwchradd Fitzalan, Ysgol Uwchradd Willows, Doyle Avenue a'r Forwyn Fair. Datblygwyd dull newydd ar gyfer adeiladau ysgol newydd, gan gynnwys safonau carbon sero-net yn unol â'r Strategaeth Caerdydd Un Blaned. At hynny, mae gwariant adnewyddu asedau wedi cynyddu'n sylweddol, o £7.5m yn 2018/19 i £13.9m yn 2020/21, i wella cyflwr cyffredinol yr ystâd ysgolion.

## Cefnogi pobl ifanc i mewn i waith

- **Cefnogi'r rhai sy'n gadael ysgol**: Gwnaed gwaith helaeth gan Wasanaeth Ieuenctid y Cyngor i gynorthwyo'r rhai sy'n gadael ysgol i bontio o addysg statudol yn haf 2020. Er gwaethaf heriau eithriadol y flwyddyn, cynhaliodd y Gwasanaeth Ieuenctid ei gynnydd o ran cefnogi dysgwyr i mewn i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (ACH), gyda ffigur ACH Caerdydd yn 97.6% ym mlwyddyn academaidd 2019/20: 92% ar gyfer dysgwyr mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) ac 84% ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae systemau olrhain gwell wedi'u rhoi ar waith ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21, gan gynnwys cymorth ychwanegol gan fentoriaid ieuenctid.
- **Cyfleoedd dilyniant i bobl ifanc**: Mae timau'r cyngor, ysgolion a phartneriaid ehangach Addewid Caerdydd yn parhau i weithio gyda'i gilydd i liniaru effaith y pandemig ar lwybrau dilyniant i bobl ifanc. Cynigir prentisiaethau, hyfforddeiaethau, lleoedd Kickstart a llwybrau amgen i grwpiau agored i niwed a bydd cyfleoedd i ymestyn y rhain yn parhau i gael eu harchwilio.
- **Cyfleoedd profiad gwaith**: Cefnogwyd cynlluniau peilot 'Profiadau Gwaith' mewn tair ysgol uwchradd ac mae wythnos 'Agor eich Llygaid' a gweithgareddau i ysbrydoli plant a phobl ifanc wedi parhau'n rhithwir.
- **Cefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i mewn i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant**: Gwnaeth Dyfodol Disglair, cynllun y Cyngor i helpu pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i mewn i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, barhau i weithredu yn ystod y pandemig. Yn ystod 2020/21, cefnogodd Dyfodol Disglair 25.8% o'r rhai a oedd yn gadael gofal drwy gynorthwyo 49 o bobl ifanc i mewn i waith; 39 i mewn i addysg; 47 i mewn i hyfforddiant a 18 i leoliad gwaith Dechrau Disglair.

## Cefnogi plant a theuluoedd sy'n agored i niwed

- **Defnyddio technoleg i gadw mewn cysylltiad yn ystod y pandemig**: Wrth ymateb i'r pandemig Covid-19, defnyddiodd y Gwasanaethau Plant dechnoleg i gynnal cyswllt rhithwir gyda phlant, teuluoedd, cydweithwyr a phartneriaid. Dangosodd canlyniadau arolwg fod 70% o deuluoedd yn gadarnhaol am y profiad rhithwir, gyda 45% yn dweud bod y pandemig wedi cael effaith gadarnhaol ar eu perthynas waith â'r Gwasanaethau Plant.
- **Cefnogi dysgwyr ag anableddau cymhleth ac anghenion meddygol yn ystod y pandemig**: Gweithiodd yr Awdurdod Lleol ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i sefydlu grŵp amlasiantaethol gyda gweithwyr proffesiynol o'r Gwasanaethau Iechyd, Addysg a Phlant i gefnogi dysgwyr ag anableddau cymhleth ac anghenion meddygol yn ystod y pandemig. Adeiladir ar hyn ar ôl y pandemig i barhau i wella gwaith amlasiantaethol, er enghraifft drwy'r Panel Dysgwyr Agored i Niwed ar y Cyd.
- **Cydleoli gwasanaethau mewn clystyrau uwchradd**: Yn ogystal â'r cydweithio sy'n cyflawni'r dull 'Tîm o Amgylch y Teulu' yng Nghaerdydd, mae'r Cyngor hefyd yn archwilio 'Tîm yn yr Ysgol' – cydleoli gwasanaethau mewn clystyrau uwchradd. Mae cynllun peilot gwaith lleol eisoes ar y gweill gydag Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd, gydag un o'r Timau Ardal Plant yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i lwyddiant mawr.

- **Cefnogi plant sydd â phrofiadau plentyndod niweidiol lluosog**: Mae cynllun peilot ar gyfer gweithwyr cydnerthu hefyd ar waith, mewn partneriaeth ag Ysbyty Athrofaol Cymru, i feithrin capasiti ysgolion i fynd i'r afael â nifer y plant y mae profiadau plentyndod niweidiol lluosog yn effeithio arnynt.
- **Cefnogi iechyd emosiynol a meddyliol pobl ifanc**: Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi darparu amrywiaeth o raglenni i gefnogi iechyd emosiynol a meddyliol pobl ifanc, gan gynnwys darparu sgiliau byw'n annibynnol, gwaith ieuenctid ar y stryd ac atal digartrefedd.
- **Datblygu Strategaeth Rhianta Corfforaethol**: Mae Strategaeth Rhianta Corfforaethol 2021-24 wedi'i chytuno a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a'r Cabinet. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'n glir y dull amlasiantaethol o sicrhau bod Plant sy'n Derbyn Gofal yn cyflawni eu potensial mewn addysg a thu hwnt.
- **Llwyddo i recriwtio gofalwyr maeth**: Mae'r broses lwyddiannus o recriwtio gofalwyr maeth yn parhau, gyda 104 o ofalwyr yn darparu 194 o leoliadau ar 31 Mawrth 2021 o gymharu â 90 o ofalwyr yn darparu 172 o leoliadau ar 31 Mawrth 2020. Roedd 23 o asesiadau llawn eraill yn mynd rhagddynt ar 31 Mawrth 2021.
- **Datblygu canolfan asesu amlddisgyblaethol newydd**: Mae Tŷ Falconwood, cartref pedwar gwely i'w ddefnyddio gan hyd at dri o bobl ifanc ar y tro, yn cael ei ddatblygu fel darpariaeth asesu tymor byr newydd y Cyngor. Mae'r ddarpariaeth wedi'i chynllunio i gynnig asesiad a chymorth amlddisgyblaethol yn ystod 10 wythnos y person ifanc yn y cartref, er mwyn sicrhau bod symudiad nesaf y person ifanc, boed yn ôl adref at ei deulu neu i leoliad newydd, mor addas â phosibl ar gyfer ei anghenion a'i les.
- **Fframwaith Sicrwydd Ansawdd**: Mae Fframwaith Sicrwydd Ansawdd wedi'i ddatblygu ac mae swyddog arweiniol wedi'i benodi i arwain adolygiad o'r Gwasanaethau Plant. Yn ogystal â hyn, sefydlwyd Grŵp Datblygu Ymarfer i wella ymgysylltiad â staff a galluogi'r gweithlu i gyfrannu at welliannau mewn ymarfer.
- **Gwasanaethau parhaus i ofalwyr ifanc**: Mae gwasanaethau i ofalwyr ifanc wedi parhau drwy gydol y pandemig. Mae llwybrau ar waith ac yn gweithredu'n dda; mae gweithiwr cymdeithasol arbenigol parhaol wedi'i recriwtio ac wedi dechrau gweithio, ac mae'r YMCA wedi'u comisiynu i ddarparu gwasanaethau i gefnogi gofalwyr ifanc. Mae Caerdydd hefyd wedi cytuno i fod yn fabwysiadwr cynnar o'r cerdyn adnabod cenedlaethol ar gyfer gofalwyr ifanc, gan alluogi gofalwyr ifanc i gael y gefnogaeth a'r gydnabyddiaeth sydd eu hangen arnynt.
- **Taith o welliant**: Nododd arolygiad yn seiliedig ar risg o'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddiwedd 2020 fod Uwch Reolwyr ac Aelodau Arweiniol wedi cyflwyno diwylliant newydd o ddisgwyliadau a safonau uwch, gydag arweinwyr y Cabinet ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau sydd eu hangen ac yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl. At hynny, nododd yr arolygiad fod yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n galed gyda'r holl randdeiliaid i gefnogi diogelwch a lles pobl sy'n defnyddio ac yn gweithio mewn gwasanaethau, gyda phartneriaethau gweithredol a strategol yn gweithio'n dda i helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau lles.

## Heriau a Risgiau

### Addysg

- **Cynnal amgylchedd dysgu diogel i ddisgyblion a staff**: Wrth i'r pandemig barhau, mae'n hanfodol bod amgylchedd dysgu diogel yn cael ei gynnal ar gyfer disgyblion a staff, mewn partneriaeth ag Iechyd a Diogelwch ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn cynnwys rheoli achosion a gadarnhawyd, asesiadau risg, profi a pharatoi ar gyfer tonnau posibl o'r pandemig yn y dyfodol.
- **Cefnogi dull integredig o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol**: Bydd llawer o blant a theuluoedd wedi profi trallod emosiynol sylweddol o ganlyniad i'r pandemig, drwy unigedd, llai o fynediad at wasanaethau, profedigaeth a phryderon ariannol. Mae cefnogi dull integredig o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol yn hanfodol wrth i blant ddychwelyd i addysg, yn enwedig i bobl ifanc sy'n agored i niwed, y mae'r pandemig wedi cael effaith anghymesur arnynt.
- **Cefnogi'r rhai sy'n gadael ysgol**: Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn sicrhau cyrchfannau cadarnhaol i bob person ifanc sy'n pontio neu'n gadael ysgol ar ôl troi'n 16, gan gynnwys Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY) a Phlant sy'n Derbyn Gofal. Mae effaith economaidd y pandemig wedi effeithio ar lwybrau i gyflogaeth i'r rhai sy'n gadael ysgol, ac mae perygl y bydd rhai'n gadael addysg bellach ac uwch.
- **Trefniadau atebolrwydd ac asesu newydd**: Mae newid trefniadau atebolrwydd ac asesu, gan gynnwys canslo arholiadau (yn 2019/20 a 2020/21) a chasgliadau data, yn ogystal ag atal arolygiadau Estyn, wedi arwain at ddiffyg gwybodaeth gyson allweddol am berfformiad ar lefel genedlaethol i gefnogi perfformiad a gwerthuso. Mae ysgolion wedi ac yn parhau i gael eu cefnogi i weithredu dulliau newydd ar gyfer Graddau a Bennir gan Ganolfan.
- **Parhau i ddatblygu gwelliant a diwygiadau**: Er gwaethaf y pandemig, rhaid i'r Cyngor barhau i ddatblygu diwygiadau cenedlaethol, gan gynnwys Cwricwlwm Cymru 2022-2026 a'r diwygiadau i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae hefyd yn bwysig bod y Cyngor yn parhau i sicrhau gwelliannau ym mhob un o ysgolion Caerdydd ac yn sicrhau bod arweinyddiaeth gynaliadwy ar waith.
- **Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion**: Mae'r pandemig wedi arwain at oedi wrth gyflawni cynlluniau yn y Rhaglen Band B. Bu hefyd angen ystyried gostyngiad yng nghyfraddau geni'r ddinas gyfan a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar nifer y lleoedd ysgol sydd eu hangen yn y dyfodol, a newidiadau posibl i flaenoriaethau/trefn cynlluniau buddsoddi unigol. Bydd angen cynyddu cyflymder y ddarpariaeth er mwyn galluogi'r Rhaglen Band C i ddechrau.
- **Rhaglen Rheoli Asedau**: Mae graddfa'r gwaith cyflwr blaenoriaethol yn y Rhaglen Rheoli Asedau wedi cynyddu fel rhan o ofynion addasrwydd a darpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn dod i gyfanswm o £23.6 miliwn.
- **Lleoedd ysgol digonol**: Mae angen ystyried digonolrwydd lleoedd ysgol, yn enwedig ar lefel uwchradd ac mewn rhannau penodol o'r ddinas. Mae angen dybryd hefyd am ddarpariaeth ADY, yn enwedig iechyd a lles emosiynol, yn ogystal ag ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn unol â thargedau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

## Gwasanaethau Cymdeithasol Plant

- **Ailgychwyn gwasanaethau**: Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn cynnig ystod eang o wasanaethau cymorth, y mae llawer ohonynt, yn enwedig gwasanaethau ataliol, wedi'u tynnu'n ôl neu wedi bod yn gyfyngedig iawn dros y flwyddyn ddiwethaf oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Er bod gwasanaethau rhithwir a rhywfaint o ddarpariaeth wyneb-yn-wyneb wedi'u galluogi yn y senarios risg uchaf, mae gwasanaethau arferol wedi bod yn heriol i'w cynnal yn ystod y cyfnodau clo. Wrth i'r ddinas ddechrau ailagor, mae'n hanfodol bod holl wasanaethau cymorth y Cyngor yn cael eu hailgychwyn yn llawn a bod gwaith yn cael ei wneud gyda phartneriaid i adfer y gwasanaethau sydd eu hangen ar y plant, pobl ifanc a theuluoedd mwyaf agored i niwed.
- **Mwy o alw a phwysau cyllidebol**: Mae'r galw wedi cynyddu am wasanaethau arbenigol dros y 12 mis diwethaf, gan roi pwysau cyllidebol ar y Gwasanaethau Cymdeithasol ac ar draws nifer o wasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys:

  » Cynnydd mewn atgyfeiriadau i ddrws ffrynt gwasanaethau plant y Cyngor: gwelodd y gwasanaeth Porth Teuluoedd gynnydd o 15.5 % (o 4,256 i 4,917) a gwelodd yr Hyb Diogelu Amlasiantaethol gynnydd o 9.1 % (o 19,276 i 21,023).

  » Cynnydd o 81.4 % yn nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (o 253 i 459) dros y 12 mis diwethaf.

  » Cynnydd o 22.6 % yn nifer y plant sy'n agored i'r Gwasanaethau Plant sydd angen Cynllun Gofal a Chymorth (o 1,819 i 2,231).

  » Cynnydd o 3.9 % yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal (o 955 i 992).

  Mae'n debygol y bydd y pwysau yma'n parhau i dyfu yn sgil y pandemig, ac felly mae diwedd cyllid Covid-19 Llywodraeth Cymru yn peri risg fawr i gynaliadwyedd gwasanaethau y tu hwnt i'r flwyddyn hon.
- **Iechyd emosiynol a meddyliol**: Yn cyd-daro ag ailagor ysgolion yn dilyn y cyfnod clo diweddaraf, bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n datgan problemau iechyd emosiynol a meddyliol, gyda chynnydd mewn derbyniadau cleifion mewnol ac atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a'r Gwasanaethau Plant. Mae cynlluniau ar y gweill i leihau'r amser y mae plant a phobl ifanc yn aros am asesiad cyntaf ac mae gwaith yn cael ei wneud gyda sefydliadau'r trydydd sector i roi cymorth i blant sy'n aros am ymyriad CAMHS.
- **Plant sydd wedi'u gosod i'w mabwysiadu**: Er gwaethaf y pandemig, parhaodd y Cyngor i sicrhau bod plant yn cael eu gosod i'w mabwysiadu. Fodd bynnag, mae canran y plant â Gorchymyn Lleoli na chawsant eu gosod i'w mabwysiadu o fewn 12 mis i'r gorchymyn yn parhau'n uchel – ar 50.8 % ym mis Mawrth 2021, yn erbyn targed o 25 %. Mae proses bellach ar waith sy'n galluogi asesiad o anghenion plant cyn eu gosod i'w mabwysiadu, chwe mis ar ôl eu gosod i'w mabwysiadu a chyn gwneud gorchymyn mabwysiadu, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wella prydlondeb y broses fabwysiadu.

- **Digonolrwydd lleoliadau maeth ledled Cymru**: Mae sicrhau lleoliadau maeth i blant dros 8 oed a grwpiau o frodyr a chwiorydd yn anhawster parhaus, fodd bynnag, mae'r sefyllfa wedi dod yn fwy arwyddocaol yn ddiweddar. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda darparwyr i feithrin dealltwriaeth o'r materion i lywio penderfyniadau a chamau lliniaru. Yn y cyfamser, mae'r Cyngor yn parhau i dyfu ei wasanaeth maethu mewnol ac yn archwilio opsiynau eraill i sicrhau bod pob plentyn sydd angen lleoliad yn derbyn gofal diogel. Mae opsiynau hefyd yn cael eu harchwilio ar gyfer darparu cymorth ychwanegol i alluogi plant i aros yn ddiogel gartref gyda'u teuluoedd.
- **Pryderon diogelu cymhleth gyda darparwyr**: Mae'r Cyngor wedi lansio ymchwiliad trylwyr i ddarparwr sydd o dan berchnogaeth a rheolaeth annibynnol ac wedi datblygu cynllun cadarn i oruchwylio'r prosesau diogelu mewn perthynas â phob plentyn unigol.
- **Swyddi gwag i weithwyr cymdeithasol**: Er bod lefel y swyddi gwag i Weithwyr Cymdeithasol Plant wedi gwella, mae'n dal yn uchel – roedd 28.8% yn wag ym mis Mawrth 2021 o gymharu â 38.7% ym mis Mehefin 2020. Fodd bynnag, mae hyn yn erbyn targed o 24%. Mae gwefan bwrpasol – GwaithCymdeithasolCaerdydd – wedi cyfeirio traffig at recriwtio, mae Taliad Atodol ar Sail y Farchnad wedi'i gyflwyno ac mae prosesau ymsefydlu wedi'u hadolygu a'u hatgyfnerthu.

## Edrych 'Mlaen: Meysydd o Ffocws

### Adferiad sy'n Dda i Blant

Gan gydnabod effaith y pandemig ar addysg, hawliau, lles a llwybrau cyflogaeth plant a phobl ifanc yn y dyfodol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i roi rhaglen weithgarwch ar waith i sicrhau bod adferiad ac adnewyddiad Caerdydd ar ôl Covid-19 yn rhoi llais, hawliau a buddiannau plant a phobl ifanc wrth eu gwraidd.

Yn y tymor canolig i'r tymor hwy, bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â phlant, pobl ifanc a theuluoedd i adnewyddu a chyhoeddi Strategaeth sy'n Dda i Blant ôl-bandemig newydd yn hydref 2021, gan gynnwys cyd-ymrwymiadau manwl a chynllun tair blynedd.

Bydd y strategaeth yn ymgorffori pob maes allweddol o ddiwygiadau i addysg, yn ogystal â strategaeth ôl-16 gydlynol, modelau cymorth integredig sy'n seiliedig ar ardal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, model integredig o Wasanaethau Cymorth Ieuenctid a strategaeth glir ar gyfer datblygu'r gweithlu addysg.

## Addysg

Yn 2021/22, bydd y Cyngor yn parhau i fynd i'r afael â rhai o'r heriau a'r risgiau allweddol sy'n wynebu Addysg yng Nghaerdydd, tra'n arwain Adferiad sy'n Dda i Blant yn sgil y pandemig Covid-19. Mae meysydd penodol o ffocws yn y dyfodol yn cynnwys:

- **Cynnal amgylchedd dysgu sy'n ddiogel o ran Covid**:
  - » Parhau i weithio gydag Ysgolion, Iechyd a Diogelwch ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i ymateb i achosion positif o Covid-19 a chyfyngiadau newidiol, gan gynnwys diweddaru canllawiau a chyfathrebu cadarnhaol parhaus â phenaethiaid.
  - » Parhau i ddarparu profion Dyfais Llif Unffordd i staff a disgyblion ysgol ym Mlwyddyn 7 ac uwch yn I y gofyn.
- **Ailymgysylltu a diogelu lles plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed**:
  - » Adeiladu ar waith amlasiantaethol gwell, gan gynnwys Iechyd, Gwasanaethau Plant, yr Heddlu, Cymorth Cynnar a Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd, i fynd i'r afael â materion diogelu cyd-destunol.
  - » Datblygu Mentrau sy'n Dda i Blant, gan gynnwys cynyddu nifer yr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau, Gŵyl Gwên o Haf a Phrosiect Prifysgol y Plant.
  - » Hyrwyddo dulliau ysgol-gyfan cyson o ymdrin â lles drwy ddulliau Ffynnu a Meithrin.
  - » Ymestyn cyrhaeddiad darpariaeth ieuenctid mynediad agored.
- **Cynnal dysgu a chefnogi pontio a dilyniant ôl-16**:
  - » Cefnogi ysgolion Caerdydd i weithio tuag at Ddiwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chwricwlwm Cymru 2022, gan gynnwys datblygu dulliau dysgu cyfunol.
  - » Parhau i fuddsoddi mewn seilwaith digidol, offer a thechnolegau dysgu newydd ar gyfer ysgolion a dysgwyr.
  - » Gwella hygyrchedd a'r amrywiaeth o lwybrau dysgu ôl-16.
  - » Cynyddu'r lefelau cymorth a mentora gwaith ieuenctid sydd ar gael i'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed.
- **Ymrwymiadau ychwanegol i gyflawni gweledigaeth Caerdydd 2030 ar gyfer addysg a dysgu**:
  - » Hyrwyddo ymrwymiad y Cyngor i wireddu hawliau i bawb a dod yn Ddinas sy'n Dda i Blant.
  - » Datblygu model integredig o Wasanaethau Cymorth Ieuenctid.
  - » Datblygu'r gweithlu ysgolion, gan gynnwys arweinyddiaeth ganol a chymorth i benaethiaid newydd.
  - » Datblygu model ar gyfer Ysgolion Bro.

Gwasanaethau Cymdeithasol Plant

Sicrhau bod digonolrwydd ac ansawdd y gweithlu a gwasanaethau, yng nghyd-destun anghenion a galwadau cynyddol yn dilyn cyfnod y pandemig, yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchaf i'r Gwasanaethau Plant. Mae meysydd penodol o ffocws yn y dyfodol yn cynnwys:

- Ailgychwyn gwasanaethau cymorth cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny, gan gynnwys pecynnau cymorth cymunedol a darpariaeth seibiant.
- Parhau i ganolbwyntio ar symud y cydbwysedd gofal, gan gynnwys digonolrwydd lleoliadau a llety i'r rhai sy'n gadael gofal. Mae hyn yn cynnwys datblygu ystod o wasanaethau cymorth i sicrhau y gall plant aros gartref gyda'u teuluoedd pan fydd hynny er eu lles.
- Lansio'r Fframwaith Ailuno, gyda thîm penodol i gefnogi ei weithrediad.
- Dwyn ynghyd bob model ymarfer y mae'r gwasanaeth wedi bod yn ei dreialu, gan gynnwys Arwyddion Diogelwch, y Fframwaith Ailuno, Cynadledda Grwpiau Teulu a'r Model Diogel ac Ynghyd, mewn un fframwaith ymarfer cydlynol sy'n cwmpasu pob agwedd ar asesu a chynllunio gofal.
- Datblygu asesiadau cadarn sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, cynllunio gofal ac adolygu llwybrau i sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir gan y bobl gywir.
- Treialu menter Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd, dull newydd o weithio gyda theuluoedd â phroblemau camddefnyddio sylweddau sy'n mynd drwy'r broses llys.
- Parhau i ddatblygu cynllun datblygu pum mlynedd i gynyddu'r ddarpariaeth breswyl fewnol.
- Parhau i recriwtio gofalwyr maeth mewnol yn barhaus.
- Datblygu Siarter Cyfranogiad i wella gwaith partneriaeth â phlant, pobl ifanc a rhieni a lansio'r ap 'Mind of My Own', a fydd yn cefnogi plant i gyfathrebu â'r Cyngor, gan alluogi i farn plant a phobl ifanc gael ei chofnodi wrth gynllunio gofal.
- Cyflwyno'r dull 'Tîm yn yr Ysgol' ar draws pob clwstwr uwchradd, fel bod gan bob ysgol uwchradd Reolwr Tîm Gwasanaethau Cymdeithasol penodol i weithio gyda nhw i fynd i'r afael ag anghenion plant mwy agored i niwed.
- Cydweithio ar draws y Gwasanaethau Iechyd a Phlant i fynd i'r afael â'r cynnydd critigol mewn Plant a Phobl Ifanc sy'n datgan problemau emosiynol ac iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen gyda'r nod o adolygu'r ddarpariaeth bresennol a nodi sut y gellir mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth, yn ogystal â datblygu cynlluniau comisiynu ar y cyd a threfniadau ar y cyd ar gyfer cynlluniau asesu, gofal a thriniaeth.
- Recriwtio a chadw gweithlu parhaol, ymgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar ddenu gweithwyr cymdeithasol profiadol ac ymgorffori cymysgedd o sgiliau mewn timau. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru i recriwtio ymarferwyr ychwanegol i Wasanaeth Rhianta Caerdydd, Dechrau'n Deg Caerdydd a Chyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd i roi cymorth i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n agored i niwed

# Amcan Lles 2:
# Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn

Er bod ymateb i'r pandemig wedi rhoi heriau digynsail ar wasanaethau lleol, ac wedi effeithio ar bawb sy'n byw yn y ddinas, mae Covid-19 wedi effeithio'n arbennig ar bobl hŷn. Dyna pam mae'r Cyngor wedi gweithio i sicrhau bod gwasanaethau i bobl hŷn, yn arbennig, wedi'u haddasu, eu gwella neu eu sefydlu o'r newydd i ddiogelu eu hiechyd a'u lles.

Bydd llawer o'r datblygiadau gwasanaeth arloesol a gyflwynwyd yn ystod y pandemig o fudd i'r ddinas wrth iddi barhau i ymateb i heriau hirsefydlog. Er enghraifft, wrth i'r ddinas dyfu a disgwyliad oes barhau i gynyddu, disgwylir i nifer y bobl hŷn rhwng 65 ac 84 oed sy'n byw yng Nghaerdydd dyfu'n sylweddol; gan bron 40% dros yr 20 mlynedd nesaf. Hefyd, disgwylir i nifer y bobl 85 oed neu hŷn fwy na dyblu erbyn 2039. Er bod y rhan fwyaf o bobl hŷn yn iach, mae disgwyliad oes cynyddol yn golygu bod mwy o bobl yn dioddef o salwch yn ddiweddarach yn eu hoes ac yn dibynnu fwyfwy ar wasanaethau cyhoeddus. I ateb yr her hon, mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i reoli'r galw drwy uno'r meysydd gofal cymdeithasol, iechyd a thai â'r nod o helpu pobl i fyw yn eu cartrefi a'u cymunedau lleol eu hunain gyn hired â phosibl.

**Ein blaenoriaethau yn 2020/21 oedd:**

- Gweithio gyda phobl ag anghenion gofal a chymorth, gan eu helpu i fyw'r bywydau maen nhw eisiau eu byw
- Dod yn Ddinas o Gyfleoedd i'r Henoed
- Dod yn Ddinas sy'n Deall Dementia

## Llwyddiannau Allweddol yn 2020/21

Gweithio gyda phobl ag anghenion gofal a chymorth, gan eu helpu i fyw'r bywydau maen nhw eisiau eu byw

- **Addasu gwasanaethau i ymateb i anghenion**: Drwy gydol y pandemig, mae'r Cyngor wedi addasu gwasanaethau i fodloni anghenion unigol, yn enwedig y rhai y mae angen iddynt hunan-warchod. Yn 2020/21, rhoddwyd dros 13,000 o barseli bwyd i'r rhai mwyaf agored i niwed ledled Caerdydd, a chefnogwyd a chydlynwyd bron i 500 o wirfoddolwyr i ymgymryd â thasgau megis casglu meddyginiaethau presgripsiwn a helpu pobl i gael mynediad i slotiau dosbarthu siopa ar-lein.
- **Cefnogi brechu grwpiau blaenoriaeth**: Gan weithio gyda'r Bwrdd Iechyd Prifysgol, gwnaeth y Cyngor helpu i sicrhau bod pawb dros 70 oed, pob preswylydd cartref gofal a gweithlu gofal y ddinas wedi cael cynnig dos cyntaf y brechlyn erbyn 15 Chwefror 2021.
- **Rhyddhau o'r ysbyty'n ddiogel**: Mae gweithwyr cymdeithasol ysbytai wedi gweithio gyda thimau cymunedol a darparwyr gofal i ddatblygu'r dull "gartref gyntaf", drwy weithio drwy achosion cymhleth i ryddhau unigolion o ysbytai i'w cartrefi, neu i sicrhau gwelyau ynysu i ffwrdd o ysbytai.
- **Rhyddhau o'r ysbyty'n brydlon**: Mae'r Timau Ysbyty Pwynt Cyswllt Cyntaf (y Fyddin Binc) wedi ehangu ar draws nifer o ysbytai i atal a lleihau oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty.  Mae'r tîm yn gweithio gyda'r claf i benderfynu beth sy'n bwysig iddo a cheisio bodloni ei anghenion drwy ddull systemau cyfan, gan weithio gydag Iechyd, Cymuned, Awdurdod Lleol arall a phartneriaid trydydd sector i gefnogi pobl i ddychwelyd adref.
- **Sicrhau gwydnwch gwasanaethau yn ystod cyfnodau o her**: Drwy gydol y pandemig, mae'r Tîm Adnoddau Cymunedol wedi darparu'r hyblygrwydd sydd ei angen i sicrhau parhad gofal i'r rhai mwyaf agored i niwed, gan helpu i osgoi llawer o dderbyniadau i'r ysbyty ac achub preswylwyr a chartrefi gofal rhag sefyllfa o argyfwng. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i fynd i'r afael â diffygion staffio posibl pan mae angen i gydweithwyr dderbyn y brechlyn neu hunan-warchod gan nad oeddent yn gallu gweithio gyda symptomau Covid-19.
- **Parhau i gyflwyno'r Strategaeth Tai Pobl Hŷn**: Mae ystod o gynlluniau Byw Cymunedol newydd wedi'u datblygu ar draws y ddinas, gyda chaniatâd cynllunio wedi'i gyflawni ar gyfer cynlluniau byw'n annibynnol y Maelfa, Llaneirwg a Llys Caerwrangon. Mae cynlluniau Stryd Bute a Glan-yr-afon yn barod ar gyfer Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio a bydd cynllun Moorland Road ar y cam hwn cyn bo hir. Mae gwaith allanol wedi dechrau yn Llys Broadlands, ar ôl cael ei bennu a'i gytuno gyda'r preswylwyr, a bydd Heathmead yn dechrau cyn bo hir.
- **Lefel uchel o ddefnyddwyr yn fodlon â gwasanaethau'r Cyngor**:
  - Mae 93% o gleientiaid yn teimlo eu bod yn gallu byw'n annibynnol yn eu cartrefi yn dilyn cymorth y Gwasanaethau Byw'n Annibynnol.
  - Deliwyd â 84% o achosion newydd yn uniongyrchol ar y Pwynt Cyswllt Cyntaf (PCC), gan arwain at ddim gofyniad i atgyfeirio ymlaen at y Gwasanaethau Oedolion.

## Dod yn Ddinas o Gyfleoedd i'r Henoed

- **Mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol drwy gydol y pandemig**: Cysylltwyd yn rheolaidd â phob unigolyn y nodwyd ei fod mewn perygl o gael ei allgáu drwy amrywiaeth o ddulliau:
  - Mae galwadau lles wedi'u cynnal dros y ffôn a defnyddiwyd dulliau rhithwir i gysylltu'n rheolaidd ac yn gyson â'r rhai sydd ar eu pennau eu hunain ac sydd fwyaf tebygol o gael eu hallgáu.
  - Mae Pryd ar Glud wedi addasu i gynnig cymorth lles wrth ddarparu eu gwasanaethau, gan gyfeirio unigolion sy'n agored i niwed at y gwasanaethau priodol yn ôl yr angen.
  - Mae Cyfleoedd Dydd wedi darparu cymorth digidol i bobl sy'n agored i niwed, gan helpu unigolion i fynd ar-lein, cael mynediad i e-bost, ymuno â chyrsiau a chymryd rhan mewn grwpiau ar-lein.
  - Mae gwasanaethau cyfeillio, sy'n cael eu rhedeg drwy Age Connects ac Age Cymru, wedi cefnogi dros 700 o bobl, dros y ffôn ac yn rhithwir.
- **Darparu dyfeisiau a chymorth digidol**: Drwy Gynllun Dyfeisiau Llechi Rhodd y Cyngor, cynigiwyd bron i 200 o ddyfeisiau â data am ddim i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymuned. Mae'r cynllun yn cynnwys pecyn cymorth digidol i'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac yn ddigidol, gyda chymorth ar gael gan Swyddogion Cynhwysiant Digidol penodedig.
- **Cynnal gwyliau digidol**: Cynhaliwyd dwy ŵyl ddigidol aml-ddiwrnod, gan agor byd newydd o gysylltedd i lawer o unigolion, a chreu cysylltiadau â gwasanaethau'r cyngor, darpariaeth ddigidol y trydydd sector a gwasanaethau rhithwir eraill a gynigir drwy Hybiau'r Cyngor.
- **Creu mannau ar gyfer y gymuned leol**: Mae Gardd Alzheimer wedi'i chwblhau ac mae partneriaethau gyda grwpiau cymunedol lleol yn cael eu harchwilio i hyrwyddo gofod a rennir a phrofiadau dysgu a rennir ar gyfer y gymuned leol.
- **Cadw cymunedau mewn cysylltiad**: Mae nifer o grwpiau rhithwir wedi'u sefydlu i helpu i gadw unigolion a chymunedau mewn cysylltiad. Mae Hybiau'r Cyngor cynnig digwyddiadau ar-lein gan gynnwys Cadwch i Symud, grŵp canu'r Goldies, Paned a Sgwrs Llyfrau; ac mae Dysgu Oedolion yn rhedeg grŵp ledled Caerdydd a'r Fro yn cynnig gweithgareddau fel ysgrifennu creadigol, macro-ffotograffiaeth, celf a chrefft, a choginio.

## Dod yn Ddinas sy'n Deall Dementia

- **Lansio Gwefan Caerdydd sy'n Deall Dementia**: Lansiwyd gwefan Caerdydd sy'n Deall Dementia a hyb adnoddau ym mis Hydref 2020, gan gynnig 'siop un stop' o wybodaeth werthfawr am wasanaethau a chymorth yn y ddinas i helpu pobl sy'n byw gyda dementia i fyw'n dda yn y brifddinas. Gan addasu i'r cyfyngiadau ar gyfer cynnal digwyddiadau corfforol, arddangoswyd dros 400 o ddigwyddiadau digidol drwy'r wefan.
- **'Darllenwch Amdanaf i'**: Crëwyd 'Darllenwch Amdanaf i' gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel ffordd syml ac effeithiol newydd o gynorthwyo pobl â dementia neu nam gwybyddol sy'n derbyn gofal meddygol. Gan ddarparu gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae'n caniatáu i'r holl staff gael gwell dealltwriaeth o'r claf, heb fod angen ailadrodd eu stori bersonol. Mae 'Darllenwch Amdanaf i' wedi'i ddosbarthu i bob un preswylydd mewn cartref gofal yng Nghaerdydd.

## Heriau a Risgiau

- **Ansawdd y gofal a chynaliadwyedd cartrefi gofal**: Mae'r sector gofal wedi wynebu heriau sylweddol yn ystod y pandemig sydd, ar y cyfan, wedi cael eu hateb yn dda. Fodd bynnag, mae rhai cartrefi gofal yn arbennig wedi peri pryder o ran ansawdd gofal a chynaliadwyedd yn y tymor hwy. Mae dysgu o rai achosion proffil uchel yn llywio dull y Cyngor o fonitro'r cartrefi a bydd gwella ansawdd y gofal yn rhan bwysig o Fframwaith Sicrwydd Ansawdd newydd y Gwasanaeth Oedolion. Mae cynaliadwyedd cartrefi gofal hefyd yn peri pryder o ystyried y lefel bresennol o unedau gwag a diwedd cyllid Covid Llywodraeth Cymru, sy'n dod cyn bo hir. Bydd asesu cynaliadwyedd y farchnad ranbarthol a datblygu datganiad sefyllfa marchnad Caerdydd, sy'n nodi bwriadau comisiynu'r Cyngor yn y dyfodol, yn helpu i lywio'r dull o ymdrin â hyn.
- **Niferoedd cynyddol o unigolion mewn gofal preswyl**: Er bod y Cyngor a'i bartneriaid wedi ymrwymo i gefnogi pobl i fyw bywydau llawn ac annibynnol wrth iddynt dyfu'n hŷn, gyda gofal a chymorth cydgysylltiedig yn cael ei ddarparu gartref lle bynnag y bo modd, mae nifer y bobl 65 oed neu drosodd mewn gofal preswyl fesul 10,000 o'r boblogaeth wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn. Mae'r cynnydd hwn, yn rhannol, oherwydd gofynion hunan-warchod a theuluoedd yn methu â helpu fel y bydden nhw'n ei wneud mewn amgylchiadau arferol.
- **Cymwysterau staff**: Mae pwysau ar draws y sectorau gofal cartref a phreswyl i fodloni'r gofyniad cyfreithiol i'r holl staff fod yn weithwyr gofal cymwys a chofrestredig. Mae effaith hyn hefyd yn cael ei weld wrth recriwtio staff newydd i'r sector.
- **Ôl-groniad o asesiadau a gwerthusiadau**: Mae'r pandemig wedi creu ôl-groniad o asesiadau a gwerthusiadau cyflwr tai, na ellid eu cynnal yn ystod y cyfnod clo. Bydd angen canolbwyntio i sicrhau bod pob unigolyn sy'n agored i niwed a'r rhai mewn angen yn cael yr asesiadau sydd eu hangen arnynt.
- **Oedi wrth ailgomisiynu gofal cartref**: Mae'r broses o ailgomisiynu contractau gofal cartref wedi'i gohirio, gyda'r trefniadau presennol yn cael eu hymestyn am 12 mis. Penderfynwyd datblygu model comisiynu newydd sy'n rhoi'r cyfrifoldeb am gyflawni'n gadarn ar y gwasanaethau. Bydd angen gwaith mawr i fod mewn sefyllfa i ddechrau'r broses dendro o fewn yr amserlenni gofynnol.
- **Busnesau sy'n Deall Dementia**: Gyda llawer o fusnesau ar gau neu'n addasu i ofynion rheoliadau Covid, mae'n rhaid i'r ffocws ar Ddeall Dementia adennill momentwm wrth i gyfyngiadau Covid gael eu codi.

## Edrych 'Mlaen: Meysydd o Ffocws

Wrth i'r Cyngor barhau i ymateb i heriau hirsefydlog, gyda'r nod o helpu pobl i fyw cyhyd ag y bo modd yn eu cartrefi a'u cymunedau lleol eu hunain, cynhelir y ffocws ar:

- Weithredu dull lleol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau o ddarparu gofal cartref drwy gwblhau prosiectau gofal cartref allweddol, gan gynnwys ailgomisiynu gwasanaethau, rhestr darparwyr cytunedig a strategaeth pennu ffioedd. Bydd angen i'r broses o weithredu cam cyntaf y dull newydd o

ddarparu gofal cartref adlewyrchu darpariaeth leol a chymunedol yn llawn ynghyd â blaenoriaethau'r Strategaeth Tai Pobl Hŷn.

- Ailfodelu'r Tîm Adnoddau Cymunedol, i symud tuag at fodel gweithio lleol sydd wedi'i wreiddio mewn meysydd eraill o'r gwasanaeth.
- Cynnal adolygiad cyflawn o'r broses o ryddhau cleifion cymhleth o'r ysbyty, gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr iechyd i sicrhau bod hyn nid yn unig yn bodloni'r amcanion o gefnogi trefniadau rhyddhau amserol, ond hefyd yn cwmpasu dull holistig o ymdrin â lles ac annibyniaeth.
- Parhau i gyflawni'r Strategaeth Tai Pobl Hŷn i gefnogi byw'n annibynnol, gan gynnwys deall anghenion tai pobl hŷn yn llawn ac alinio gwaith rhwng y Cyngor a Gwasanaethau Iechyd. Bydd hyn yn cynnwys gwaith i adeiladu ac adnewyddu cynlluniau Byw Cymunedol ar gyfer pobl hŷn a gwella'r defnydd o gynlluniau Byw Cymunedol a Gofal Ychwanegol presennol.
- Ffurfioli statws Caerdydd fel Dinas o Gyfleoedd i'r Henoed, mewn cydweithrediad â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a phartneriaid o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Gweithio gyda'r trydydd sector i adolygu'r cymorth sydd ar gael ar gyfer iechyd meddwl a lles unigolion sy'n byw mewn perygl o gael eu hallgáu, a'u gofalwyr.
- Cynyddu'r gwaith gyda staff y Gymdeithas Alzheimer ar draws y flwyddyn ariannol nesaf i wella dull y Cyngor o ddod yn Ddinas sy'n Deall Dementia, yn ogystal â hyfforddi niferoedd cynyddol o staff y Cyngor i ddod yn Gyfeillion Dementia.
- Cryfhau ymhellach y cysylltiadau rhwng y Gwasanaethau Oedolion, Pryd ar Glud a Theleofal, yn ogystal â sefydliadau'r trydydd sector, i ddarparu gwasanaeth cadarn ac i gefnogi atgyfeiriadau i bobl sy'n agored i niwed sy'n cael eu cefnogi gan y gwasanaethau hynny. Bydd hyn yn galluogi dull hybrid newydd o atal allgáu cymdeithasol.
- Parhau i hyrwyddo cyfuniad o ddigwyddiadau digidol ac wyneb-yn-wyneb sy'n Deall Dementia.

# Amcan Lles 3:
# Cefnogi pobl allan o dlodi

Er bod economi Caerdydd wedi'i hadnewyddu dros y degawdau diwethaf, mae'r ddinas yn parhau'n gartref i'r nifer fwyaf o bobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae pandemig y Coronafeirws wedi taro'r cymunedau tlotaf, mwyaf difreintiedig a datgysylltiedig galetaf, gan amlygu ymhellach yr anghydraddoldebau economaidd a chymdeithasol hirsefydlog hyn.

Mae effaith economaidd y pandemig wedi arwain at ddyblu diweithdra, cynnydd o dros 100% mewn ceisiadau Credyd Cynhwysol ac, yn y pen draw, llawer mwy o deuluoedd yn syrthio i mewn i dlodi. Gan edrych i'r flwyddyn i ddod, bydd yr adferiad economaidd yn araf, gyda rhai sectorau'n parhau i gael eu heffeithio gan y pandemig, yn enwedig y sectorau hynny –megis lletygarwch a manwerthu – sydd fel arfer yn cyflogi pobl ifanc, menywod a phobl o gefndir BAME.

Er mwyn ymateb i hyn, bydd angen rhaglen o weithredu ar y cyd ar draws yr holl Amcanion Lles. Fel rhan o hyn, bydd cefnogi pobl i mewn i waith, hyrwyddo'r Cyflog Byw a mynd i'r afael â digartrefedd yn hanfodol i gefnogi pobl allan o dlodi ac arwain adferiad cynhwysol.

**Ein blaenoriaethau yn 2020/21 oedd:**

- Dinas Cyflog Byw
- Helpu pobl i mewn i waith
- Mynd i'r afael â digartrefedd a rhoi diwedd ar gysgu ar y stryd

## Llwyddiannau Allweddol yn 2020/21

### Dinas Cyflog Byw

- **Cynnydd mewn cyflogwyr Cyflog Byw**: Mae 126 o gyflogwyr yn y ddinas bellach yn gyflogwyr Cyflog Byw achrededig, gyda 19 yn cael eu hachredu yn ystod 2020/21, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Erbyn hyn mae 58,886 o bobl yn gweithio i gyflogwr Cyflog Byw achrededig ac mae 7,929 o weithwyr wedi cael codiad cyflog o ganlyniad i'w cyflogwyr yn ennill achrediad Cyflog Byw. Rhwng 2012 a diwedd 2020, mae'r Fenter Cyflog Byw wedi arwain at dalu £32.4 miliwn ychwanegol mewn cyflogau i weithwyr yng Nghaerdydd[1].

### Helpu pobl i mewn i waith

- **Cynnydd mewn cyfleoedd prentisiaeth a hyfforddeiaeth**: Yn ystod y flwyddyn, crëwyd 119 o gyfleoedd prentisiaeth a hyfforddeiaeth cyflogedig ar draws y Cyngor. Mae cyswllt agos wedi'i gadw gyda chyfarwyddiaethau yn ystod y pandemig i sicrhau bod prentisiaid a hyfforddeion yn cael eu rheoli'n weithredol a bod eu dysgu'n parhau.
- **Gwefan newydd Caerdydd ar Waith**: Lansiodd Caerdydd ar Waith wefan newydd ym mis Chwefror 2021. Mae'r wefan newydd sbon yn dangos y swyddi gwag dros dro diweddaraf yn y Cyngor, yn ogystal â gwybodaeth a chyngor ar ddod o hyd i'r swydd gywir, sefyll allan yn y broses ymgeisio, cyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddi, ac awgrymiadau ar gyfer cyfweliadau. Mae'r tîm yn gweithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Cynghori i Mewn i Waith, a all sicrhau y gall ymgeiswyr gael yr holl ganllawiau cyflogaeth a'r arbenigedd sydd eu hangen arnynt er mwyn bod yn barod ar gyfer rolau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt.
- **Creu cymorth cofleidiol a llwybrau i gyflogaeth barhaol**: Yn ystod 2020/21, ymgorfforwyd Caerdydd ar Waith - asiantaeth gyflogaeth fewnol y Cyngor - a Dysgu Oedolion yn y Gymuned gan y Gwasanaeth Cynghori i Mewn i Waith, gan greu cymorth cofleidiol a llwybrau i gyflogaeth barhaol. Mewn ymateb i'r heriau economaidd sy'n dod i'r amlwg, mae'r gwasanaeth wedi gwella ei gapasiti ac mae bellach yn gallu cefnogi mwy na 55,000 o gleientiaid a 250 o gyflogwyr bob blwyddyn. Rhoddwyd cyngor i bobl bron i 50,000 o weithiau drwy'r Porth Cyflogaeth yn ystod 2020/21 a sicrhaodd 814 o bobl gyflogaeth o ganlyniad i'r cymorth a ddarparwyd. Yn ogystal, mae 237 o gyflogwyr wedi cael cymorth gan y Gwasanaeth Cynghori i Mewn i Waith, sy'n rhagori ar y targed o 220 ar gyfer y flwyddyn ariannol.
- **Parhau i ddarparu gwasanaethau drwy gydol y pandemig**: Yn ystod 2020/21, cafodd 2,841 o gwsmeriaid eu cefnogi a'u cynorthwyo gyda'u hawliadau am Gredyd Cynhwysol, er gwaethaf y cyfyngiadau Covid-19, sy'n dangos lefel yr angen sy'n bodoli yn y ddinas o ystyried y pwysau economaidd a achoswyd gan y pandemig. Gwnaeth y tîm hefyd sicrhau bod cymorth ar gael ar draws y ddinas drwy'r Llinell Gyngor. Mae bron £15.5m o fudd-daliadau wythnosol ychwanegol wedi'u nodi ar gyfer cleientiaid y Tîm Cyngor Ariannol.

---

1 Mae'r ffigur hwn yn gronnol ac yn seiliedig ar brisiau 2019, yn ogystal â 7,735 o bobl yn cael codiad cyflog erbyn mis Rhagfyr 2020.

### Mynd i'r afael â digartrefedd a rhoi diwedd ar gysgu ar y stryd

- **Cefnogi pobl sy'n cysgu ar y stryd yn ystod y pandemig**: Ar ddechrau'r pandemig, roedd y Cyngor yn wynebu'r her o gael pobl fregus iawn oddi ar y stryd ac i lety Covid-ddiogel ar raddfa fawr ac yn gyflym. Bron ar unwaith, caffaelwyd ac ail-bwrpaswyd gwestai i greu mannau Covid-ddiogel. Cafodd 140 o gleientiaid eu hailgartrefu mewn llety lle gallent hunan-warchod neu hunanynysu, a gostyngwyd nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd yn y ddinas i ffigurau sengl. Sefydlwyd cyfanswm o 182 uned o lety â chymorth, pob un â'r cymorth cofleidiol, amlasiantaethol sydd ei angen i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth, gan gynnwys nyrsys iechyd meddwl a staff cymorth camddefnyddio sylweddau, ochr yn ochr â staff tai. Dangosodd lefelau ymgysylltu â'r cymorth hwn welliant amlwg gan fod y gwasanaethau hynny wedi'u cydleoli yn yr un safle.
- **Dim Mynd Nôl**: Ar ôl cyflawniad mor enfawr, cafodd gweledigaeth newydd ar gyfer digartrefedd, Dim Mynd Nôl, ei chymeradwyo ym mis Gorffennaf 2020. Mae'r weledigaeth yn nodi dull newydd o fynd i'r afael â digartrefedd yn seiliedig ar atal, dull asesu a brysbennu cyflym, a chymorth pwrpasol i bob unigolyn i'w helpu i fyw'n annibynnol cyn gynted ag y bydd yn barod, yn hytrach na dilyn dull 'grisiau' awtomatig drwy hosteli a llety â chymorth.
- **Ehangu'r tîm amlddisgyblaethol**: Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn gweithio i dargedu defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael eu dal yn 'nrws troi' digartrefedd a chyfnodau hir o gysgu ar y stryd. Ehangwyd y tîm yn ystod 2020/21 er mwyn cynnig dulliau gofal iechyd a rheoli achosion cyson. Mae'r tîm bellach yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol; gweithwyr iechyd meddwl a gweithiwr cymdeithasol iechyd meddwl; gweithwyr cymorth tai; eiriolwr; nyrs gofal sylfaenol; gweithwyr camddefnyddio sylweddau gan gynnwys gwasanaeth rhagnodi cyflym; swyddogion prawf; gweithwyr allgymorth therapiwtig a gwasanaethau seicolegol; cwnselwyr; cydlynydd mentoriaid cymheiriaid; swyddog diogelwch stryd yr heddlu; a therapydd galwedigaethol.
- **Mynd i'r afael â materion camddefnyddio sylweddau**: Mae prosiectau digartrefedd newydd wedi rhoi cyfle digynsail i wasanaethau weithio gyda chleientiaid sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau, gyda chydweithwyr yn y sector iechyd a'r trydydd sector yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r hosteli, gan gynnwys lleihau niwed a rhagnodi cyflym. Mae gwasanaethau therapiwtig a chwnsela hefyd wedi parhau drwy gydol yr argyfwng i sicrhau bod anghenion sylfaenol cleientiaid yn cael eu nodi a'u bodloni. Ym mis Chwefror 2021, mae 71 o unigolion yn dal i gael triniaeth weithredol – cyfradd gadw o 75%, sy'n gyflawniad sylweddol i'r grŵp cleientiaid anodd-ei-gyrraedd hwn.
- **Buddsoddiad ychwanegol mawr mewn cynlluniau digartrefedd**: Llwyddodd Caerdydd i sicrhau cyfanswm o £12 miliwn o gyllid grant cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer o gynlluniau digartrefedd. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £40 miliwn ychwanegol o gyllid Grant Cymorth Tai i Gymru, y bydd Caerdydd yn derbyn £5.243 miliwn ohono.

## Heriau a Risgiau

- **Anghydraddoldeb yn y ddinas**: Mae'r pandemig wedi amlygu a gwaethygu anghydraddoldeb yn y ddinas. Roedd pobl a oedd eisoes ar ben isaf y raddfa economaidd mewn mwy o berygl o gael eu rhoi

ar ffyrlo neu golli eu swyddi'n gyfan gwbl, yn ogystal â bod mewn mwy o berygl o ddal Covid-19 a marw ohono.

- **Hawliadau Credyd Cynhwysol**: Mae nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yng Nghaerdydd wedi codi mwy na 100% yn ystod y pandemig, gyda'r rhai sy'n gweithio mewn sectorau fel lletygarwch, hamdden a manwerthu yn cael eu heffeithio'n arbennig o wael. Disgwylir i'r cynllun ffyrlo, sy'n darparu rhywfaint o amddiffyniad ar hyn o bryd, ddod i ben ym mis Medi 2021 a gallai effaith hynny ar lefelau diweithdra yn y ddinas fod yn sylweddol.
- **Amddifadedd digidol**: Mae'r pandemig wedi amlygu nifer y bobl sy'n cael eu heffeithio gan amddifadedd digidol, gan arwain at allgáu cymdeithasol a methu chwilio am waith ar-lein neu uwchsgilio. Mae'r Gwasanaeth Cynghori i Mewn i Waith eisoes wedi sicrhau cyllid i ddarparu dros 200 o ddyfeisiau i'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol nad ydynt yn gallu fforddio eu llechi eu hunain, ond mae'r cyllid wedi dod i ben bellach.
- **Cynaliadwyedd cyllid**: Mae ariannu cymorth i mewn i waith ac addysg oedolion yn y dyfodol yn parhau i fod yn destun pryder. Mae llawer o brosiectau gwaith yn cael eu hariannu'n allanol gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop; bydd yr arian hwn yn dod i ben ym mis Medi 2022. Mae'r cyllid ar gyfer Dysgu Oedolion wedi gostwng 5% y flwyddyn dros y ddwy flynedd flaenorol a disgwylir toriadau mwy dros y tair blynedd nesaf.
- **Gwasanaethau digartrefedd**: Mae'r galw am wasanaethau digartrefedd yn parhau i fod yn uchel, a rhagwelir y bydd diwedd mesurau a roddwyd ar waith oherwydd y pandemig yn arwain at gynnydd yn hyn o beth. Disgwylir i'r gwaharddiad ar droi allan ddod i ben ar 30 Mehefin; fodd bynnag, ni fydd hyn yn effeithio ar y gwasanaeth ar unwaith gan fod Deddf Coronafeirws 2020 yn darparu y bydd landlordiaid yn parhau i fod o dan rwymedigaeth statudol i ddarparu cyfnod rhybudd o chwe mis i denantiaid cyn gwneud hawliad meddiant (ac eithrio mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig

## Edrych 'Mlaen: Meysydd o Ffocws

Er mwyn sicrhau bod ein holl ddinasyddion yn gallu cyfrannu at lwyddiant y ddinas, ac elwa ohono, mae meysydd ffocws y dyfodol yn cynnwys:

- Creu 30 o rolau hyfforddai chwe mis drwy'r cynllun Kickstart cenedlaethol. Mae pobl ifanc 16-24 oed sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gymwys. Bydd Addewid Caerdydd yn sicrhau bod nifer y lleoedd Kickstart yn y ddinas yn cael eu cynyddu hyd yr eithaf drwy eu gwaith gyda phartneriaid.
- Lansio'r Ganolfan Asesu Person Sengl newydd ym Mhlas yr Ais, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, a fydd yn darparu gwasanaethau 24 awr gydag asesiad amlddisgyblaethol o anghenion ar gyfer pobl ddigartref sengl. Bydd y Ganolfan hefyd yn darparu 19 o unedau hunangynhwysol ar y safle fel llety brys i bobl y mae angen llety dros nos arnynt ar unwaith. Lle bo angen, bydd y llety hwn hefyd yn caniatáu i gleientiaid aros yn hirach i'w galluogi i sefydlogi ac i'w hanghenion gael eu hasesu'n llawn. Mae datblygu'r llety hunangynhwysol hwn yn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni nod Llywodraeth Cymru o symud oddi wrth fodel llawr a rennir fel llety brys.

- Sefydlu'r Tîm Amlddisgyblaethol yn y ganolfan asesu newydd, a fydd yn caniatáu i unigolion gael mynediad ar unwaith at wasanaethau asesu, cynghori, cefnogi a lleihau niwed. Bydd y tîm yn parhau i gael ei ehangu a bydd tri gweithiwr therapiwtig ychwanegol yn cael eu recriwtio, gan godi'r cyfanswm i chwech.
- Datblygu amrywiaeth o gynlluniau parhaol i gymryd lle'r gwestai a ddefnyddiwyd yng nghamau cynnar y pandemig Covid-19, yn ogystal â chynlluniau newydd arloesol i fynd i'r afael â digartrefedd:
  - Mae'r Cyngor yn bwriadu prynu'r YHA er mwyn gallu parhau i gynnig llety hunangynhwysol o ansawdd uchel gyda chymorth ar sail tymor hwy.
  - Mae Llys Adams yn cael ei ail-bwrpasu i ddarparu 103 o fflatiau hunangynhwysol i bobl sengl. Bydd yr eiddo'n cael ei osod gan ddefnyddio egwyddorion Tŷ yn Gyntaf a dull sy'n seiliedig ar drawma, gan ganolbwyntio ar unigolion ag anghenion cymorth cymhleth neu uchel.
  - Bydd 47 o fflatiau hunangynhwysol yn cael eu datblygu yn Llys Bailey. Y nod yw darparu llety sefydlog i unigolion ag anghenion cymorth cymhleth neu uchel.
  - Mae canolfannau i deuluoedd sy'n ddigartref yn cael eu darparu yn Harrison Drive yn Trowbridge a safle'r Gwaith Nwy yn Grangetown, a byddant wedi'u cwblhau erbyn gwanwyn/haf 2021. Mae'r ganolfan gyntaf yn Briardene yng Ngabalfa wedi agor yn ddiweddar. Bydd pob un o'r tair canolfan yn cynnig llety teuluol o ansawdd da gyda staff ar y safle yn ystod y dydd a darpariaeth arall megis gwasanaethau Cymorth Cynnar i deuluoedd, ymweliadau iechyd a chymorth rhianta.
  - Fel rhan o Gynllun Prydlesu Sector Rhent Preifat Llywodraeth Cymru, bydd Cyngor Caerdydd yn rheoli hyd at 67 eiddo ar ran landlordiaid preifat am hyd at bum mlynedd. Bydd yr eiddo hyn yn cael eu cadw ochr yn ochr â stoc dai'r cyngor er mwyn sicrhau rheolaeth effeithiol ac effeithlon. Bydd yr eiddo'n cael eu prydlesu i gleientiaid digartref a bydd unrhyw un sy'n defnyddio'r eiddo dan sylw yn gallu cael gafael ar gymorth sy'n gysylltiedig â thai a chymorth arall yn ôl yr angen.




A1/A2/A3 To Let
jackson criss

# **Amcan Lles 4:**
# Cymunedau diogel, hyderus a grymus

Cymunedau cryf yw conglfaen pob dinas wych. Maent yn chwarae rhan hanfodol yn cysylltu pobl â'i gilydd a'r grwpiau a rhwydweithiau cymdeithasol a'r gwasanaethau bob dydd y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt. Mae hyn wedi bod yn arbennig o amlwg yn ystod y pandemig Covid-19, wrth i gymunedau gymryd camau i gefnogi unigolion a theuluoedd sy'n agored i niwed yn eu hardal. Mae grwpiau cymunedol lleol, busnesau ac asiantaethau trydydd sector wedi helpu'r Cyngor i gyflenwi bwyd a hanfodion i'r rhai sy'n agored i niwed ac yn hunanynysu, tra bod eraill wedi cyflawni rolau eraill fel cyfeillio.

Mae cefnogaeth a gwydnwch cymunedol yn hollbwysig, nawr yn fwy nag erioed. Felly, mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau bod cymunedau yng Nghaerdydd yn ddiogel ac yn derbyn buddsoddiad i wella canolfannau lleol a chanolfannau dosbarth a bod ganddynt fynediad hawdd at wasanaethau lleol cydgysylltiedig o ansawdd da, parciau a mannau gwyrdd gwych ac opsiynau chwaraeon, hamdden a diwylliant lleol.

**Ein blaenoriaethau yn 2020/21 oedd:**

- Gweithio i roi diwedd ar argyfwng tai'r ddinas
- Buddsoddi mewn cymunedau lleol
- Creu cymunedau diogel
- Sicrhau y diogelir plant ac oedolion rhag risg o niwed a chamdriniaeth
- Parhau i arwain dinas gynhwysol ac agored i fewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg
- Gwella chwaraeon a hamdden
- Parhau i wella ein parciau a'n mannau gwyrdd

## Llwyddiannau Allweddol yn 2020/21

### Gweithio i roi diwedd ar argyfwng tai'r ddinas

- **Darparu cartrefi cyngor newydd**: Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud ar y rhaglen ddatblygu fwyaf a arweinir gan gyngor yng Nghymru. Dros ddeng mlynedd, bydd y rhaglen £1bn yn darparu 4,000 o gartrefi newydd. Er bod Covid-19 wedi gohirio'r targed cyffredinol o 1,000 o gartrefi cyngor newydd erbyn mis Mai 2022, mae 552 o gartrefi eisoes wedi'u cwblhau, gan gynnwys 236 yn 2020/21.
- **Cynlluniau tai arbenigol a thai â chymorth**: Yn ogystal â chartrefi newydd fforddiadwy i deuluoedd a phobl hŷn, mae'r rhaglen 'Cartrefi Caerdydd' a thai cymunedol yn darparu cynlluniau tai arbenigol a thai â chymorth newydd i helpu i fodloni anghenion y rhai mwyaf agored i niwed. Ymhlith y cynlluniau a gwblhawyd yn ddiweddar mae Willowbrook yn Llaneirwg a chynllun teuluoedd digartref Briardene yng Ngabalfa, gan ddarparu 88 o dai fforddiadwy a 39 o fflatiau fforddiadwy yn y drefn honno.

### Buddsoddi mewn cymunedau lleol

- **Gweithio 'Gyda'n Gilydd Dros Gaerdydd'**: Gwirfoddolodd 1,000 o bobl i helpu i ddarparu bwyd a chyflenwadau meddygol i'r rhai mwyaf agored i niwed ar ddechrau'r cyfnod clo ym mis Mawrth 2020. Ers hynny, mae 491 o wirfoddolwyr wedi cefnogi banc bwyd Cyngor Caerdydd, gan ddarparu dros 3,000 o oriau o gymorth ychwanegol, ac ymunodd 23 o wirfoddolwyr â chynllun cyfeillio newydd a ariannwyd gan Age UK, gan roi cymorth i'r rhai a oedd yn teimlo'n unig neu'n ynysig yn ystod y pandemig. Mae ymweliadau â'r wefan hefyd wedi rhagori ar y disgwyliadau o gryn dipyn, gyda 156,153 o ymweliadau dros y flwyddyn.
- **Trawsnewid cymdogaethau**: Mae'r Cyngor yn arwain ar gynlluniau datblygu sy'n trawsnewid cymdogaethau cyfan, gan ddarparu cartrefi ynni-effeithlon newydd a hybu economïau lleol. Mae partneriaeth 'Cartrefi Caerdydd' y Cyngor, er enghraifft, eisoes wedi cefnogi £47 miliwn o wariant gyda busnesau bach a chanolig ac mae 250 o bobl, gan gynnwys 75 o brentisiaethau, wedi cael cymorth gyda hyfforddiant a chyflogaeth.
- **Adeiladu cartrefi carbon-isel**: Mae gwaith adeiladu wedi dechrau ar 200 o gartrefi carbon-isel sy'n perfformio'n dda o ran ynni ar hen safle Ysgol Uwchradd y Dwyrain; y cyntaf o bedwar cynllun a gynlluniwyd o gwmpas anghenion y genhedlaeth hŷn. Mae ymgynghoriad wedi'i gynnal ar gynlluniau cychwynnol ar gyfer datblygiadau Trowbridge Green a Pennsylvania, gyda dyluniadau manwl yn cael eu datblygu ar gyfer ymgynghoriad pellach. Mae cynlluniau adfywio ystâd Roundwood a Llanrhymni Isaf hefyd yn mynd rhagddynt yn dda a disgwylir iddynt gael eu cwblhau eleni.
- **Prosiectau adfywio**: Fel rhan o raglen o brosiectau adfywio llai ar draws y ddinas, mae gwelliannau amgylcheddol i Heol Cathays, Glan-yr-afon a Heol Llanisien wedi'u cwblhau ac mae gwaith wedi dechrau ym Mharc Llanisien a Heol Ddwyreiniol y Bont-faen. Mae 89% o'r trigolion a ymatebodd i arolygon yn fodlon ar y prosiectau adfywio sydd wedi'u cwblhau hyd yma.

- **Cyllid y Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRIP)**: Sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i helpu i gyflawni mentrau adfywio yng Nghoridor Busnes De Glan-yr-afon. Bydd yr arian yn cefnogi buddsoddiad o dros £4 miliwn yn Tudor Street ac mae gwaith wedi dechrau ar y safle i sicrhau gwelliannau i'r amgylchedd busnes a seilwaith trafnidiaeth, yn ogystal ag adfywio 30 o adeiladau busnes.
- **Datblygu Rhaglen Hybiau'r Cyngor**: Mae Rhaglen Hybiau'r Cyngor yn parhau i gael ei chyflwyno ar draws y ddinas, gyda Hyb Creadigol newydd Butetown ac adnewyddu Hybiau Cymunedol yr Eglwys Newydd a Rhydypennau yn cynnig gwasanaethau ychwanegol a gwell o dan un to. Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar Hyb Iechyd a Lles y Maelfa a disgwylir i Hyb Rhiwbeina gael ei gwblhau yn ystod 2021/22. Mae opsiynau hefyd yn cael eu harchwilio ar gyfer Hyb Ieuenctid yng nghanol y ddinas.
- **Lansio gwefan Hybiau newydd**: Er mwyn gwella mynediad at wasanaethau, mae gwefan Hybiau newydd wedi'i lansio. Mae'r wefan yn rhoi gwybodaeth am yr holl wasanaethau a ddarperir o Hybiau ledled y ddinas, gan gynnwys Gwasanaethau Cynghori, Dysgu Oedolion, y Gwasanaeth Cynghori i Mewn i Waith a Gwasanaethau Llyfrgell. Mewn arolwg cwsmeriaid, cytunodd 98% fod eu profiad o ddefnyddio Hyb wedi bodloni eu hanghenion.

## Creu cymunedau diogel a chydlynol

- **Lansio Strategaeth Datblygu Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid newydd**: Ym mis Mehefin 2020, lansiwyd Ein Dyfodol Ni i Gyd, Strategaeth Datblygu Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid newydd, mewn ymateb i heriau perfformiad a nodwyd yng Ngwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid y ddinas. Mae'r flwyddyn ddiwethaf hefyd wedi gweld cynnydd o ran cryfhau llywodraethu strategol a gwaith partneriaeth, gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ac o ran defnyddio gwybodaeth am bartneriaethau i lywio'r gwasanaeth. Mae Panel Adsefydlu hefyd wedi'i gyflwyno i sicrhau bod cynllunio ar gyfer y broses o ryddhau person ifanc i'r gymuned yn dechrau o'r eiliad y mae'n mynd i'r ddalfa neu mewn perygl o fynd i'r ddalfa.
- **Sefydlu Grŵp Atal Trais newydd**: Cyn i'r Ddyletswydd Trais Difrifol newydd ddod i rym, a fydd yn ddarpariaeth yn y Bil Plismona a Throseddu newydd a ddaw i rym yn 2022, sefydlwyd Grŵp Atal Trais newydd. Yn unol â'r Ddyletswydd, bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn mabwysiadu dull iechyd cyhoeddus o ddeall achosion a chanlyniadau trais difrifol ac yn cymryd camau i leihau trais difrifol drwy atal ac ymyrryd yn gynnar.

## Sicrhau y diogelir plant ac oedolion rhag risg o niwed a chamdriniaeth

- **Cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig**: Agorwyd 'siop un stop' newydd i gefnogi dioddefwyr cam-drin domestig yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Mae gwaith ailwampio hefyd wedi'i gwblhau i drawsnewid yr hen Gapel yn yr Ysbyty yn gyfleuster iechyd a lles bywiog i drigolion de a dwyrain Caerdydd. Disgwylir i'r cyfleuster agor yn haf 2021.
- **Cyd-Strategaeth Camfanteisio ar Blant ac Oedolion**: Cyhoeddwyd strategaeth i adlewyrchu themâu newydd a datblygol o ran camfanteisio ar blant ac oedolion, megis caethwasiaeth fodern. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid i atgyfnerthu dull gweithredu'r Cyngor a phartneriaid o ran diogelu cyd-destunol, gan gydnabod y gall y gwahanol berthnasoedd y mae pobl ifanc yn eu meithrin

yn eu cymdogaethau, eu hysgolion ac ar-lein y tu allan i'r uned deuluol gynnwys trais a cham-drin.

- **Gwella goruchwyliaeth gorfforaethol o gamfanteisio a diogelu**: Mae trefniadau ar waith i wella goruchwyliaeth gorfforaethol o gamfanteisio a diogelu yn gyffredinol, gyda dull gweithredu diwygiedig yn cael ei weithredu ym mis Mawrth 2021 fel rhan o'r Strategaeth Diogelu Corfforaethol ddiwygiedig.
- **Ymarfer sy'n Seiliedig ar Gryfderau**: Mae ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau wedi parhau i gael ei ddatblygu drwy gydol 2020, drwy ddarparu hyfforddiant Cyfathrebu Cydweithredol; mae 93% o weithwyr cymdeithasol yn y Gwasanaethau Oedolion wedi dilyn yr hyfforddiant. Mae hyn wedi cefnogi newid yn y model gwaith cymdeithasol ym mhob rhan o'r Gwasanaethau Oedolion ac wedi sicrhau gwell cysylltiadau rhwng y ffordd y caiff gwaith cymdeithasol ei gyflawni a gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Dinas gynhwysol ac agored

- **Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant**: Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant newydd ar gyfer 2020-24. Mae'r strategaeth yn cydnabod effaith Covid-19 ar wahanol gymunedau ac yn blaenoriaethu datblygiad gwasanaethau a phartneriaethau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, allgáu ac anghydraddoldebau strwythurol sylfaenol yng Nghaerdydd.
- **Sefydlu Tasglu Cydraddoldeb Hiliol**: Mae Tasglu Cydraddoldeb Hiliol wedi'i sefydlu, a nodwyd pum blaenoriaeth thematig: Cyflogaeth a Gweithlu Cynrychioliadol, Plant a Phobl Ifanc, Iechyd, Cyfiawnder Troseddol a Llais y Dinesydd. Sefydlwyd is-grwpiau ar gyfer pob thema, a bwriedir cyflwyno cyfres gychwynnol o argymhellion i'r Cyngor i'w hystyried yn haf 2021.
- **Cefnogi dinasyddion yr UE i wneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS)**: Mae'r Cyngor wedi parhau i helpu dinasyddion yr UE i wneud cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS), gan gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae defnydd da wedi'i wneud o'r rhaglen ymgysylltu a chymorth digidol i helpu pobl i gael mynediad i'r cynllun ar-lein: o gymharu â'r amcangyfrifon fod 21,000-25,000 o ddinasyddion o'r UE yn byw yng Nghaerdydd, roedd 21,200 o geisiadau wedi'u gwneud i'r cynllun ar 31 Mawrth 2021.
- **Cefnogi'r gwaith o gwblhau Cyfrifiad 2021**: Mae gwaith i gefnogi Cyfrifiad 2021 wedi'i gwblhau, gyda gwaith allgymorth ac ymgysylltu helaeth yn cael ei wneud i sicrhau bod anghenion grwpiau poblogaeth a allai brofi rhwystrau i gyfranogi yn cael eu hadlewyrchu yn yr arolwg. Mae hyn yn cynnwys cymunedau mudol, lleiafrifoedd ethnig, y digartref a chymunedau teithwyr.

## Hyrwyddo'r iaith Gymraeg

- **Cynyddu nifer yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg**: Yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn parhau i dyfu. Yn 2020/21, dyrannwyd lleoedd Derbyn i 764 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, sef 18.5% o gyfanswm y derbyniadau ar draws y ddinas – y nifer uchaf o dderbyniadau i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng

Nghaerdydd hyd yma.

- **Ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg**: Cymeradwywyd cynlluniau addysg cyfrwng Cymraeg pellach a fydd yn ehangu Ysgol y Wern a sefydlu darpariaeth Cylch Meithrin newydd, darpariaeth dwy ffrwd i wasanaethu datblygiad Plasdŵr a chynyddu'r ddarpariaeth yng Nghanol Caerdydd.
- **Cynnydd yn nifer y bobl sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg**: Mae nifer sylweddol wedi manteisio ar gyrsiau Cymraeg hefyd dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda dros 700 o staff y Cyngor yn caffael sgiliau Cymraeg.
- **Cyflwyno enwau strydoedd Cymraeg ar draws Caerdydd**: Mae gwaith yn parhau i gyflwyno enwau strydoedd Cymraeg newydd ar draws y ddinas yn dilyn cyflwyno Polisi Enwi Strydoedd newydd Cyngor Caerdydd ym mis Hydref 2019, sy'n sicrhau cydraddoldeb rhwng enwau strydoedd Cymraeg a Saesneg yn y ddinas.
- **Gŵyl Tafwyl rithwir**: Yn 2020, aeth gŵyl Gymraeg Tafwyl ar-lein, gan ymestyn ei chyrhaeddiad i gynulleidfa fyd-eang. Ymgysylltodd tua 25,000 o bobl â'r ŵyl a manteisiodd mwy nag 8,000 ar y cynnwys digidol.

### Gwella chwaraeon a hamdden

- **Adfer Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien**: Mae gwaith adeiladu bellach wedi'i gwblhau ar adfer Cronfeydd Dŵr Llys-faen a Llanisien gyda'r gobaith o greu cyrchfan ar gyfer cerdded, chwaraeon dŵr a gwella iechyd meddwl a chorfforol preswylwyr.
- **Cefnogi newid ymddygiad tuag at boblogaeth iachach a mwy egnïol**: Lansiwyd 'Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Iach 2020-23' Caerdydd a'r Fro yn 2020 gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd i gefnogi newid mewn ymddygiad tuag at boblogaeth iachach a mwy egnïol.

### Parhau i wella ein parciau a'n mannau gwyrdd

- **Gwobrau ar gyfer parciau a mannau gwyrdd y Cyngor**: Mae nifer y parciau a'r mannau gwyrdd yn y ddinas sy'n cyflawni marc ansawdd rhyngwladol Cadwch Gymru'n Daclus yn parhau i godi, gyda 14 yn cyflawni safon lawn y Faner Werdd yn 2020. Derbyniodd Parc Gwledig Fferm y Fforest a Pharc Hailey y wobr am y tro cyntaf.
- **Cynyddu canopi coed Caerdydd**: Fel rhan o'r ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd, mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i gynyddu canopi coed Caerdydd, gwella bioamrywiaeth a darparu amgylcheddau sy'n cefnogi iechyd a lles trigolion lleol. Mae'r Cyngor wedi darparu 1,000 o goed i ysgolion cynradd, ac mae gwaith ar y gweill i nodi cyfleoedd i gynyddu'r canopi coed ar dir y sector cyhoeddus.
- **Adfer cynefinoedd gwlyptir**: I gynyddu bioamrywiaeth, mae cynefinoedd gwlyptir pwysig yn Fferm y Fforest wedi'u hadfer fel rhan o'r prosiect 'Dim Colled Net', a ariennir gan Network Rail.
- **Cynyddu trefniadau torri gwair 'un toriad'**: Mabwysiadwyd trefniadau torri gwair 'un toriad', sy'n fwy cyfeillgar i bryfed peillio, gan ddod â chyfanswm arwynebedd y dolydd brodorol y mae'r Cyngor yn gofalu amdanynt i 33.5 hectar.

## Heriau a Risgiau

- **Cartrefi cyngor newydd**: Er bod cynnydd wedi'i wneud, bu'n rhaid gohirio'r amserlen ar gyfer darparu'r 1,000 o gartrefi cyngor newydd cyntaf o saith mis, hyd at fis Rhagfyr 2022, yn sgil Covid-19.
- **Effaith barhaus Covid-19 ar wasanaethau lleol a chymunedol**: Er i ymweliadau wyneb-yn-wyneb â llyfrgelloedd a Hybiau gynyddu o 25,000 yn Chwarter 1 i dros 280,000 erbyn diwedd y flwyddyn, dim ond traean o nifer yr ymwelwyr ar ddiwedd 2019/20 yw hyn. Lansiwyd gwefan Hybiau newydd ym mis Hydref 2020, gan alluogi mynediad at wasanaethau a digwyddiadau ar-lein. Fodd bynnag, roedd nifer yr ymwelwyr wyneb-yn-wyneb ac ar-lein gyda'i gilydd yn dal i fod yn sylweddol is na'r targed o 3.3 miliwn a osodwyd, ar 2.5 miliwn. Gan mai dim ond gwasanaethau cyfyngedig y gall llyfrgelloedd a Hybiau eu darparu, mae hyn yn cael effaith ar draws y gymuned o ran mynediad at wasanaethau ac iechyd a lles preswylwyr. Mae'r Cyngor hefyd yn colli incwm gan nad yw digwyddiadau'n cael eu cynnal.
- **Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir**: Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) wedi chwarae rhan ganolog yn y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (POD), gyda nifer o swyddogion wedi'u secondio i rolau allweddol wrth ei gyflwyno. Fodd bynnag, mae hyn wedi effeithio ar gyflawni cynllun busnes y GRhR. Bydd unrhyw weithgareddau cynllun busnes na allai gael eu cyflawni o ganlyniad i'r pandemig yn cael eu datblygu fel y bo'n briodol ym mlwyddyn ariannol 2021/22.
- **Tueddiadau troseddu**: Mae llacio cyfyngiadau Covid-19 yn dilyn cyfnod clo'r gaeaf wedi gweld cynnydd ar draws pob categori o drosedd, yn enwedig trais yn erbyn y person, trais heb anaf, lladrad, bwrgleriaeth a throseddau rhywiol. Gallai llacio'r cyfyngiadau ymhellach ac ailagor economi'r nos arwain at gynnydd pellach mewn troseddu. Byddai hyn yn arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau'r Heddlu ac Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ar adeg pan fo gwasanaethau iechyd yn profi galw sylweddol nad yw'n gysylltiedig â Covid.
- **Trais difrifol ymhlith pobl ifanc a chamfanteisio'n droseddol ar bobl ifanc**: Mae trais difrifol ymysg pobl ifanc yn parhau i fod yn bryder ac mae atal yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol y ddinas. Mae angen parhau i ganolbwyntio ar wella arferion a diwylliant yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, ochr yn ochr â dull strategol a gweithredol cryfach o ddiogelu pobl ifanc sy'n agored i niwed ar draws y Cyngor ac ar draws partneriaeth gwasanaeth cyhoeddus y ddinas.
- **Niwed cudd**: Mae'n debygol y bydd cyfnodau clo a chyfyngiadau Covid-19 wedi arwain at dan-adrodd am drais domestig ac anawsterau iechyd meddwl. Mae nifer yr atgyfeiriadau cam-drin domestig a dderbynnir yn cael eu monitro'n ofalus a'u huwchgyfeirio fel y bo'n briodol i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.
- **Ymwybyddiaeth a hyfforddiant diogelu**: Mae bron i 80% o staff y Cyngor wedi cwblhau'r Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelu Corfforaethol. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn is na'r targed o 100%. Yn ogystal, er bod mwy na dwy ran o dair o staff y Cyngor wedi cwblhau modiwl ar-lein Lefel 1 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae hyn hefyd yn llai na'r targed o 100%.
- **Blociau fflatiau uchel**: Ers y digwyddiadau trasig yn Nhŵr Grenfell, mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a grwpiau preswylwyr wedi gwneud cynnydd o ran mynd

i'r afael â phroblemau mewn rhai adeiladau, ond mae angen rhoi sylw o hyd i nifer o adeiladau eraill. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i drigolion yr adeiladau hyn dalu am y gwaith, a bydd hyn yn parhau i fod yn wir oni bai bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol.

- **Gwirfoddoli mewn parciau a mannau gwyrdd**: Er i lawer o bobl ymateb i'r alwad i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed i gael gafael ar fwyd a chyflenwadau meddygol hanfodol ar ddechrau'r pandemig, bu'n rhaid gohirio llawer o'r gwaith mewn perthynas â pharciau a mannau gwyrdd oherwydd bregusrwydd gwirfoddolwyr. Yn 2020/21, roedd nifer yr oriau gwirfoddoli a ymrwymwyd i barciau a mannau gwyrdd yn llai na 10% o'r targed a osodwyd cyn y cyfnod clo cyntaf.
- **Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS)**: Daeth y cyfnod gras ar gyfer ceisiadau i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE i ben ar 30 Mehefin 2021. Pe na bai unigolion sydd angen cofrestru yn gwneud hynny erbyn 30 Mehefin, gallent golli'r hawl i fyw a gweithio yn y DU a hefyd fynediad at rai gwasanaethau cyhoeddus a chymorth. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi canllawiau nad ydynt yn hollgynhwysfawr ar gyfer gweithwyr achos ar seiliau rhesymol dros geisiadau hwyr i'r EUSS – gellir derbyn ceisiadau hwyr am gyfnod amhenodol. Wrth symud ymlaen, bydd y Cyngor yn cefnogi ceisiadau hwyr i'r cynllun, gydag unigolion yn cael eu cyfeirio at gyngor cyfreithiol os bydd angen.
- **Cynaliadwyedd y Contract Gwasanaethau Hamdden**: Mae Covid-19 wedi cael effaith fawr ar hyfywedd contract Gwasanaethau Hamdden y Cyngor gyda GLL oherwydd gostyngiad sylweddol mewn incwm a achoswyd gan gyfnodau clo olynol a chyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol. Er bod cyfranogiad wedi dechrau cynyddu, mae incwm yn parhau i fod yn sylweddol is na lefelau cyn Covid. Mae graddau'r gefnogaeth barhaus gan y llywodraeth i bontio'r bwlch yn parhau i fod yn aneglur. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi penderfynu tynnu Canolfan Hamdden Pentwyn o'r contract i leihau'r diffyg gweithredol presennol, fodd bynnag, efallai y bydd angen adolygu a gwneud newidiadau i'r contract a'r fanyleb gwasanaeth yn barhaus.
- **Mynd i'r afael â gordewdra a chynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol**: Mae Covid-19 wedi tynnu sylw at bwysigrwydd iechyd, lles a chymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, gan fod gordewdra a diabetes yn risgiau iechyd sylfaenol allweddol. Er bod lefelau gordewdra yng Nghaerdydd ymhlith yr isaf yng Nghymru, maent yn dal yn rhy uchel, yn enwedig yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y ddinas. Bydd angen gweithredu ar y cyd ac yn dargedig yn yr hirdymor i fynd i'r afael â'r her hon. At hynny, er bod parciau a mannau gwyrdd wedi'u defnyddio drwy gydol y pandemig Covid-19, mae cyfyngiadau wedi arwain at lefelau isel o ymweliadau, fesul 1,000 o'r boblogaeth, â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr Awdurdod Lleol – ar ychydig dros 10% o'r targed cyn Covid.

## Edrych 'Mlaen: Meysydd o Ffocws

Er mwyn sicrhau bod cymunedau'n parhau i fod yn ddiogel, hyderus a grymus, mae meysydd ffocws yn y dyfodol yn cynnwys:

- Bwrw ymlaen â datblygiadau ar draws 60 o safleoedd fel rhan o'r bartneriaeth 'Cartrefi Caerdydd', gyda chynlluniau yn y dyfodol yn cynnwys y Gweithfeydd Nwy yn Grangetown. Bydd y cynllun yn darparu cymuned newydd sbon o 500 o gartrefi wedi'u cysylltu â'r ardal gyfagos drwy gysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy.

- Datblygu cynllun Trem y Môr, a fydd yn gweld buddsoddiad o £65 miliwn mewn mwy na 250 o gartrefi carbon-isel, gan ddarparu cartrefi newydd i bob preswylydd presennol yn yr ardal a mynediad gwell i fannau gwyrdd. Disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yn gynnar yn 2022.
- Bydd gwaith yn parhau i gwblhau cynlluniau gwella ystadau tai yn Llanedern a Llanrhymni, fel rhan o raglen o welliant amgylcheddol.
- Bydd Bwrdd Arwain Diogelwch Cymunedol Caerdydd yn canolbwyntio ar fwrw ymlaen â blaenoriaethau cytûn y bartneriaeth. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â materion lleol cymhleth, ffyrdd o fyw ar sail stryd ac anghenion cymhleth, atal trais, a gweithio ar sail ardal. Bydd grŵp Atal Trais newydd yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Strategaeth Trais Difrifol yn 2021 a dull partneriaeth newydd.
- Gan adeiladu ar gynnydd y flwyddyn ddiwethaf, bydd ffocws ar wella arferion a diwylliant yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, yn gysylltiedig â dull strategol a gweithredol cryfach, ehangach o ddiogelu pobl ifanc sy'n agored i niwed a mynd i'r afael â thrais ieuenctid a chamfanteisio'n droseddol ar bobl ifanc.
- Datblygu Strategaeth Gwasanaethau Oedolion a fydd yn amlinellu cynlluniau'r Cyngor ar gyfer cefnogi dinasyddion dros y pedair blynedd nesaf ac a gaiff ei chreu gyda mewnbwn gan ddinasyddion, rhanddeiliaid a staff.
- Bydd y gyd-Strategaeth Camfanteisio ar Blant ac Oedolion newydd yn parhau i gael ei datblygu, gan fynd i'r afael â themâu ecsbloetio newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, fel caethwasiaeth fodern.
- Yn y flwyddyn i ddod, bydd y Cyngor yn treialu nifer o fentrau, gan gynnwys y Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol, dull newydd o ddarparu cymorth a llety i Blant ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches ledled Cymru, yn ogystal â'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, gan nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio a sicrhau bod cynlluniau amlasiantaethol ar waith.
- Bydd y Cyngor yn parhau i fwrw ymlaen â cheisiadau Plant sy'n Derbyn Gofal ac oedolion sy'n agored i niwed i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, yn ogystal â chefnogi ceisiadau hwyr i'r Cynllun. Bydd y Cyngor hefyd yn parhau i fonitro effaith Brexit ar gydlyniant drwy Gynllun Gweithredu Cydlyniant Cymunedol y Cyngor.
- Fel un o ddinasoedd sylfaenol y Rhaglen Dinasoedd Cynhwysol, bydd y Cyngor hefyd yn arwain ar gydlynu cymorth i gymunedau mudol, gan gefnogi mynediad at gyngor cyfreithiol i'r rhai y mae eu statws mewnfudo yn ansicr, a allai eu rhoi mewn perygl ychwanegol o effeithiau economaidd ac iechyd y pandemig. Bydd cynllun gweithredu Cam 2 ar gyfer Dinasoedd Cynhwysol hefyd yn cael ei ddatblygu dros y flwyddyn nesaf.
- Gan weithio gyda phartneriaid, bydd y Cyngor yn cefnogi'r gwaith o gyflawni 'Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Iach' Caerdydd a'r Fro, gan wella mynediad i amgylcheddau iach lle gellir bod yn egnïol a gwneud dewisiadau teithio llesol, gwella mynediad at fwyd iach ac annog dewisiadau iach o ran ffordd o fyw.
- Bydd y Cyngor hefyd yn datblygu Strategaeth Chwaraeon, Iechyd a Gweithgarwch Corfforol Caerdydd i wneud y defnydd gorau posibl o barciau, mannau gwyrdd a chanolfannau hamdden y ddinas a chynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol, yn enwedig yn y cymunedau mwyaf difreintiedig.
- Bydd y Cyngor yn adolygu'r contract Gwasanaethau Hamdden gyda GLL i sicrhau ei fod yn gynaliadwy ar gyfer tymor llawn y contract ac i sicrhau bod y contract yn sicrhau gwerth am arian.

# Amcan Lles 5:
# Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru

Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar economi Caerdydd a bywyd y ddinas, gan ddod â'r sectorau lletygarwch, manwerthu a diwylliannol i stop, achosi i ddiweithdra ddyblu ac atal llawer o bobl ifanc rhag symud ymlaen i fyd gwaith. Bydd economi gref a deinamig yng Nghaerdydd, sy'n gallu denu mewnfuddsoddiad a chreu swyddi mewn diwydiannau gwerth uchel, yn parhau i fod yn allweddol i ddinas-ranbarth lwyddiannus a Chymru lwyddiannus.

Wrth i'r Cyngor ddod allan o'r pandemig, mae'n hanfodol ystyried mesurau sydd eu hangen i gyflymu adferiad ac adnewyddiad, tra'n manteisio ar y cyfle hanesyddol i ailadeiladu Caerdydd fel dinas werddach, decach a chryfach. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys diogelu swyddi a busnesau i liniaru'r argyfwng economaidd uniongyrchol, parhau i gyflawni prosiectau Uchelgais Prifddinas mawr i wella cynhyrchiant, cysylltedd ac ansawdd swyddi newydd, a gweithredu'r addasiadau sydd eu hangen er mwyn i Gaerdydd ffynnu yn y dyfodol.

**Ein blaenoriaethau ar gyfer 2020/21 oedd:**

- Arwain prifddinas sy'n gweithio dros Gymru
- Parhau i ddatblygu canol y ddinas fel lleoliad busnes
- Ysgrifennu pennod newydd yn hanes adfywio Bae Caerdydd
- Cefnogi arloesedd a datblygu busnes
- Dod â digwyddiadau'r byd i Gymru a chyflwyno'r gorau o Gymru i'r byd

## Llwyddiannau Allweddol yn 2020/21

### Arwain prifddinas sy'n gweithio dros Gymru

- **Gwelliannau i'r Orsaf Ganolog**: Gwnaed cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau capasiti'r Orsaf Ganolog, gyda'r gwaith o ddatblygu Achos Busnes Manwl bellach yn mynd rhagddo'n dda. Bydd yr Orsaf Ganolog well yn hanfodol i gryfhau cysylltedd trafnidiaeth rhwng Ardal Fusnes Ganolog Caerdydd a'r ddinas-ranbarth ehangach, a fydd yn ei dro yn helpu i hybu cynhyrchiant tra'n gwneud swyddi'n fwy hygyrch ac yn lleihau tagfeydd, llygredd ac allyriadau carbon.

### Parhau i ddatblygu canol y ddinas fel lleoliad busnes

- **Sgwâr Canolog**:Mae cynnydd parhaus yn natblygiad y Sgwâr Canolog dros y flwyddyn ddiwethaf, yn fwyaf nodedig gyda'r Gyfnewidfa, wedi cefnogi cannoedd o swyddi adeiladu ar adeg o argyfwng economaidd.
- **Trawsnewid canol y ddinas**: Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Strategaeth Fframwaith ar gyfer Cwr y Gamlas, sy'n nodi gweledigaeth uchelgeisiol a chyraeddadwy ar gyfer trawsnewid y rhan hanesyddol hon o ganol y ddinas. Bydd cynllun Cwr y Gamlas yn ailagor hen gamlas gyflenwi'r dociau, sydd wedi'i gorchuddio â choncrid o dan hanner uchaf Ffordd Churchill, gan sicrhau gwelliannau sylweddol i'r ardal gyhoeddus a chefnogi draenio dŵr cynaliadwy.
- **Parc Caerdydd**: Mae'r cais cynllunio ar gyfer Parc Caerdydd, elfen allweddol o'r Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer y Dwyrain, wedi'i ddatblygu, a fydd yn darparu gorsaf drenau newydd, parc busnes newydd a chyfle economaidd gwirioneddol ar gyfer yr ardal hon o'r ddinas sydd wedi'i hanwybyddu ers amser maith.
- **Atgyfnerthu'r sector creadigol ymhellach**: Mae'r BBC wedi cyhoeddi y bydd yn symud ei ganolfan ragoriaeth fyd-eang ar gyfer newyddiaduraeth Hinsawdd a Gwyddoniaeth yn Llundain i bencadlys BBC Cymru Wales yn y Sgwâr Canolog. Bydd y datblygiad hwn yn gweld cyfleoedd gwaith newydd yn cael eu creu, nid yn unig yn y BBC, ond ar draws y ddinas, ac yn cadarnhau ymhellach enw da Caerdydd fel prifddinas bwysig o ran y cyfryngau creadigol.
- **Swyddfa Newydd y Llywodraeth**: Mae Caerdydd wedi denu Swyddfa Masnach a Buddsoddi newydd Llywodraeth y DU, a fydd yn creu 100 o swyddi newydd yn y ddinas. Rhagwelir y bydd yr adran newydd hon yn cael ei lleoli yng Nghanolfan Llywodraeth y DU yn y Sgwâr Canolog, a fydd yn rhoi hwb sylweddol i Ardal Fusnes Ganolog y ddinas yn ystod y cyfnod adfer.

### Ysgrifennu pennod newydd yn hanes adfywio Bae Caerdydd

- **Arena Dan Do**: Gwnaed cynnydd da tuag at gyflawni'r Arena Dan Do newydd, gyda'r Cyngor yn penodi Live Nation fel ei ddewis ymgeisydd ar gyfer adeiladu a gweithredu. Fel y darn mawr olaf o seilwaith sydd ar goll yn rhaglen adfywio economaidd y ddinas, sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant, bydd yr Arena Dan Do yn rhoi hwb i'r genhedlaeth nesaf o ddatblygiadau ym Mae Caerdydd ac yn gweithredu fel angor ar gyfer lleoliadau diwylliannol ar lawr gwlad yn yr ardal gyfagos.

- **Uwchgynllun Glanfa'r Iwerydd**: Cymeradwywyd uwchgynllun ar gyfer gweledigaeth Glanfa'r Iwerydd yn y dyfodol gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2020. Bydd rheiliau tram a rhwydwaith gwresogi'r dyfodol - a fydd yn cysylltu canol y ddinas a Bae Caerdydd - wrth wraidd y weledigaeth hon ac yn sicrhau bod datblygiadau newydd sydd wedi'u cynnwys yn yr uwchgynllun yn cael effaith carbon-isel neu niwtral, ac y bydd swyddi newydd yn hygyrch i bob gymuned yn unol â'n huchelgais ar gyfer twf cynhwysol a gwyrdd.

## Cefnogi arloesedd a datblygu busnes

- **Creu dinasoedd a chanolfannau ardal Covid-ddiogel**: Gan weithio mewn partneriaeth â Caerdydd AM BYTH – Ardal Gwella Busnes y ddinas – trawsnewidiodd y Cyngor ganol y ddinas yn amgylchedd sy'n ddiogel rhag Covid, yn ddeniadol ac sy'n canolbwyntio ar bobl ar gyfer trigolion ac ymwelwyr. Gwnaeth y defnydd arloesol o ofod cyhoeddus wrth greu ardal eistedd awyr agored newydd, Cwr y Castell, ganiatáu i'r sector lletygarwch yng nghanol y ddinas barhau i fasnachu o fewn cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol, gan ysgogi cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr a chynhyrchu tua hanner miliwn o bunnoedd i'r economi leol.
- **Cymorth busnes**: Mae timau Ardrethi Busnes a Datblygu Economaidd y Cyngor wedi rhoi dros £120 miliwn o gymorth ariannol i bron 20,000 o fusnesau yn ystod y pandemig, gan roi achubiaeth iddynt tra nad oeddent yn gallu masnachu. Yn hollbwysig, mae'r gwaith hwn wedi cynnwys cefnogi'r rhai a syrthiodd drwy rwyd cymorth Llywodraeth y DU, yn bennaf drwy ddarparu dros 10,000 o grantiau i fusnesau bach, tua 800 o grantiau llawrydd ar gyfer y sector creadigol a 200 o grantiau i fusnesau newydd.
- **Tasglu Adfer Economaidd**: Mae Tasglu Adfer Economaidd wedi'i sefydlu i gefnogi'r rhai sydd wedi colli eu swydd oherwydd Covid-19 i mewn i gyflogaeth newydd, helpu cyflogwyr i recriwtio a hyfforddi, ac yn fwy cyffredinol, arwain yr adferiad economaidd ar ôl Covid yng Nghaerdydd. Yn hollbwysig, mae'r Tasglu wedi cydlynu a hyrwyddo'r Cynllun Kickstart, sy'n darparu cyllid i greu lleoliadau gwaith newydd i bobl ifanc 16 i 24 oed ar Gredyd Cynhwysol sydd mewn perygl o ddiweithdra hirdymor.
- **Cynnig Strength in Places**: Cefnogodd y Cyngor gais Strength in Places (SIP) i UK Research and Innovation (UKRI), dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, i gynyddu ymchwil a datblygiad yn niwydiannau sgrin a chreadigol y ddinas-ranbarth. Mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar y sector hwn – un o ddiwydiannau twf allweddol Caerdydd ar gyfer y dyfodol – ac felly bydd sicrhau ei adferiad yn hanfodol i lwyddiant yr economi leol yn y dyfodol.
- **Cronfa Benthyciadau Canol Tref**: Mae gwaith i ehangu seilwaith busnes y ddinas wedi parhau, gyda chymorth gan y Gronfa Benthyciadau Canol Tref wedi'i sicrhau i ddatblygu cyfleusterau newydd ar gyfer busnesau.
- **Creu mannau gwaith newydd**: Crëwyd gofod deori newydd y tu allan i ganol y ddinas yn hen swyddfeydd Grant Thornton i gefnogi datblygiad sectorau creadigol a thechnoleg ariannol Caerdydd. Mae'r galw am ofod 'deori' a 'dechrau busnes' yn y ddinas wedi cynyddu, ac felly mae'r Cyngor wrthi'n archwilio nifer o gynigion pellach.
- **Datblygu Parc Gwyddoniaeth**: Gwnaed cynnydd o ran datblygu Parc Gwyddoniaeth. Mae perchnogion sector preifat y safle posibl yn bwrw ymlaen â'r trawsnewidiad hwn, gyda busnes newydd wedi'i sicrhau'n ddiweddar a fydd yn cynhyrchu'r brechlyn Covid-19.
- **Creu swyddi newydd**: Yn 2020, mae'r Cyngor wedi cefnogi gwaith i greu dros 500 o swyddi ac wedi diogelu 1,339 o swyddi eraill.

Dod â digwyddiadau'r byd i Gymru a chyflwyno'r gorau o Gymru i'r byd

- **Digwyddiadau prawf llwyddiannus**: Datblygodd a chyflawnodd y Cyngor ddigwyddiadau prawf Covid-ddiogel ar dir Castell Caerdydd, gan gynnwys Tafwyl – gŵyl cerdd a diwylliant Cymru – a dathliad Eid.
- **Cronfa Adferiad Diwylliannol a'r Gronfa Adfer Cyfalaf**: Mae'r Cyngor wedi sicrhau dros £3 miliwn gan Gyngor Celfyddydau Cymru, a weinyddodd y Gronfa Adferiad Diwylliannol a'r Gronfa Adfer Cyfalaf, ar gyfer Neuadd Dewi Sant a'r Theatr Newydd. Helpodd yr arian hwn i gefnogi arlwy cerddoriaeth a theatr fyw Caerdydd, sydd ag enw da rhyngwladol, yn ystod y pandemig

## Heriau a Risgiau

- **Rheoli diweithdra a busnesau'n cau**: Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae diweithdra wedi dyblu, mae nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol wedi codi dros 100% ac mae busnesau wedi cau ar draws y ddinas. Disgwylir i'r cynllun ffyrlo, sy'n darparu rhywfaint o amddiffyniad ar hyn o bryd, ddod i ben ym mis Medi 2021 a gallai'r effaith gysylltiedig ar lefelau diweithdra yn y ddinas fod yn sylweddol. Blaenoriaeth uniongyrchol y Cyngor yn y cyfnod adfer felly yw diogelu swyddi a busnesau – yn enwedig y rhai yn y sectorau lletygarwch, manwerthu a digwyddiadau, sydd wedi'u bwrw'n galed – drwy roi mesurau ar waith i liniaru effaith cyfyngiadau ar fusnesau a denu pobl yn ôl i ganol y ddinas. Mae'r ymyriadau hyn yn cynnwys darparu mannau cyhoeddus ychwanegol ar gyfer y sector lletygarwch, gweithio gyda busnesau canol y ddinas i fabwysiadu cynllun cymudo, cyflwyno'r cynllun Kickstart i gefnogi pobl ifanc yn ôl i waith a chydweithio â Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth busnes uniongyrchol.
- **Adferiad canol y ddinas**: Mae'r gostyngiad cychwynnol yn nifer yr ymwelwyr â chanol y ddinas, a achoswyd gan y pandemig a gweithio o bell, wedi cael effaith sylweddol ar fusnesau yng nghanol y ddinas. Mae angen gwaith parhaus i gefnogi adferiad canol y ddinas, gan ymateb i dueddiadau manwerthu digidol a ffyrdd newydd o weithio. Bydd sicrhau cyllid ar gyfer cymorth busnes lleol estynedig yn allweddol i liniaru'r risg o ragor o fusnesau'n methu dros y flwyddyn i ddod.
- **Adfer y sectorau diwylliannol, digwyddiadau a thwristiaeth**: Mae'r pandemig wedi cael effaith ddifrifol ar leoliadau diwylliannol ac amgueddfeydd y ddinas, gyda goblygiadau mawr i'r sectorau celfyddydol a chreadigol. Adlewyrchir y sefyllfa hon mewn ffigurau presenoldeb yn lleoliadau'r Cyngor, gyda dim ond 174,286 o ymweliadau yn erbyn targed o 595,000 ar ddiwedd y flwyddyn, gan greu risg ariannol sylweddol i leoliadau sy'n dibynnu ar incwm. Y tu hwnt i greu problemau ariannu sylweddol, mae'r pandemig hefyd wedi oedi cynnydd o ran datblygu'r Portffolio Digwyddiadau, cyflwyno Ein Digwyddiad Cerddoriaeth Ni a gweithio i bennu ymarferoldeb cais ar gyfer Cwpan Pêl-droed y Byd FIFA 2030.
- Er bod y pandemig wedi dod â'r sectorau diwylliannol, digwyddiadau a thwristiaeth i stop, mae'n amlwg bod y galw'n parhau'n uchel. Felly, mae'r sectorau hyn mewn sefyllfa dda i adfer yn gryf gyda chyfyngiadau'n parhau i gael eu llacio dros y flwyddyn i ddod. Gyda thwristiaeth ryngwladol yn annhebygol yn y byrdymor, bydd arlwy ymwelwyr Caerdydd yn dod yn fwy lleol, gan greu profiadau ac atyniadau i ddinasyddion ac i'r farchnad ranbarthol. Bydd chwaraeon a cherddoriaeth yn rhannau allweddol o frand 'dinas iach' wrth symud ymlaen, gan wella lles ac ansawdd bywyd preswylwyr, tra hefyd yn denu'r ymwelwyr sydd eu hangen i helpu i sbarduno'r adferiad economaidd.

- **Brexit**: Mae Caerdydd yn agored i niwed yn sgil Brexit trafferthus, gan ei bod ymhlith y pum dinas sy'n dibynnu fwyaf ar farchnadoedd yr UE yng ngwledydd Prydain, gyda 46% o'i hallforion yn mynd i wledydd yr UE. Er bod y cytundeb y cytunwyd arno gan y DU a'r UE ym mis Rhagfyr 2020 wedi rhoi rhywfaint o barhad a sicrwydd i ddinasyddion a busnesau, mae Caerdydd yn dal i wynebu tirwedd newydd. Felly bydd y Cyngor yn parhau i gysylltu'n agos â chyflogwyr lleol dros y misoedd nesaf i liniaru effaith Brexit, gan gynnwys oedi wrth y ffin a'r goblygiadau cysylltiedig i gadwyni cyflenwi. Wrth symud ymlaen, bydd gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod gan y Cyngor strategaeth gadarn barhaus i fynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil Brexit.
- **Dyfodol cyllid rhanbarthol**: Mae cyllid yr UE wedi bod yn gyfrannwr ariannol sylweddol at ddatblygiad economaidd rhanbarthol a lleol yng Nghymru, yn enwedig y tu allan i Gaerdydd, gyda chyllid fesul pen yn uwch o lawer nag yn yr Alban, Gogledd Iwerddon neu Loegr. O ganlyniad, mae unrhyw newid i gyllido rhanbarthol ar ôl Brexit yn risg sylweddol bosibl i Gymru. Mae'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol newydd – rhagflaenydd (am flwyddyn) Cronfa Ffyniant Gyffredin newydd y DU, sy'n cymryd lle cronfeydd strwythurol Ewropeaidd o 2022 – yn gyfle i fuddsoddi mewn sgiliau, busnesau lleol a chyflogaeth.

  At hynny, mae'r Gronfa Codi'r Gwastad yn gyfle i ddatgloi buddsoddiad mewn seilwaith lleol, adfywio canol y dref a'r stryd fawr, prosiectau trafnidiaeth lleol, ac asedau diwylliannol a threftadaeth. Mae Caerdydd wedi'i rhoi yng nghategori 1 y Gronfa – sy'n golygu ei bod yn un o'r lleoedd sydd â'r lefelau uchaf o anghenion a nodwyd yn y genedl – a bydd y prosiectau a gynigir ar gyfer yr arian hwn yn chwarae rhan hollbwysig o ran cynyddu cynhyrchiant a ffyniant yn y ddinas dros yr hirdymor.

## Edrych 'Mlaen: Meysydd o Ffocws

Er mwyn cyflymu adferiad ac adnewyddiad, tra'n ailadeiladu Caerdydd fel dinas werddach, decach a chryfach ar yr un pryd, mae'r meysydd ffocws yn y dyfodol yn cynnwys:

- Yn ystod misoedd yr haf, bydd y Cyngor yn ymgynghori â dinasyddion a rhanddeiliaid y ddinas ar ei strategaeth Gwyrddach, Tecach, Cryfach ddrafft, sy'n nodi cynigion ar gyfer adferiad ac adnewyddiad Caerdydd yn y byd ôl-Covid. Bwriedir cynnal rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu thematig dros yr haf, mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd. Bydd Strategaeth Adfer ac Adnewyddu wedi'i diweddaru yn cael ei chyhoeddi tua diwedd y flwyddyn, yn dilyn ymarfer ymgysylltu'r haf.
- Bydd y broses gynllunio ar gyfer yr Arena Dan Do newydd ym Mae Caerdydd yn cael ei chynnal dros weddill 2021, a disgwylir i'r achos busnes llawn a'r dyfarniad contract fynd gerbron y Cabinet ym mis Medi. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, bydd achos busnes hefyd yn cael ei gyflwyno ar gyfer Glanfa'r Iwerydd, sy'n cynnwys Canolfan newydd y Ddraig Goch, sgwâr cyhoeddus newydd a gwelliannau i'r ardal gyhoeddus.
- Gyda'r Strategaeth Fframwaith bellach ar waith, bydd y Cyngor yn ceisio datblygu Cwr y Gamlas o 2021 ymlaen.
- Disgwylir penderfyniad cynllunio ar ddatblygiad Heol/Arglawdd Dumballs yn hydref 2021, a fydd o bosibl yn galluogi datblygu cyswllt newydd - a fydd yn wynebu'r glannau - rhwng canol y ddinas a Bae Caerdydd.

- Bydd uwchgynllun Pentref Chwaraeon Rhyngwladol newydd a diweddariad ar gynnydd gyda'r felodrom newydd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Medi 2021.
- Bydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno ar gyfer datblygiad logisteg newydd a chysylltiad trafnidiaeth rhwng yr A48 a Llanrhymni yn hydref 2021, gyda'r nod o wella cysylltiadau trafnidiaeth.
- Bydd gwaith yn cael ei wneud gyda'r sector digwyddiadau i gyflwyno digwyddiadau prawf a chefnogi presenoldeb diogel. Bydd atyniadau ymwelwyr sy'n ddiogel rhag Covid yn cael eu sefydlu ym Mae Caerdydd, gan ddefnyddio mannau agored i helpu busnesau lleol i adfer.
- Yn y flwyddyn i ddod, bydd y Cyngor yn parhau i weithio i ddatblygu Strategaeth Gerdd, Strategaeth Ddiwylliannol a Strategaeth Dwristiaeth, gyda'r olaf i'w chyflwyno i'r Cabinet yn yr hydref. At hynny, bydd Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd, a ohiriwyd gan Covid, yn cael ei haildrefnu ar gyfer 2022.
- Bydd y Cyngor yn parhau i arwain ar waith Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd a chyflawni argymhellion adroddiad Strategaeth Gerdd Caerdydd, a fydd yn cefnogi'r gwaith o adfer ac ailddechrau cerddoriaeth fyw yng Nghaerdydd, yn ogystal â datblygu'r ecoleg gerddoriaeth yng Nghaerdydd.
- Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Chanolfan Mileniwm Cymru a phartneriaid i ddatblygu Partneriaeth Ddiwylliannol Glanfa'r Iwerydd, sydd â'r nod o gynyddu gwerth cynhyrchu creadigol a diwylliannol yng Nghaerdydd, annog cyfranogiad a meithrin cyflenwad o dalent amrywiol i godi proffil rhyngwladol sector creadigol y ddinas.
- Dros y flwyddyn i ddod, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid ym Mhorth y Gorllewin i ddenu buddsoddiad gan Lywodraeth y DU, yn ogystal â mewnfuddsoddiad ar raddfa ryngwladol, gan gydnabod potensial asedau a rennir ar draws y rhanbarth i gynyddu cystadleurwydd cyffredinol. Mae'r bartneriaeth strategol drawsffiniol hon – gyda Chaerdydd a Bryste wrth ei gwraidd – yn helpu i sbarduno'r twf economaidd cynhwysol a gwyrdd a fydd yn diffinio'r cyfnod ôl-Covid.
- O ddiwedd mis Gorffennaf 2021 ymlaen, bydd llywodraeth y DU yn cyhoeddi prosiectau llwyddiannus ar gyfer y Gronfa Adnewyddu Cymunedol, a fydd yn chwarae rhan ganolog wrth greu cyfleoedd economaidd yng Nghaerdydd yn ystod yr adferiad. At hynny, disgwylir y bydd penderfyniadau buddsoddi ar gyfer cylch ariannu cyntaf y Gronfa Codi'r Gwastad yn cael eu gwneud erbyn hydref 2021.
- Bydd canlyniad y cais Strength in Places (SIP), a gefnogir gan y Cyngor ac a arweinir gan Brifysgol Caerdydd, yn cael ei gyhoeddi yn yr haf, gyda goblygiadau pwysig ar gyfer datblygu'r diwydiannau sgrin a chreadigol lleol.
- Bydd y Cyngor yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu a sefydlu Cydbwyllgor Corfforaethol (CBC) ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd dros y flwyddyn i ddod, gan chwilio am gyfleoedd i weithio'n fwy effeithiol ar draws y rhanbarth yn y meysydd cynllunio datblygu strategol, cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol a gwella lles economaidd.



# Amcan Lles 6:
# Mae Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn

Dros y flwyddyn ddiwethaf, yn sgil Covid-19, bu'n rhaid gwneud gwaith brys i drawsnewid canol dinas Caerdydd a nifer o ganolfannau ardal yn fannau Covid-ddiogel. Mae'r ymdrech hon nid yn unig wedi helpu i ddiogelu trigolion ac ymwelwyr, ond hefyd wedi cyflawni gwelliannau i dir cyhoeddus a gwella'r amgylchedd lleol. Bydd cyflwyno Strategaeth Caerdydd Un Blaned y Cyngor, yn ogystal â'r Papur Gwyn Trafnidiaeth ac Aer Glân, yn ganolog i'r uchelgeisiau i sicrhau adferiad economaidd a bod Caerdydd yn parhau i dyfu mewn ffordd gynaliadwy a gwydn.

Newid hinsawdd, fodd bynnag, yw un o'r bygythiadau mwyaf difrifol o hyd i Gaerdydd ac, yn wir, weddill y byd, gydag effeithiau megis cynnydd yn lefel y môr a mwy o dywydd eithafol yn rhoi'r ddinas mewn perygl uniongyrchol. Mae Strategaeth Caerdydd Un Blaned y Cyngor yn nodi ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Hinsawdd, gan gynnwys ein huchelgais i wneud Caerdydd yn Ddinas Carbon Niwtral erbyn 2030.

**Ein blaenoriaethau yn 2020/21 oedd:**

- Ymateb i'r argyfwng hinsawdd, gan arwain y newid carbon-isel yng Nghaerdydd
- Arwain y broses o drawsnewid system trafnidiaeth gyhoeddus Caerdydd, ynghyd â hyrwyddo dulliau mwy egnïol o deithio
- Rhoi cynaliadwyedd wrth galon ein cynlluniau ar gyfer datblygiad Caerdydd yn y dyfodol
- Gweithio fel un tîm, cadw ein strydoedd yn lân
- Gwneud Caerdydd yn ddinas ailgylchu o'r radd flaenaf

## Llwyddiannau Allweddol yn 2020/21

### Ymateb i'r argyfwng hinsawdd, gan arwain y newid carbon-isel yng Nghaerdydd

- **Strategaeth Caerdydd Un Blaned**: Lansiwyd y strategaeth Caerdydd Un Blaned ddrafft, gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Dinas Carbon Niwtral erbyn 2030, ym mis Hydref 2020. Mae'r strategaeth yn nodi rhaglen eang iawn sydd â'r nod o sicrhau bod Caerdydd yn arweinydd yn y DU mewn economi sy'n ymateb i'r hinsawdd, gan lunio atebion amgylcheddol i sicrhau manteision i fusnesau a'r ddinas ehangach, yn ogystal â'r sgiliau a swyddi newydd a fydd yn hanfodol i greu'r newid hwn. Mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghori ac ymgysylltu'n eang a manwl ar y strategaeth ddrafft ac mae'r safbwyntiau a gasglwyd yn helpu i lunio Strategaeth Caerdydd Un Blaned derfynol, a gyhoeddir yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- **Sefydlu Bwrdd Argyfwng Hinsawdd**: Sefydlwyd Bwrdd gyda sefydliadau partner sector cyhoeddus o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i nodi a chydweithio ar brosiectau allweddol. Mae hyn wedi ehangu i gynnwys partneriaid allweddol eraill y tu allan i'r bartneriaeth BGC reolaidd gan gynnwys Prifysgol Caerdydd, Wales and West Utilities, Western Power a Dŵr Cymru.
- **Dod yn Sefydliad Carbon-wybodus**: Mae Cyngor Caerdydd wedi dod yr Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i gael ei gydnabod fel Sefydliad Carbon-wybodus gan yr elusen carbon-isel The Carbon Literacy Trust.
- **Darparu Fferm Solar yn Ffordd Lamby**: Mae'r Cyngor wedi darparu Fferm Solar weithredol yn Ffordd Lamby sy'n cynhyrchu swm sylweddol, 9-Megawatt, o ynni glân, adnewyddadwy, at ddefnydd lleol uniongyrchol ac i helpu i ddatgarboneiddio trydan y Grid Cenedlaethol ymhellach.
- **Cyflawni'r Cynllun Aer Glân**: Mae'r Cyngor wedi dechrau cyflawni ei becyn Cynllun Aer Glân o fesurau lliniaru a ffefrir; mae'r gwaith o gyflawni'r Cynllun yn dal i fod ar y trywydd iawn i'w weithredu erbyn diwedd 2021, yn unol ag amserlenni Llywodraeth Cymru. Yn ystod y cyfnod o gyflwyno opsiynau lliniaru Covid-19, yn unol â'r effeithiau a'r mesurau a roddwyd ar waith i hwyluso'r pandemig a'r lleihad dilynol mewn traffig ar Stryd y Castell, mae setiau data ansawdd aer a gasglwyd ar Stryd y Castell wedi dangos cydymffurfiaeth gyson â'r gwerthoedd terfyn ansawdd aer cyfreithiol a osodwyd ar gyfer Nitrogen Deuocsid ($NO_2$). Rhagwelir y caiff mesurau eu cyflawni'n llwyr erbyn diwedd 2021, felly mae cydymffurfiaeth barhaus o ran ansawdd aer yn debygol o barhau ar Stryd y Castell. Y ffigur cyfartalog presennol (2021) o $NO_2$ yw 23µg/$m^3$ a'r terfyn cyfreithiol yw 40 µg/$m^3$.
- **Monitro ansawdd aer lleol**: Fel rhan o rwymedigaeth statudol Cyngor Caerdydd i fonitro ansawdd aer lleol , ni ddangosodd canlyniadau a gafwyd yn 2020 gan y rhwydwaith tiwbiau gwasgaru NO2 anawtomataidd unrhyw ragoriadau ar y gwerth terfyn cyfartalog blynyddol ar gyfer pob lleoliad a fonitrwyd. Fodd bynnag, nodir y byddai goblygiadau Covid-19 yn ffactor buddiol penderfynol yn y dadansoddiad hwn.

### Arwain y broses o drawsnewid system trafnidiaeth gyhoeddus Caerdydd, ynghyd â hyrwyddo dulliau mwy egnïol o deithio

- **Darparu llwybrau beicio**: Mae'r Cyngor wedi darparu pedwar llwybr beicio newydd ar wahân, gan gynnwys llwybrau beicio dros dro, i hyrwyddo teithio diogel a llesol. Ymhlith y llwybrau mae Heol y Gogledd, Beicffordd 1 (Heol Senghennydd), Beicffordd 4 (Gerddi Sophia) a'r Llwybr Traws-Ddinas Dros Dro.

- **Hyrwyddo teithio diogel a llesol mewn ysgolion**: Drwy'r Cynllun Beicio Ysgolion newydd, darparodd y Cyngor 660 o feiciau i dros 30 o ysgolion ym mis Hydref 2020. Nod y cynllun yw cynyddu nifer y plant sy'n beicio drwy ei ymgorffori yng nghwricwlwm yr ysgol. Mae ysgolion hefyd yn parhau i dderbyn cymorth i greu Cynlluniau Teithio Llesol pwrpasol; hyd yn hyn, mae gan tua 110 o ysgolion gynllun sydd wedi'i gwblhau neu sy'n cael ei ddatblygu.
- **Cyflwyno Cynllun Strydoedd Ysgol**: Mae'r Cyngor wedi cyflwyno Cynlluniau Strydoedd Ysgol er mwyn sicrhau bod plant yn gallu mynychu'r ysgol mor ddiogel â phosibl, yn ogystal ag annog teithio llesol. Yn ystod y tymor, ni chaniateir i gerbydau modur yrru ar strydoedd penodol ar ddyddiau'r wythnos yn ystod oriau gollwng a chasglu. Hyd yma, mae 14 o Gynlluniau Stryd Ysgol wedi'u rhoi ar waith.
- **Gwella ffyrdd Caerdydd**: Mae'r Cyngor wedi darparu rhaglen wella sydd wedi ail-arwynebu 135 o ffyrdd, sy'n cyfateb i gyfanswm arwynebedd bras o 175,000m2. Yn ogystal, mae 32,000m2 o waith ail-arwynebu lleol, y cyfeirir ato'n gyffredin fel clytio, wedi'i wneud ar ein rhwydwaith priffyrdd, gan leihau cwynion am gyflwr priffyrdd, megis tyllau yn y ffordd.
- **Cyflwyno terfynau cyflymder 20mya ar draws y ddinas**: Mae'r Cyngor yn parhau i gyflwyno terfynau cyflymder 20mya ar draws y ddinas, gyda'r gwaith o'u gosod yn yr ardaloedd craidd i'r de o'r A48 wedi'i gwblhau i raddau helaeth. Mae gwaith hefyd wedi dechrau yn yr ardaloedd cyntaf i'r gogledd o'r A48: y Mynydd Bychan, yr Eglwys Newydd a Thongwynlais, Ystum Taf a Rhiwbeina.

## Rhoi cynaliadwyedd wrth galon ein cynlluniau ar gyfer datblygiad Caerdydd yn y dyfodol

- **Gweithredu Blaengynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau**: Sefydlwyd gweithgor i gyflawni a gweithredu Blaengynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau, gan ystyried adnoddau presennol a blaenoriaethau eraill yng nghyd-destun y pandemig Covid-19 parhaus.
- **Rhwydwaith gwres ardal carbon-isel i wasanaethu Bae Caerdydd**: Mae'r Cyngor wedi llwyddo i sicrhau cyllid i weithredu cam cyntaf rhwydwaith gwres ardal carbon-isel sy'n gwasanaethu ardal Bae Caerdydd. Bydd y prosiect £15 miliwn hwn yn defnyddio gwres a gynhyrchir yng nghyfleuster Adfer Ynni Parc Trident ac yn ei ddosbarthu i amrywiaeth o adeiladau cwsmeriaid ar raddfa fawr drwy rwydwaith o bibellau dŵr sydd wedi'u hinswleiddio'n dda.

## Gweithio fel un tîm i gadw ein strydoedd yn lân

- **Adnoddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau glanhau**: Dyrannwyd adnoddau ychwanegol i ardaloedd ward mewnol Cathays, Plasnewydd, De Glan-yr-afon, Grangetown a Sblot ar gyfer darparu gwasanaethau glanhau.
- **Grwpiau gwirfoddol**: Mae grwpiau gwirfoddol fel Grŵp Afonydd Caerdydd wedi gweithio'n ddiogel, yn unol â'r rheolaethau sydd wedi'u rhoi ar waith mewn ymateb i Covid-19, i ymgymryd â gweithgareddau fel glanhau o amgylch ymyl Bae Caerdydd.
- **Ystafell reoli newydd i gefnogi'r gwasanaeth casglu gwastraff**: Mae ystafell reoli newydd bellach ar waith i gefnogi'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff a fydd yn helpu i fonitro perfformiad dyddiol yn ddeinamig. Cyflwynwyd synwyryddion bin sbwriel ychwanegol hefyd i hwyluso gweithrediadau mwy effeithlon wrth lanhau strydoedd.

- **Model newydd ar gyfer casgliadau gwastraff ac ailgylchu**: Gwnaed cynnydd o ran rheoli gwastraff, gyda gweithrediad wythnos waith pedwar diwrnod yn y tîm casglu, recriwtio staff parhaol, rhaglen fawr i adnewyddu fflydoedd, a gwelliant sylweddol mewn trefniadau iechyd a diogelwch yn y gweithle. Mae rowndiau casglu ailgylchu, gweddilliol a bwyd wedi'u hailgydbwyso gyda chriwiau bellach yn cyflawni 99-100% o'u horiau gwaith dan gontract, sy'n welliant sylweddol mewn cynhyrchiant o'i gymharu â threfniadau blaenorol.

### Gwneud Caerdydd yn ddinas ailgylchu o'r radd flaenaf

- **System archebu newydd ar gyfer Canolfannau Ailgylchu**: Cyflwynwyd system archebu ar gyfer dwy Ganolfan Ailgylchu'r ddinas i'w galluogi i ailagor yn ddiogel ddiwedd Mai 2020. Yn ogystal, lansiwyd system archebu ar gyfer casgliadau eitemau swmpus ar 9 Medi 2020 ar wefan y Cyngor ac Ap Caerdydd. Mae'r system archebu a'r rheolaethau newydd mewn Canolfannau Ailgylchu wedi gwella perfformiad ailgylchu i 90%.
- **Cynyddu fflyd cerbydau trydan y Cyngor**: Mae'r Cyngor wedi cyflwyno 12 cerbyd trydan i'r fflyd Ailgylchu a Gwasanaethau Cymdogaeth, gyda 5 Cerbyd Casglu Sbwriel trydan (e-RCVs) ar archeb – bydd hyn yn golygu mai'r Cyngor sydd â'r fflyd fwyaf o e-RCVs a gynhyrchir gan wneuthurwr yng Nghymru ac o bosibl y DU.

## Heriau a Risgiau

- **Cyflawni targedau ailgylchu statudol**:Gwnaeth newidiadau i gasgliadau gwastraff ac ailgylchu yn sgil Covid-19 olygu, rhwng 30 Mawrth ac 1 Mehefin 2020, fod yr holl wastraff ac ailgylchu a gasglwyd gan breswylwyr wedi'i anfon i'r ffatri Troi Gwastraff yn Ynni. Mae Covid-19, a'r effaith ar gasgliadau i ddiogelu'r gweithlu, wedi effeithio ar berfformiad drwy gydol y flwyddyn, ac nid yw'r targed perfformiad ailgylchu statudol o 64% wedi'i gyflawni.
- Bydd cyrraedd y targed hwn yn parhau i fod yn her perfformiad sylweddol i'r Cyngor yn 2020/21, yn ogystal â'r angen i gyrraedd y targed statudol o 70% erbyn 2024/25. Mae rhaglen waith i fynd i'r afael â'r tanberfformiad hwn yn cael ei datblygu mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, WRAP a phartneriaethau lleol. Yn gysylltiedig â hyn, mae ymdrech ar y cyd i wella perfformiad casgliadau gwastraff yn parhau, yn enwedig mewn perthynas â gwastraff gardd, casgliadau â chymorth, a thai amlfeddiannaeth. Mae argaeledd gweithlu wedi bod yn fater allweddol, a effeithiwyd gan brinder cenedlaethol o yrwyr HGV a chyfraddau absenoldeb salwch uchel yn y gwasanaeth.
- **Glendid strydoedd**: Ar lefel y ddinas, mae canran y priffyrdd y canfuwyd eu bod o safon glendid uchel neu dderbyniol yn uwch na'r targed o 90%. Fodd bynnag, mae nifer o wardiau, yn enwedig yng nghanol y ddinas ac yn ne'r ddinas, o dan y targed o 90% ar gyfer safon uchel neu dderbyniol o lendid.
- **Hyrwyddo newidiadau mewn ymddygiad preswylwyr o ran gwastraff ac ailgylchu**: Mae Covid-19 wedi effeithio ar waith i hyrwyddo newidiadau mewn ymddygiad preswylwyr o ran gwastraff ac ailgylchu, gyda'r ymgyrch sticer pinc, sy'n rhoi gwybod i breswylwyr pan fyddant yn rhoi gwastraff halogedig anaddas allan i'w ailgylchu, wedi'i gohirio. Unwaith y bydd y model casgliadau newydd wedi'i sefydlu'n llawn, a bod casgliadau'n cael eu cynnal fel y trefnwyd, bydd swyddogion yn ail-lansio'r ymgyrch. Dilynir y camau addysgu gan gamau gorfodi lle bo angen.

- **Strategaeth Dŵr, Llifogydd a Draenio Cynaliadwy**: Mae erydu arfordirol, a pheryglon llifogydd cysylltiedig yn ymwneud â chyflwr yr amddiffynfeydd llifogydd presennol, yn parhau i fod yn faes risg mawr i'r Cyngor ac fe'i cydnabyddir yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Cafodd y gwaith o ddatblygu Strategaeth Dŵr, Llifogydd a Draenio Cynaliadwy ar gyfer Caerdydd ei ohirio am 12 mis ym mis Chwefror 2020, oherwydd effeithiau parhaus stormydd Chwefror 2020 ar y Tîm Rheoli Perygl Llifogydd, yn ogystal â phwysau parhaus yn gysylltiedig â Covid-19. Mae argaeledd arian cyfatebol wedi arwain at oedi pellach wrth ddatblygu'r Strategaeth, gyda gwaith yn parhau i geisio dod o hyd i ateb.  Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda chyrff allanol fel Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli'r risg weddilliol.
- **Trafnidiaeth gyhoeddus a Covid-19**: Mae effaith y cyfnodau clo a gofynion ymbellhau cymdeithasol wedi cael effaith fawr ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig cwmnïau bysus trefol, gyda nifer y teithwyr yn cwympo'n ddramatig a gwasanaethau'n cael eu cwtogi. Felly, mae rheoli'r effaith barhaus ar symudedd a'r rhwydwaith trafnidiaeth yn hanfodol wrth symud ymlaen. Mae'r Cyngor wedi cefnogi'r gweithredwyr bws drwy Gynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau (BES2) Llywodraeth Cymru ac mae'n gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu'r Strategaeth Bysus fel rhan o raglen o ddiwygiadau bws arfaethedig.
- **Ôl-ffitio tai**: Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen am uwchraddio mawr mewn gweithgarwch ôl-ffitio, yn enwedig mewn tai preifat, er mwyn mynd i'r afael â her carbon y ddinas gyfan. Mae amrywiaeth o fecanweithiau ariannu eisoes yn bodoli ond mae'r nifer sy'n manteisio ar y rhain wedi bod yn isel ac mae'r prosesau ar gyfer cael gafael arnynt yn aml yn gymhleth. Mae'r Cyngor yn gweithio'n ddiwyd gyda Dinas-ranbarth Caerdydd i archwilio a datgloi pob llwybr posibl a allai helpu i hwyluso a chyflymu'r defnydd o fesurau effeithlonrwydd ynni yn stoc breswyl y ddinas.
- **Plastigau untro**: Mae'r Cyngor bellach wedi datblygu cynllun gweithredu ar gyfer cael gwared ar blastigau untro o holl adeiladau'r Cyngor fel rhan o'r Strategaeth Caerdydd Un Blaned. Fodd bynnag, nid yw'r prosiect wedi datblygu yn unol â therfynau amser gwreiddiol gan nad yw adeiladau'r Cyngor wedi'u meddiannu yn ystod y pandemig. Mae angen gwneud rhagor o waith gyda phartneriaid i ddatblygu ymateb ledled y ddinas i blastigau untro ym mhob gwasanaeth cyhoeddus.
- **Aer glân**:  Yn 2018 derbyniodd y Cyngor gyfarwyddyd cyfreithiol gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod lefelau llygredd aer yn is na gwerth terfyn yr UE, yn benodol lefelau nitrogen deuocsid (NO2). Mewn ymateb, cynhaliodd y Cyngor ddadansoddiad manwl o lefelau llygredd aer ar draws y ddinas, a nododd mai Stryd y Castell oedd yr unig stryd nad oedd yn cydymffurfio. Arweiniodd y mesurau dros dro a sefydlwyd ar Stryd y Castell mewn ymateb i Covid-19 at welliant sylweddol mewn ansawdd aer yn 2020/21, gan sicrhau cydymffurfiaeth â Therfyn yr UE ar gyfer NO2 cyn y dyddiad a ragwelwyd yng Nghynllun Aer Glân y Cyngor. Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod y rhwymedigaethau, fel y'u nodir yng nghyfarwyddyd cyfreithiol Llywodraeth Cymru, yn cael eu bodloni a bod cydymffurfiaeth yn cael ei chynnal yn yr hirdymor.

## Edrych 'Mlaen: Meysydd o Ffocws

Er mwyn sicrhau bod Caerdydd yn parhau i dyfu mewn ffordd gynaliadwy a gwydn, mae'r meysydd ffocws yn y dyfodol yn cynnwys:

- Mae Strategaeth Ailgylchu Caerdydd yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a bydd strategaeth gynhwysfawr newydd yn cael ei rhyddhau yn hydref 2021, gan gynnwys cynllun gweithredu i gyflawni targedau ailgylchu o 64%, a 70% erbyn 2025.

- Gwnaed cynnydd o ran diwygio'r gweithlu mewn perthynas â chasgliadau gwastraff gan symud tuag at wythnos waith pedwar diwrnod, recriwtio staff, cyfnewid fflydoedd a threfniadau iechyd a diogelwch yn y gweithle, gyda gwelliannau i wasanaethau'n amlwg mewn rowndiau casglu ailgylchu, gweddilliol a bwyd. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn waith sy'n mynd rhagddo a bydd angen iddo barhau fel maes allweddol o ffocws corfforaethol ar gyfer 2021/22. O ran gwasanaethau strydlun ehangach, mae canran y priffyrdd y canfuwyd eu bod o safon glendid uchel neu dderbyniol yn uwch na'r targed o 90%; ond mae lefelau glendid strydoedd yn amrywio ac nid yw safonau'n cael eu bodloni mewn nifer o wardiau yng nghanol y ddinas a'r cyffiniau ac yn ne'r ddinas.
- Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu prosiectau Uwchgynllun Trafnidiaeth Canol y Ddinas rhwng 2020 a 2022, gan gynnwys Cynllun Dwyrain Canol y Ddinas a'r Gamlas, Stryd y Castell a'r Sgwâr Canolog.
- Cyhoeddir Strategaeth Caerdydd Un Blaned lawn a therfynol yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gan gynnwys manylion methodoleg cyfrifo carbon y Cyngor a phroses o flaenoriaethu prosiectau, ynghyd â chynllun gweithredu 10-mlynedd manylach i gyflawni uchelgeisiau Carbon Niwtral y Cyngor.
- Cyhoeddir Strategaeth Eiddo Corfforaethol 2021-26 eleni, a fydd yn sefydlu nodau ac amcanion allweddol yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn lleihau allbwn carbon ac yn ei wrthbwyso gyda ffynonellau ynni adnewyddadwy newydd.
- Yn y tymor hwy, mae'n bwysig bod y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd yn llwyr gefnogi'r uchelgais ar gyfer datblygiadau carbon niwtral, a bod egwyddorion dylunio ac adeiladu cynaliadwy yn cael eu hintegreiddio'n llawn i'r broses baratoi dros y tair blynedd a hanner nesaf. Dechreuodd y broses o baratoi'r CDLl Newydd yn ffurfiol yng ngwanwyn 2021.
- Gosodir gwefrwyr 22kW cyflym yn neg maes parcio'r Cyngor yn ystod y misoedd nesaf, gan gefnogi'r camau arfaethedig i gynyddu'r rhwydwaith Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCP) ledled y ddinas. Bydd EVCPau hefyd yn cael eu gosod mewn tri o brif leoliadau'r Cyngor, sef Coleridge Road, Neuadd y Sir, a Ffordd Lamby.
- Disgwylir i'r gwaith o adeiladu'r rhwydwaith gwres ardal carbon-isel sy'n gwasanaethu ardal Bae Caerdydd ddechrau yn hydref 2021, gyda'r gwres cyntaf yn cael ei gyflenwi erbyn hydref/gaeaf 2022.
- Fel rhan o'r ymrwymiad ehangach i aer glân, mae'r Cyngor yn ceisio ehangu ei rwydwaith monitro amser real, gan sicrhau bod gan Gaerdydd rwydwaith monitro rheoleiddiol uwch ar gyfer data ansawdd aer, gan alluogi'r Cyngor i gydymffurfio ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Bydd y data a gesglir yn sylfaen ar gyfer ymchwil, datblygu polisi, dadansoddi'r effaith ar iechyd a dealltwriaeth y cyhoedd o ansawdd aer yn ehangach ledled Caerdydd.
- O ganlyniad i fonitro traffig ac ansawdd aer, yr ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â dyfodol Stryd y Castell, a dadansoddiad pellach o'r adferiad o Covid-19, cytunodd Cabinet y Cyngor i addasu'r trefniadau dros dro presennol ar Stryd y Castell i ganiatáu i bob cerbyd (gan gynnwys ceir) gael mynediad i ddwy lôn ar Stryd y Castell, gyda lôn fysus tua'r gorllewin a llwybr beicio dwyffordd ar wahân yn cael eu cadw. Bydd yr addasiad hwn i'r trefniadau dros dro presennol yn galluogi dadansoddi, monitro ac asesu pellach cyn i gynllun parhaol gael ei weithredu ar ôl adfer o Covid-19




# Amcan Lles 7:
## Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus

Yn wyneb galw cynyddol a chyllidebau sy'n lleihau, nododd Uchelgais Prifddinas raglen foderneiddio a fyddai'n gwella effeithlonrwydd, yn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau'n well ac yn hyrwyddo canlyniadau cymdeithasol ac amgylcheddol. Fodd bynnag, cyflymwyd yr agenda hon yn sylweddol gan yr her o ymateb i Covid-19, gyda newid cyflym a llwyddiannus i weithio gartref, mwy o ddefnydd o dechnoleg wrth ddarparu gwasanaethau a chymhwyso arloesedd gwasanaethau ar gyflymder a graddfa ddigynsail.

Mae'r Cyngor yn dymuno adeiladu ar y llwyfan hwn, gan ddatblygu dull newydd sy'n dwyn ynghyd asedau, technoleg a'r gweithlu i ddatgloi arbedion effeithlonrwydd pellach, sicrhau enillion cynhyrchiant a darparu cynnig gwasanaeth gwell. Bydd yn caniatáu i'r Cyngor ddod yn sefydliad mwy hyblyg, gan ddarparu gwasanaeth mwy ymatebol a hyblyg i ddinasyddion ac amgylchedd gwaith mwy hyblyg i staff tra'n lleihau costau asedau, ynni a thrafnidiaeth y Cyngor.

**Ein blaenoriaethau yn 2020/21 oedd:**

- Cyflawni llai o adeiladau, ond adeiladau gwell i'r Cyngor
- Adeiladu o'r newydd a diwygio ein gwasanaethau cyhoeddus er mwyn iddynt allu wynebu heriau'r 2020au
- Sicrhau ein bod yn Gyngor sy'n gwrando ac yn siarad yn well gyda'r ddinas rydym yn ei gwasanaethu
- Cyflawni ein Strategaeth Ddigidol uchelgeisiol

## Llwyddiannau Allweddol yn 2020/21

### Cyflawni llai o adeiladau, ond adeiladau gwell i'r Cyngor

- **Sicrhau bod adeiladau'r Cyngor yn ddiogel rhag Covid**: Mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, mae gwaith helaeth wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod adeiladau ac ysgolion y Cyngor yn 'Covid-ddiogel', gan ganiatáu i wasanaethau ailddechrau ac i ysgolion aros ar agor i bob plentyn.
- **Gwella a moderneiddio ystâd y Cyngor**: Mae'r broses o gwblhau Strategaeth Eiddo Corfforaethol 2015-20 wedi gweld gwaith mawr yn parhau i wella a moderneiddio ystâd y Cyngor, gan gynnwys gwelliannau sylweddol i adeiladau ysgol, gan sicrhau eu bod yn addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.
- **Lleihau ôl troed llety'r Cyngor**: Ym mis Tachwedd 2020, dewisodd y Cyngor beidio ag adnewyddu'r brydles ar Dŷ Willcox ac adleoli staff i Neuadd y Sir neu i drefniadau gweithio ystwyth/gartref. Mae hyn wedi lleihau ôl troed llety'r Cyngor gan tua 60,000 troedfedd sgwâr a rhyddhau costau o tua £1.5 miliwn.

### Adeiladu o'r newydd a diwygio ein gwasanaethau cyhoeddus er mwyn iddynt allu wynebu heriau'r 2020au

- **Gwelliannau sylweddol mewn absenoldeb salwch**: Mae absenoldeb salwch wedi bod yn faes hirsefydlog o her i'r Cyngor, fodd bynnag, gwelwyd gwelliannau sylweddol yn ystod 2020/21. Y sefyllfa alldro ar gyfer 2020/21 oedd 8.6 diwrnod cyfwerth ag amser llawn (CALl) wedi'u colli fesul cyflogai ar draws y Cyngor, sy'n is na'r targed o 9.5 diwrnod wedi'u colli fesul cyflogai. Mae hyn yn welliant o 3.17 diwrnod o gymharu â 2019/20. Mae absenoldeb salwch byrdymor hefyd yn parhau i ostwng, gyda gostyngiad o 48% o gymharu â 2019/20. At hynny, er bod salwch hirdymor yn cyfrif am 78% o'r holl absenoldebau, mae nifer y diwrnodau a gollwyd wedi gostwng gan 15,000 o ddiwrnodau.
- **Dull cryfach o reoli perfformiad a dadansoddi data**: Mae'r Cyngor wedi cymryd cyfres o gamau i gryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad dros y 18 mis diwethaf. Mae hyn wedi cynnwys sesiynau herio perfformiad a alwyd gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr, asesiadau strategol hanner blwyddyn yn dwyn ynghyd wybodaeth am berfformiad o ystod eang o ffynonellau, delweddu data gwell a datblygu rôl y Panel Perfformiad Craffu. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa dda i ymateb i ofynion newydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- **Iechyd corfforaethol**: Mae gwaith yn parhau tuag at y Safon Iechyd Corfforaethol Aur ac mae'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn ei ailasesiad ar gyfer y Safon Arian. Mae ffocws y Safon dros y 12 mis diwethaf, yn ystod y pandemig Covid-19, wedi ymwneud ag aros yn iach wrth weithio gartref.
- **Cynyddu cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles**: Mae'r cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles wedi cynyddu, drwy gontract Carefirst y Cyngor, yn ogystal â'r tîm cwnsela mewnol. Mae Therapi Gwybyddol Ymddygiadol hefyd wedi symud i ddarpariaeth fewnol, gan leihau costau, a gwelwyd gwelliant o ran cwnsela trawma, ffisiotherapi rhithwir a chymorth cyfarpar sgrin arddangos i weithwyr o gartref.

## Sicrhau ein bod yn Gyngor sy'n gwrando ac yn siarad yn well gyda'r ddinas rydym yn ei gwasanaethu

- **Boddhad dinasyddion â gwasanaethau'r Cyngor**: O ran boddhad dinasyddion â gwasanaethau'r Cyngor, mae Caerdydd yn parhau i ddangos tuedd o welliant. Dangosodd Arolwg Diweddaraf Holi Caerdydd yn 2020 fod 67% o ddinasyddion yn fodlon ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu, cynnydd o 11% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn benodol, mae 79.1% o ddinasyddion yn mwynhau parciau a mannau agored Caerdydd, mae 74.6% yn fodlon ar oleuadau stryd ac mae 71% yn fodlon ar lyfrgelloedd a Hybiau.
- **Llywodraethu democrataidd parhaus drwy gydol y pandemig**: Mae llywodraethu democrataidd y Cyngor wedi parhau i weithredu'n effeithiol ar-lein yn ystod y pandemig. Mae cyfarfodydd llawn y Cyngor, cyfarfodydd Cabinet a chyfarfodydd Craffu i gyd wedi symud i fideo-gynadledda gyda chyfarfodydd yn parhau i gael eu gwe-ddarlledu i'r cyhoedd.
- **Craffu parhaus drwy gydol y pandemig**: Mewn ymateb i'r cyfnod clo cyntaf, sefydlwyd Panel Craffu Covid o bell i brofi penderfyniadau amser-gritigol ac archwilio ymateb y Cyngor i'r pandemig. Gwnaeth y trefniant i ailgychwyn pob un o'r pum Pwyllgor Craffu o bell ym mis Medi 2020, wedi'u fframio i sicrhau craffu mesuredig a chymesur, alluogi lleisiau rhanddeiliaid i gael eu clywed, gyda 96 o leisiau allanol yn llywio gwaith craffu yn ystod 2020/21. Yn gyffredinol, gwnaeth Pwyllgorau Craffu 201 o argymhellion i'r Cabinet yn 2020/21 ac, o'r ymatebion a gafwyd hyd yma, mae'r Cabinet wedi derbyn 70% yn llawn a 22% yn rhannol, gan ddangos y gwerth a ychwanegwyd drwy graffu. Wrth symud ymlaen, mae Craffu'n gwella mecanweithiau ar-lein i gynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad y cyhoedd, gan helpu i sicrhau bod lleisiau lleol yn siapio ac yn llywio ei waith a gwaith cyffredinol y Cyngor.

## Defnyddio grym y pwrs cyhoeddus i sicrhau cynnydd cymdeithasol

- **Fframwaith Gwerth Cymdeithasol**: Sefydlwyd Fframwaith a Phorth Gwerth Cymdeithasol, gyda Themâu, Canlyniadau a Mesurau (ThCM) Cymru-gyfan yn cael eu lansio ym mis Tachwedd 2020, a chwaraeodd y Cyngor ran arweiniol yn y gwaith datblygu drwy Dasglu Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru. Mae'r ThCMau yn cael eu treialu ac mae dogfennau tendro safonol yn parhau i gael eu mireinio ar sail profiad. Mae hyfforddiant hefyd wedi'i ddatblygu ar gyfer y ThCMau a'r porth, a fydd yn cael ei gyflwyno ledled y Cyngor yn 2021/22.
- **Cefnogi'r economi sylfaenol**: Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi'r economi sylfaenol drwy weithredu ei Bolisi Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol, gan sicrhau bod pobl a chymunedau lleol yn elwa o'r arian y mae'r Cyngor yn ei wario ar nwyddau a gwasanaethau. Mae dadansoddiad o wariant busnesau cymdeithasol wedi'i gynnal i nodi meysydd posibl lle gallai'r Cyngor geisio darparu mwy o gyfleoedd, gyda'r nod o weithio gyda Chyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC) yn 2021 i ddatblygu cynlluniau i gefnogi busnesau cymdeithasol i chwilio am gyfleoedd caffael gyda'r Cyngor.

### Cyflawni Strategaeth Ddigidol uchelgeisiol y Cyngor

- **Buddsoddi mewn seilwaith digidol a gweithio gartref**: Roedd y gwaith o fuddsoddi mewn seilwaith, gwasanaethau a sgiliau digidol yn golygu bod y Cyngor mewn sefyllfa dda i symud i waith digidol ac ar-lein a oedd yn ofynnol yn sgil y pandemig, gyda nifer y cysylltiadau o bell yn codi o 500 i dros 4,000.
- **Arwain mentrau dinas-eang a chenedlaethol mewn ymateb i'r pandemig Covid-19**: Galluogodd sgiliau digidol cadarn i'r Cyngor arwain ar nifer o fentrau dinas-eang a chenedlaethol mewn ymateb i'r pandemig Covid-19, megis creu Gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (POD) Caerdydd a'r Fro, a rhaglen brechu torfol y ddinas. Cafodd gwasanaethau digidol eraill eu datblygu a'u hehangu'n gyflym hefyd mewn ymateb i'r pandemig, gan gynnwys taliadau Prydau Ysgol am Ddim ar-lein, tudalennau cyfrannu apêl bwyd/cronfa galedi a ffurflenni cais ar-lein am grantiau busnes.
- **SgyrsFot newydd**: Mae 'BOBi', SgyrsFot y Cyngor, wedi galluogi cwsmeriaid i ymgysylltu â'r Cyngor ar gyfer ymholiadau fel casgliadau gwastraff, y dreth gyngor a materion sy'n ymwneud â Covid-19. Mae gwaith wedi parhau dros y flwyddyn i ehangu a dyfnhau'r gwasanaethau a gynigir, yn ogystal â gwella ymatebion sgwrsio ac ymholi. Ers ei ail-lansio fis Ebrill diwethaf, mae'r bot wedi cael dros 40,500 o sgyrsiau gyda chwsmeriaid, gyda sgôr adborth o dros 85%.
- **'Newid sianel' parhaus**: Cysylltodd tua 1.9 miliwn o gwsmeriaid â'r Cyngor drwy sianeli digidol yn 2020/21, 650,000 yn fwy o gysylltiadau o gymharu â 2019/20. Mae Ap Caerdydd hefyd yn parhau i weld cynnydd sylweddol mewn defnydd gan ddinasyddion, gyda chynnydd o 74% yn nifer y lawrlwythiadau o gymharu â 2019/20. Mae'r datblygiad digidol yn galluogi gwasanaethau i gael gafael ar ddata a dadansoddiadau amser real, a chynllunio gwasanaethau'n briodol.

## Heriau a Risgiau

- **Gwydnwch ariannol**: Mae'r pandemig Covid-19 parhaus yn dal i gael effaith ariannol sylweddol. Mae'r Cyngor wedi mynd i gostau ychwanegol sylweddol drwy weithio i addasu gwasanaethau cyhoeddus, cefnogi busnesau a gweithwyr lleol, a chadw dinasyddion, yn enwedig dinasyddion mwyaf agored i niwed y ddinas, yn ddiogel. Yn ogystal, mae colledion incwm wedi bod yn sylweddol, yn enwedig o ganlyniad i gau lleoliadau diwylliannol a chwaraeon y Cyngor. Mae rhai o'r costau a'r incwm hyn wedi'u hadennill drwy Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n parhau i fod yn heriol dros ben, ac mae parhad/blaenoriaethu cymorth ariannol ar ôl Covid-19 yn parhau i fod yn risg ariannol fawr. Bydd yn hanfodol i'r Cyngor gael cynlluniau adfer cadarn a bod y risgiau allweddol hyn yn cael eu monitro'n ofalus yn ystod 2021/22.

  Yn ogystal â'r argyfwng Covid-19, mae rhai cyfarwyddiaethau'n parhau i wynebu pwysau ariannol hirsefydlog a sylweddol, gyda heriau parhaus yn ymwneud â chynllunio a chyflawni arbedion effeithlonrwydd adrannol. Mae sefyllfa refeniw derfynol y Cyngor yn adlewyrchu sefyllfa gytbwys gyffredinol, ac roedd gwariant o fewn ei gyllideb gymeradwy ar gyfer 2020/21. Fodd bynnag, mae diffyg arbedion adrannol yn 2020/21 yn dangos pwysigrwydd absoliwt Cynllun Ariannol Tymor Canolig cadarn a disgyblaeth i wireddu arbedion. Felly, adolygwyd cyflawnadwyedd arbedion effeithlonrwydd adrannol ar gyfer 2021/22 er mwyn sicrhau y gellir eu cyflawni yn ôl y bwriad. Mae mwy o waith

cynllunio gwasanaeth wedi'i wneud mewn nifer o feysydd, gan fynd i'r afael â heriau strategol i sicrhau atebolrwydd, metrigau a thargedau clir.

Wrth symud ymlaen, bydd angen rhoi mwy o bwyslais ar y sefyllfa gyfalaf, gan fod cynnydd mewn costau a phwysau cyflenwi yn dechrau arwain at oblygiadau o ran cyflawni'r rhaglen gyfalaf.

- **Absenoldeb salwch a lles staff**: Er bod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud o ran absenoldeb salwch drwy gydol 2020/21, nid yw'n glir a yw'r enillion a wnaed yn ystod 2020/21 yn gynaliadwy ar ôl y pandemig. Mae angen i'r Cyngor 'sicrhau'r' gwelliannau hyn, gan gydnabod yr effaith y bydd ymbellhau cymdeithasol, gweithio gartref a mwy o hylendid wedi'i chael ar salwch. Nid yw gwelliannau a wnaed o ran absenoldeb salwch yn unffurf ar draws y Cyngor chwaith, gyda rhai gwasanaethau'n cofnodi absenoldeb salwch sy'n gyson uchel. Bydd dull targedig yn parhau i gael ei ddefnyddio, gyda chamau rheoli i wella perfformiad. At hynny, mae angen parhau i roi sylw i leihau absenoldeb salwch hirdymor gan ganolbwyntio ar reoli achosion, disgyblaeth reoli a darparu cymorth. Yn gysylltiedig â hyn, bydd cefnogi lles corfforol a meddyliol staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gyda chymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu, yn enwedig i'r rhai sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael.
- **Pontio'n effeithiol ac yn deg i fodel gweithio hybrid**: Er bod mwy o weithio gartref a gweithio hyblyg wedi arwain at nifer o fanteision, nodwyd heriau hefyd, gan gynnwys: colli rhyngweithio personol rhwng staff; perygl y gallai'r rhai sy'n gweithio gartref brofi aneglurder yn y llinell rhwng eu bywyd gwaith a'u bywyd cartref; sicrhau bod amgylcheddau'r cartref yn ddiogel ac yn briodol ar gyfer gwaith; a'r her o gynnal cyfarfodydd ar-lein sy'n gofyn am feddwl a datrys problemau'n greadigol. Wrth symud ymlaen, mae'r Cyngor yn ceisio cyflwyno model 'gweithio hybrid' sy'n cadw'r manteision o weithio gartref a gweithio hyblyg a brofwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, tra'n lliniaru'r heriau a nodwyd.

## Edrych 'Mlaen: Meysydd o Ffocws

Wrth i'r Cyngor barhau i addasu i heriau a chyfleoedd ei amgylchedd gweithredu newydd o ganlyniad i'r pandemig, bydd nifer o gamau'n cael eu cymryd fel rhan o agenda adfer ac adnewyddu'r sefydliad:

- Er mwyn ymgorffori'r gwelliannau i wasanaeth, yr hyblygrwydd a gynigiwyd i staff a'r enillion cynhyrchiant a gyflawnwyd yn ystod y pandemig, mae'r Cyngor yn datblygu model 'gweithio hybrid'. Bydd y model yn canolbwyntio ar bedwar maes gwaith rhyng-gysylltiedig: pobl, gweithle, technoleg a thrawsnewid gwasanaethau. Fel rhan o'r gwaith hwn bydd y Cyngor yn:
- Dechrau rhaglen o ymgysylltu ag undebau llafur a staff ar ddatblygiad y model.
- Cynnal adolygiad o ofynion polisi cyflogeion perthnasol y Cyngor, gan gynnwys y Polisi Gweithio Gartref a pholisïau gweithio ystwyth cysylltiedig, er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi'r newid i fodel 'gweithio hybrid'.
- Gofyn i bob gweithiwr o gartref a nifer o weithwyr o gartref a gweithwyr hyblyg gael asesiadau iechyd a diogelwch rheolaidd, er mwyn sicrhau bod y staff hynny sy'n gweithio gartref yn gweithio mewn amgylcheddau diogel a phriodol. Bydd asesiadau gweithio gartref yn cael eu hailadrodd ar gyfnodau priodol a bennir gan y risg dan sylw.

- Datblygu rhwydwaith o weithfannau achlysurol cymunedol a hybiau gweithio o bell, wedi'u lleoli yn adeiladau'r Cyngor neu bartneriaid mewn cymunedau ledled y ddinas, sy'n cynnwys gofod desg hyblyg, ystafelloedd cyfarfod a mannau cydweithio y gellir eu cadw ar-lein. Bydd sefydlu'r pwyntiau/mannau 'achlysurol' hyn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â'r ffocws ar 'weithio lleol', mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus mawr eraill, a bydd yn cefnogi'r gwaith o adfywio canolfannau cymunedol a rhanbarthol lleol.
- Adolygu natur a graddfa ôl troed adeiladau'r Cyngor a, lle y bo'n briodol, rhesymoli, addasu neu foderneiddio. Bydd Strategaeth Eiddo Corfforaethol newydd (2021-26) hefyd yn cael ei chyflwyno yn ystod 2021/22.
- Cyflymu Rhaglen Ddigidol y Cyngor:
    - Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y newid tuag at wasanaethau ar-lein a digidol yn parhau ar ôl y pandemig. I adlewyrchu hyn, bydd y Cyngor yn adolygu ac yn adnewyddu ei Strategaeth Ddigidol dros y flwyddyn i ddod.
    - Bydd y Cyngor yn datblygu cynllun i Gaerdydd ddod yn Ddinas Glyfar, er mwyn rheoli ynni, llif traffig, tagfeydd ac ansawdd aer.
- Parhau i gryfhau'r dull o reoli perfformiad a dadansoddi data:
    - Er mwyn ymateb i ofynion perfformiad newydd ac adeiladu ar y gwelliannau mewn adrodd a rheoli perfformiad corfforaethol, a'r rhai a ddeddfwyd mewn ymateb i'r pandemig, bydd Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd yn cael ei gyflwyno ochr yn ochr â Strategaeth Ddata newydd ar gyfer y Cyngor.
- Parhau i ddefnyddio grym y pwrs cyhoeddus i sicrhau cynnydd cymdeithasol
- Bydd y Cyngor yn datblygu Strategaeth Gaffael Cymdeithasol-Gyfrifol newydd, yn seiliedig ar Fil Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Bydd y Strategaeth yn ailddatgan ymrwymiad y Cyngor i ddefnyddio ei brosesau a'i weithdrefnau caffael i gyflawni ei Amcanion Lles.
- Bydd y Cyngor yn parhau i chwarae rhan flaenllaw yng Nhasglu Gwerth Cymdeithasol Cenedlaethol Cymru. Ochr yn ochr ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, bydd y Cyngor yn gweithio i ddatblygu dull gweithredu Themâu, Canlyniadau, Mesurau (ThCMau) safonol ledled Cymru a fydd yn ei gwneud yn haws i gontractwyr ymgeisio am waith.
- Bydd y Cyngor yn anelu at sefydlu cymalau cymdeithasol ym mhob un o brif gontractau a rhaglenni cyfalaf y cyngor, er mwyn creu cymaint o swyddi lleol â phosibl a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol a busnesau lleol.




UCHELGAIS PRIFDDINAS
CAPITAL AMBITION

CARDIFF
CAERDYDD